# Y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft

## Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## Rhan 2

Cyflwyniad ....... 3
1. Diwygiadau Cyfansoddiadol ....... 4
1.1. Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (a23-35) ....... 5
1.2. Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol (a37-40) ....... 14
1.3. Pwyllgorau ardaloedd cymunedol (a43-63) ....... 22
1.4. Ceisiadau Gwella (a64-74) ....... 28
1.5. Darlledu a ffilmio Cyfarfodydd Cynghorau (a76-77) ....... 32
1.6. Arweiniad i'r Cyfansoddiad (a79) ....... 38
1.7. Dyletswyddau ar Gynghorwyr Sir a Chymuned (a82-88, 167-170) ....... 44
1.8. Adroddiadau Blynyddol a Pherfformiad Cynghorwyr Sir (a86-93, s96, s109) ....... 50
1.9. Dyletswydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad (a98) ....... 56
1.10. Rolau a Chyfrifoldebau Arweinwyr a Meiri Etholedig (a99, 104) ....... 62
1.11. Ystyriaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth Benodi Aelodau'r Cabinet a Chynorthwywyr i'r Weithrediaeth (a101-102) ....... 68
1.12. Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu (a107) ....... 74
1.13. Cyd-bwyllgorau Craffu (a108) ....... 77
2. Gwella trefniadau llywodraethu ....... 80
2.1. Cynlluniau Corfforaethol (a112-115) ....... 81
2.2. Hunanasesu ac Asesu gan Gymheiriaid (a116-122) ....... 86
2.3. Asesiadau Cyfun a Chydgysylltu rhwng Rheoleiddwyr (a123-127, 143) ....... 90
2.4. Ymyriadau (a128-142) ....... 95
2.5. Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (a148-152) ....... 100
3. Cynghorau Cymuned ....... 104
3.1. Adolygu Trefniadau Cynghorau Cymuned (a153-166) ....... 105
3.2. Cynghorau Cymuned â chymhwysedd (a31-35) ....... 111
4. Materion sy'n ymwneud â'r Gweithlu ....... 116
4.1. Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus ar Faterion sy'n ymwneud â'r Gweithlu a Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus (a172-178) ....... 116
5. Crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ....... 121
5.1. Costau ....... 121
Tablau Cost Cryno ....... 122
Costau Llywodraeth Leol ....... 122
Costau Llywodraeth Cymru ....... 123
5.2. Manteision ....... 124

## Cyflwyniad

Amlinellodd y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* weledigaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol yng Nghymru. Yn ogystal â rhaglen o uno Awdurdodau Lleol, roedd y weledigaeth hon yn cynnwys amrywiaeth eang o ddiwygiadau eraill i atgyfnerthu gallu Llywodraeth Leol i gynrychioli pobl leol, darparu gwasanaethau effeithiol ac wynebu heriau yn y dyfodol. Er mwyn helpu Awdurdodau Lleol drwy'r newidiadau, ymgynghorwyd hefyd ynghylch cynnig i sefydlu Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus ym mis Hydref 2014. Y diwygiadau hyn, gyda'i gilydd, yw'r sylfaen dros Lywodraeth Leol lwyddiannus a chynaliadwy yng Nghymru.

Cyflwynir llawer o'r cynigion polisi hyn fel darpariaethau deddfwriaethol yn y Bil Llywodraeth Leol (Cymru) Drafft. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn nodi'r opsiynau a ystyriwyd gennym ar gyfer pob darpariaeth ac yn asesu costau a manteision posibl.

Cafodd pob opsiwn ei asesu gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael i Lywodraeth Cymru. Cyfrifir y costau a'r manteision ar lefel Cymru gyfan. Nid yw'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn rhagweld nac yn mesur y penderfyniadau posibl y bydd Pwyllgorau Pontio neu'r Cynghorau Sir newydd yn eu gwneud yn y dyfodol, gan y bydd angen i effaith y rhain gael ei hasesu'n llawn yn lleol.

Drwy'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft cyfan, caiff costau a manteision eu hamcangyfrif ar sail flynyddol, ac yna eu coladu dros gyfnod o ddeng mlynedd. Mae costau staff yn seiliedig ar raddfeydd cyflog sy'n is na'r uchafswm, gan ddefnyddio blynyddoedd 52 wythnos ac wythnos pum diwrnod gwaith. Mae costau staff yn cynnwys gwyliau blynyddol a gwyliau cyhoeddus.

Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu y bydd y broses o uno Awdurdodau Lleol a diwygio Llywodraeth Cymru yn ategu ei gilydd. **Oni nodir fel arall, gan mai'r Cynghorau Sir newydd a fyddai'n gweld effeithiau llawn y diwygiadau arfaethedig, mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn asesu'r bwriadau polisi yng nghyd-destun y broses uno arfaethedig. Cafodd costau a manteision eu cyfrifo ar sail wyth neu naw Awdurdod Lleol yng Nghymru (yr opsiwn a ffefrir o Ran 1), yn hytrach na'r 22 awdurdod presennol.**

Mewn rhai achosion, ystyriwyd ei bod yn briodol cyflwyno ystod o gostau amcangyfrifedig. Bydd y rhesymau dros hyn yn cael eu hegluro yn y cyd-destun.

Mae ffigurau wedi cael eu talgrynnu drwy'r Asesiad Effaith cyfan i lefel cywirdeb a ystyrir yn briodol ar gyfer y cyfrifiadau perthnasol. Efallai na fydd rhesi a cholofnau rhai tablau yn cyfateb i golofn y cyfanswm oherwydd y broses dalgrynnu hon.

Ceir rhagor o gyfrifiadau manwl a thybiaethau ategol yn Atodiad B.

# 1. Diwygiadau Cyfansoddiadol

Mae’r Bil Drafft yn cynnig nifer o ddiwygiadau cyfansoddiadol i greu Cynghorau Sir sy’n fwy agored, sy’n fwy tryloyw, ac sy’n ymgysylltu â’u cymunedau.

Mae’r cynigion hyn yn cynnwys mesurau i wneud y canlynol:

- rhoi’r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i Gynghorau Sir, a chyflwyno cynllun o Gynghorau Cymuned â chymhwysedd;
- gwella’r ffordd y mae Llywodraeth Leol yn ymgysylltu drwy hyrwyddo cyfranogiad y cyhoedd, sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol, galluogi cyrff cymunedol i wneud ceisiadau gwella, gwella mynediad at gyfarfodydd Cynghorau Sir a pharatoi arweiniad hawdd ei ddeall i’w Cyfansoddiad;
- nodi rôl a chyfrifoldeb Arweinwyr, y Cabinet, Aelodau Etholedig a Phrif Weithredwyr mewn cyfraith, gan gynnwys, lle y bo’n briodol, bennu a monitro amcanion a chosbau am fethu â chyflawni dyletswyddau;
- galluogi penodi cynorthwywyr i’r Weithrediaeth;
- atgyfnerthu trefniadau craffu fel y bydd pwyllgorau yn cael eu hysbysu ymlaen llaw o benderfyniadau allweddol a gwneud darpariaeth bellach ynglŷn â chydbwyllgorau craffu.

## 1.1. <u>Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (a23-35)</u>

### Cefndir

Ni nodir rôl Awdurdodau Lleol mewn unrhyw ddarn penodol o ddeddfwriaeth, ond fe'i diffinnir gan y swyddogaethau a'r dyletswyddau a roddwyd iddynt dros amser. Nodir swyddogaethau Awdurdodau Lleol mewn cyfraith a chânt eu cyfyngu o dan y gyfraith. Ni all unrhyw Awdurdod Lleol weithredu heb awdurdod cyfreithiol. Tybid bod gweithgarwch a gynhelir yn absenoldeb pwerau statudol yn *ultra vires* – yn anghyfreithlon.

Gellir dyddio'r syniad o ddileu'r cyfyngiad hwn drwy gyflwyno rhyw fath o 'Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol' i Awdurdodau Lleol yn ôl i 1967 o leiaf. Nododd adroddiad Comisiwn Maud ar Reoli mewn Llywodraeth Leol:

> *Ultra vires* as it operates at present has a deleterious effect on Local Government because of the narrowness of the legislation governing Local Authorities' activities. The specific nature of legislation discourages enterprise, handicaps development, prevents the community of services which the Local Authority may render, and encourages too rigorous oversight by central Government. It contributes excessive concern over legalities and fosters the ideas that the Clerk should be a lawyer.[1]

Rhoddodd adran 111 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 ("Deddf 1972") bŵer i Gynghorau Sir, Bwrdeistref Sirol a Chymuned wneud unrhyw beth y tybir ei fod yn hwyluso'r broses o gyflawni eu swyddogaethau neu ei fod yn gysylltiedig â hynny. At hynny, rhoddodd adran 137(1) o Ddeddf 1972 y pŵer i'r awdurdodau hynny fynd i wariant at ddibenion penodol nas awdurdodwyd fel arall, hynny yw, ar weithgareddau yr oeddent o'r farn y byddent o fantais uniongyrchol i'w hardal ond nad oes ganddynt unrhyw bŵer statudol penodol yn eu cylch. Yn ymarferol, mae Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol wedi tueddu i ddibynnu ar bwerau penodol, ond mae Cynghorau Cymuned wedi gwneud defnydd mynych o'r pŵer o fewn adran 137.

Os bydd gwaharddiad statudol ar Gyngor sy'n ei atal rhag cyflawni swyddogaeth benodol, ni ellir defnyddio adran 137 i fynd o'r tu arall i hyn. At hynny, yn achos Cynghorau Cymuned, mae'r gwariant y gellir mynd iddo o dan adran 137 wedi'i gyfyngu i swm penodol fesul etholwr.

Dros amser bu galwadau am bwerau mwy cyffredinol, ac mewn ymateb, cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 ("Deddf 2000") y 'pŵer llesiant' i Gynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol, a estynnwyd i Gynghorau Cymuned gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.

[1] *Management of Local Government*, y HMSO, 1967, para.283

Mae'r pŵer llesiant yn galluogi Awdurdodau Lleol i weithredu mewn unrhyw ffordd a fyddai'n gwella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol eu hardal neu bobl eu hardal yn eu barn hwy, ar yr amod na fyddent yn cael eu gwahardd fel arall rhag gwneud hynny gan ddeddfwriaeth arall. O ran Cynghorau Cymuned, mae'r pŵer llesiant yn ddarostyngedig i'r un terfyn ariannol ag adran 137 o Ddeddf 1972.

Mae canfyddiad bod y pŵer llesiant yn rhy gyfyngedig, ac y gall atal Awdurdodau Lleol rhag gweithredu mewn ffordd arloesol wrth ddibynnu arno rhag ofn y dyfernid eu bod wedi gweithredu y tu hwnt i'r pŵer. Nododd adroddiad gwerthuso i'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn 2008 fod cyfreithwyr yn chwarae rôl hollbwysig o ran annog neu anghymeradwyo defnyddio'r pŵer a daeth i'r casgliad:

> Use of the power of well-being remained limited over the life of the evaluation as Local Authorities had a tendency to use more specific powers to achieve their goals.[2]

Cynyddodd yr amharodrwydd hwn yn sgil penderfyniad gan y Llys Apêl yn 2009 ("achos LAML"[3]). Yn benodol, cododd y dyfarniad amheuon a oedd gan Awdurdodau Lleol y pŵer i weithredu er eu budd ariannol eu hunain er mwyn gwneud arbedion effeithlonrwydd a sicrhau canlyniadau gwerth am arian.

Fel y nododd yr asesiad effaith rheoleiddiol ar gyfer y Bil Lleoliaeth, a gyflwynodd Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol i Awdurdodau Lleol yn Lloegr, yn 2011:

> Although there is a lack of recent information on precise take up, the message from Local Authority representative groups is that there has been a loss of confidence in the existing well-being provisions following the London Authorities Mutual Ltd case. It was this loss in confidence that has promoted calls for a general power of competence by the Local Government Association among others.

## Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim - Byddai Awdurdodau Lleol yn cadw'r pŵer llesiant presennol yn Neddf 2000.
- Opsiwn 2 – Diwygio darpariaethau Deddf 2000 sy'n ymwneud â'r pŵer llesiant
- Opsiwn 3 – Cyflwyno Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn lle'r pŵer llesiant

[2] Evaluation of the take-up and use of the well-being power, yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, 2008, t.1
[3] Cyngor Bwrdeistref Brent Llundain v Risk Management Partners Ltd (2009) EWCA Civ 470.

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

## DISGRIFIAD

Byddai Awdurdodau Lleol yn cadw'r pŵer llesiant presennol yn Neddf 2000, gyda Chynghorau Cymuned yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r terfyn ariannol o fewn adran 137 o Ddeddf 1972

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn gosod  unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Leol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Mae'r pŵer llesiant wedi bod yn heriol i'w arfer weithiau, gydag ansicrwydd yn codi ynglŷn â'i gwmpas a'r posibilrwydd o ryngweithio â deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes. Ymddengys bod y terfyn ariannol a osodwyd ar Gynghorau Cymuned gan adran 137 o Ddeddf 1972 o ran defnyddio'r pŵer, hefyd wedi arwain at rywfaint o amharodrwydd ymhlith Cynghorau Cymuned i ddefnyddio'r pŵer.

O ganlyniad, bu tuedd ymhlith Awdurdodau Lleol yng Nghymru i geisio sicrwydd pŵer penodol yn hytrach na dibynnu ar y pŵer llesiant. Yn yr un modd, nid oes fawr ddim tystiolaeth ei fod wedi grymuso Awdurdodau Lleol i arloesi neu gymryd camau mwy trawsnewidiol er mwyn ateb yr heriau sy'n gysylltiedig â llai o adnoddau a galw cynyddol am wasanaethau.

Awgrymodd gwaith ymchwil yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol yn 2008 mai dim ond 15% o Awdurdodau Lleol a oedd wedi defnyddio'r pŵer a'u bod yn tueddu i ddibynnu mwy ar bwerau penodol i wneud pethau, a hynny am resymau megis amharodrwydd i fentro.

## Opsiwn 2 – Diwygio darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â'r pŵer llesiant

## DISGRIFIAD

Byddai Opsiwn 2 yn diwygio'r darpariaethau yn Neddf 2000 sy'n ymwneud â'r pŵer llesiant, gan geisio mynd i'r afael â'r cyfyngiadau canfyddedig a gwirioneddol ar y pŵer.

Byddai'r diwygiadau hyn yn ceisio ehangu cwmpas y pŵer llesiant, a rhoi eglurder yn ei gylch. Er enghraifft, gellid estyn y pŵer i alluogi Awdurdodau Lleol i weithredu i wella eu heffeithlonrwydd eu hunain drwy ffurfio cwmni yswiriant cydfuddiannol, fel yn achos LAML y cyfeirir ato uchod. Byddai'r cyfyngiad ariannol, mewn perthynas â Chynghorau Cymuned, o fewn adran 137 o Ddeddf 1972 hefyd yn cael ei ddileu lle y bo'n briodol.

Rhagwelir y byddai darpariaethau diwygio o'r fath yn dod yn weithredol yn 2017.

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

Efallai y bydd diwygio'r pŵer llesiant yn arwain at sefyllfa lle mae Awdurdodau Lleol yn ymgymryd â gweithgareddau newydd ond, gan fod yr opsiwn hwn yn rhoi pŵer dewisol i Awdurdodau Lleol, mae'n amhosibl rhagweld beth fyddai costau gweithgareddau newydd o'r fath. Byddai angen i unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â phŵer llesiant diwygiedig gael eu hystyried gan Awdurdodau Lleol unigol ar sail achos unigol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Gall yr opsiwn hwn sicrhau rhai manteision oherwydd mwy o eglurder ynglŷn â chwmpas y pŵer llesiant, gan arwain at fwy o hyder yn y pŵer ymhlith Awdurdodau Lleol a mwy o ddefnydd ohono ganddynt.

Fodd bynnag, er y byddai modd mynd i'r afael â chyfyngiadau *hysbys* i'r pŵer mewn deddfwriaeth drwy ddiwygio'r ddeddfwriaeth honno, dim ond ateb rhannol

fyddai hyn. Ni fyddai modd sicrhau'r eglurder a roddir gan Bŵer Cymhwysedd Cyffredinol; felly, mae'n annhebygol y byddai'r opsiwn hwn yn arwain at fwy o hyder yn y pŵer llesiant.

## Opsiwn 3 – Cyflwyno Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn lle'r pŵer llesiant

## DISGRIFIAD

Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i Awdurdodau Lleol. Byddai'r Pŵer Cyffredinol hwnnw yn ddigon eang i alluogi Awdurdodau Lleol i wneud unrhyw beth y gall unigolyn yn rhesymol ei wneud, ac eithrio'r gweithgareddau hynny a waherddir yn benodol gan ddeddfwriaeth arall. Ni allai Awdurdod, er enghraifft, briodi nac adeiladu bom niwclear: yn y naill achos a'r llall, byddai'n cael ei wahardd rhag gwneud hynny gan ddeddfwriaeth sy'n bodoli eisoes.

Yn ogystal â gwneud yr holl bethau y gallant eu gwneud ar hyn o bryd o dan y pŵer llesiant, byddai Awdurdodau hefyd yn gallu defnyddio Pŵer Cyffredinol i wneud y canlynol:

- gweithredu er eu budd ariannol eu hunain;
- rhoi indemniadau a gwarantau;
- codi am wasanaeth(au) dewisol;
- masnachu'n fwy hyblyg drwy gwmni;
- cymryd rhan mewn gweithgareddau ariannol neu hapfuddsoddol;
- ariannu gweithgareddau drwy drethiant sy'n bodoli eisoes a threfniadau codi ardoll a benthyca;
- mynd i wariant ar gyfraniadau i gronfeydd cyrff elusennol.

Y ddadl dros newid a arweiniodd at gyflwyno Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn Lloegr oedd y dirwedd gymhleth a achoswyd gan y nifer o ddarnau o ddeddfwriaeth a oedd yn ceisio rhoi pwerau ehangach i Awdurdodau Lleol weithredu gyda mwy o ryddid. Ym mhob darn o ddeddfwriaeth, bu'n rhaid i raddau a chyfyngiadau'r pwerau hyn gael eu dangos mewn cyfraith achosion, gyda'r llysoedd yn dyfarnu bod rhyddid o'r fath i'w gymhwyso'n gul ar y cyfan. Dadleuodd Cymdeithas Llywodraeth Leol a'r Awdurdodau Lleol na allent weithredu'n effeithiol yn y byd modern pe bai'n rhaid iddynt ddibynnu ar y llywodraeth yn pasio deddfwriaeth newydd bob tro mae'r amgylchiadau allanol yn newid. Derbyniodd Lywodraeth y DU y ddadl hon.

Fodd bynnag, ni fydd Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn caniatáu i Awdurdodau Lleol wneud unrhyw beth a waherddir yn benodol mewn deddfwriaeth; codi trethi;

na newid rheolaeth wleidyddol yr Awdurdod. Ni fydd ychwaith yn ehangu pwerau Awdurdodau i wneud is-ddeddfau.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw enghreifftiau hysbys yn Lloegr lle mae'r defnydd o'r Pŵer Cyffredinol wedi cael ei herio'n llwyddiannus yn y llysoedd, na lle mae'r defnydd ohono wedi arwain at anawsterau ariannol. Mae'r risg i wasanaethau craidd (addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac ati) sy'n gysylltiedig â phŵer o'r fath yn gyfyngedig oherwydd gwaharddiadau mewn deddfwriaeth sy'n bodoli eisoes sy'n cyfyngu ar fathau penodol o weithgarwch. Bydd defnyddio pŵer o'r fath mewn meysydd polisi (dewisol) eraill, megis gweithgareddau datblygu economaidd neu hapfuddsoddi  megis gwarantu morgeisi prynwyr tro cyntaf ac ati yn achosi rhywfaint o risg, yn enwedig risg ariannol i'r Awdurdod. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau o'r fath bydd angen i Awdurdodau Lleol ystyried y risg hon mewn unrhyw benderfyniadau a wnânt ynglŷn â defnyddio Pŵer Cyffredinol, yn ogystal ag ystyried eu dyletswyddau statudol mewn perthynas ag atebolrwydd am wario arian cyhoeddus. Felly, ystyrir ei bod yn risg y gellir ei rheoli'n ymarferol.

Bydd angen o hyd i Awdurdodau Lleol gydymffurfio â'r holl gyfundrefnau rheoleiddio perthnasol, megis y rhai a lywodraethir gan yr Awdurdod Gwasanaethau Ariannol, os ydynt yn ceisio defnyddio'r pŵer i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â gwasanaethau ariannol yn ogystal â'r ddeddfwriaeth benodol sy'n gymwys i Lywodraeth Leol mewn perthynas â chyfundrefnau archwilio ac ariannol cysylltiedig, a, lle y bwriedir masnachu, gyfraith cwmnïau.

Byddai angen i Gynghorau Cymuned ddangos eu bod yn gallu bodloni nifer o ofynion ynglŷn â phroffesiynoldeb, llywodraethu da a rheolaethau ariannol cyn iddynt fod yn gymwys i ddefnyddio Pŵer Cyffredinol. Ystyrir y dylai rhoi'r cyfle hwn iddynt eu grymuso i ymgymryd â rôl arweiniad cymunedol mwy blaenllaw a bod yn fwy uchelgeisiol o ran ymateb i anghenion a chyfleoedd lleol.

Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn dod yn weithredol yn 2017.

## *Astudiaethau achos o ddefnyddio Pŵer Cyffredinol yn Lloegr*[4]

### *Cyngor Dosbarth Newark a Sherwood*

Mae Newark a Sherwood yn gymuned sy'n tyfu, gyda 14,000 o dai newydd yn yr arfaeth. Mae'n cynnwys llawer o fusnesau bach, y mae'r cyngor am eu helpu i wireddu eu potensial i dyfu. Drwy ymgynghori â busnesau lleol a rhanddeiliaid eraill nodwyd mai argaeledd cyllid oedd un o'r prif heriau. Felly gan ddibynnu ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn Neddf Lleoliaeth 2011, sefydlodd y cyngor gronfa gwerth £2 filiwn o'r enw 'Think BIG' (Business Investment in Growth). Nod y gronfa yw darparu arian benthyciad i fusnesau lleol sydd â'r potensial i dyfu, lle

[4] *Empowering councils to make a difference*, Cymdeithas Llywodraeth Leol, 2013

nad ydynt wedi llwyddo i sicrhau'r arian mewn mannau eraill megis gan y banciau. Gan weithredu ar gyngor panel annibynnol o arbenigwyr, ar ôl 20 o geisiadau, mae pedwar benthyciad gwerth £285,000 i gyd wedi cael ei drefnu hyd yn hyn. Trosiant cyfartalog y busnesau a gynorthwywyd yw £672,500. Mae'r benthyciadau hyn wedi diogelu 40 o swyddi ac mae potensial i greu 43 o swyddi newydd eraill.

*Cyngor Swydd Hertford*

Dibynnodd Cyngor Swydd Hertford ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn Neddf Lleoliaeth 2011 i gymryd rhan yn y Cynllun Morgeisi i Awdurdodau Lleol (LAMS) gan weithio mewn partneriaeth â'r rhan fwyaf o'r cynghorau dosbarth yn Swydd Hertford, Lloyds TSB a Chymdeithas Adeiladu Leeds.

Bwriedir i'r cynllun gefnogi'r farchnad dai a'r economi leol drwy gymorth i brynwyr tro cyntaf a gweithwyr allweddol yn benodol. Mae'r cynllun yn indemnio benthycwyr ac yn ei gwneud yn bosibl i brynwyr gael telerau morgais 75 y cant gyda dim ond blaendal o 5 y cant, y daw gweddill yr arian o'r cynllun indemnio. Mae'r indemniad yn para am bum mlynedd (y cyfnod o risg fwyaf) pan fydd y Cyngor yn ennill llog ar swm yr indemniad. Yna caiff yr arian ynghyd â'r llog a gronnwyd eu dychwelyd i'r Cyngor. Gan gynnwys £12 miliwn gan y Cyngor Sir, mae Cynghorau yn Swydd Hertford wedi darparu £16.5 miliwn i'r cynllun.

*Cyngor Dinas Stoke on Trent*

Mae Cyngor Dinas Stoke on Trent yn defnyddio'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol yn Neddf Lleoliaeth 2011 i ddatblygu nifer o fentrau i ddatblygu'r agenda ynni gwyrdd drwy gwmni daliannol o dan berchenogaeth y Cyngor ac i hyrwyddo adfywio. Mae'n ystyried bod mynediad at ynni cynaliadwy am brisiau rhagweladwy yn ffactor pwerus i ddenu a chynnal cyflogaeth gan gynnwys datblygu ardal fusnes ganolog newydd. Mae'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol wedi rhoi mwy o hyder i'r Cyngor a darpar bartneriaid yn y sector preifat a mannau eraill wrth ymrwymo i gytundebau hirdymor.

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Nid yw'r ddeddfwriaeth arfaethedig yn golygu unrhyw gostau uniongyrchol i Awdurdodau Lleol am mai pŵer galluogi ydyw, sy'n rhoi'r disgresiwn i Awdurdodau Lleol ei ddefnyddio os dymunant.

Mae'n bosibl y gallai Awdurdodau Lleol fynd i gostau penodol o ganlyniad i gymryd rhan mewn gweithgarwch newydd gan ddibynnu ar y pŵer newydd, ond mae'n amhosibl rhagweld beth fyddai'r costau hyn. Byddai angen i unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â defnyddio Pŵer Cyffredinol gael eu hystyried gan Awdurdodau Lleol unigol ar sail achos unigol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Ystyrir y byddai Opsiwn 3 yn cynnig nifer o fanteision.

Byddai rhoi Pŵer Cyffredinol i Awdurdodau Lleol cymwys (Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned â chymhwysedd) yn eu galluogi i weithredu er budd eu cymunedau, gwneud arbedion effeithlonrwydd a sicrhau canlyniadau gwerth am arian.

Byddai Awdurdodau Lleol Cymwys yn gallu defnyddio'r pŵer i godi arian drwy godi ffi am wasanaethau dewisol ac i fasnachu yn unol â phwerau sy'n bodoli eisoes. Byddai hefyd yn galluogi Awdurdodau i gymryd rhan mewn gweithgareddau y bernir eu bod y tu allan i bŵer presennol y pŵer llesiant neu bwerau penodol sy'n bodoli eisoes, megis rhoi mathau penodol o indemniadau a gwarantau.

Fel y cyfryw, byddai Opsiwn 3 yn rhoi'r gallu i Awdurdodau Lleol fod yn fwy arloesol a symud i ffwrdd oddi wrth y sefyllfa bresennol lle maent yn amau a oes ganddynt y pŵer i ymgymryd â gweithgarwch penodol. Byddai'r sefyllfa newydd yn ei gwneud yn bosibl i Awdurdodau gymryd yn ganiataol y gallant wneud rhywbeth oni bai bod cyfyngiad statudol yn ei atal. Gallai'r pŵer gynyddu hyder Awdurdodau Lleol yn sylweddol, gan eu galluogi i ystyried dulliau mwy trawsnewidiol o ddarparu gwasanaethau a gwneud arbedion effeithlonrwydd, a thrwy hynny eu helpu i ddarparu 'mwy am lai'.

Gallai Pŵer Cyffredinol hefyd leihau'r angen i Awdurdodau Lleol ddefnyddio adnoddau cyfreithiol o bosibl h.y. wrth ystyried defnyddio pwerau penodol i weithredu, a gallai hefyd leihau'r costau gwirioneddol a phosibl sy'n codi o her gyfreithiol.

Gallai enghreifftiau llwyddiannus o weithredu (ac mae'r astudiaethau achos a nodwyd yn Lloegr yn dystiolaeth o hyn) gynyddu hyder Awdurdodau Lleol ymhellach i wneud mwy o ddefnydd o'r pŵer.

## Crynodeb

Ni fyddai Opsiwn 1 yn newid y system bresennol a bydd y pŵer llesiant yn parhau i achosi problemau wrth geisio ei arfer. Nid yw'n symleiddio'r ddeddfwriaeth

bresennol ac ni fyddai'n cyflawni'r amcan o roi Pŵer Cyffredinol i Awdurdodau Lleol.

Fodd bynnag gallai Opsiwn 2 fynd tipyn o'r ffordd i symleiddio'r ddeddfwriaeth bresennol; ystyrir bod yr opsiwn hwn yn annhebygol o sicrhau unrhyw newid sylweddol.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir gan y byddai'n rhoi cyfle i Gynghorau Sir a Chynghorau Cymuned â chymhwysedd ymateb mewn ffordd arloesol i'r pwysau ariannol a demograffig mawr a wynebant.

## 1.2. Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol (a37-40)

### Cefndir

Mae'n arfer da i Lywodraeth Leol sicrhau bod ei dinasyddion yn cael gwybodaeth am ddatblygiadau polisi ac yn cael cyfle i fod yn rhan o ymgynghoriad ynghylch materion sy'n effeithio arnynt.

Amlinellodd adroddiad y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus y sefyllfa o ran cyfranogiad y cyhoedd â darparwyr gwasanaethau yng Nghymru. Daeth i'r casgliad bod "deialog rhwng darparwyr gwasanaethau a chymunedau yn anghyson ar y cyfan ac yn aml yn wael" (4.31). Tynnodd sylw at yr angen i benderfyniadau gael eu gwneud mor agos â phosibl i'r bobl dan sylw, a nododd fod pobl yn aml yn teimlo eu bod wedi'u datgysylltu oddi wrth brosesau gwneud penderfyniadau. Awgrymodd y Comisiwn y byddai ymgysylltu'n uniongyrchol â chymunedau a defnyddwyr gwasanaethau yn fanteisiol mewn sawl ffordd:

- câi gwasanaethau eu targedu at anghenion;
- câi'r galw ei reoli'n fwy effeithiol;
- câi'r ffordd y dyrennir adnoddau ei gwella.

Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad a argymhellodd y dylai Awdurdodau Lleol wella eu gweithgarwch i ymgysylltu â'r cyhoedd drwy'r canlynol:

- datblygu targedau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd, a gwella trefniadau rheoli perfformiad er mwyn mesur effaith ymgysylltu â'r cyhoedd;
- ystyried ffyrdd o sefydlu diwylliant sy'n grymuso dinasyddion i gynnig atebion i'r heriau a wynebant;
- gwella systemau ar gyfer casglu a storio data o ymgysylltu â'r cyhoedd;
- gwella amseroldeb adborth i'r cyhoedd.[5]

Mae'r ffordd y dyrennir adnoddau yn cael effaith sylweddol ar y gwasanaethau a ddarperir felly mae'n rhesymol i gymunedau ddisgwyl cael rhyw gyfraniad yn y broses a ddefnyddir gan Gyngor i benderfynu sut y bydd yn gwario ei arian.

Cefnogodd ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* gynigion y dylai Awdurdodau Lleol ymgysylltu'n fwy effeithiol â thrigolion, gan gynnwys plant a phobl ifanc, ac mewn partneriaeth â sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau yn y trydydd sector.

---

[5] *Ymgysylltu â'r Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol*, Swyddfa Archwilio Cymru, Mehefin 2012

## Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Annog Cynghorau Sir i wella eu harferion ym maes cyfranogiad y cyhoedd
- Opsiwn 3 - Gosod dyletswyddau statudol ar Gynghorau Sir i annog mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd

## Opsiwn 1: Gwneud dim

## DISGRIFIAD

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newidiadau. Byddai Cynghorau Sir yn parhau i ddilyn unrhyw strategaeth sydd ganddynt mewn perthynas â chyfranogiad y cyhoedd, ac yn parhau â'u prosesau presennol i ymgysylltu â chymunedau a rhanddeiliaid eraill cyn dyrannu adnoddau.

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

## Opsiwn 2 – Annog Cynghorau Sir i wella eu harferion ym maes cyfranogiad y cyhoedd

## DISGRIFIAD

Mae Opsiwn 2 y cynnig y dylai Gweinidogion Cymru annog Cynghorau Sir i wella eu prosesau ym maes cyfranogiad y cyhoedd. Byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn trefnu nifer o ddigwyddiadau annog a chefnogi i Gynghorau Sir, er mwyn nodi model ar gyfer Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd effeithiol. Yn y digwyddiadau hyn byddai darparwyr hyfforddiant arbenigol yn darparu hyfforddiant a gweithdai ar ymgysylltu. Câi Cynghorau Sir eu hannog i wella'r ffordd y mae'n ymdrin â chyfranogiad y cyhoedd. Yn benodol, byddai'r digwyddiadau'n canolbwyntio ar atgyfnerthu ymgysylltu â'r cyhoedd, a chynnwys y cyhoedd yn fwy agos yn y broses graffu.

Ochr yn ochr â hyn, byddai Gweinidogion Cymru yn annog Cynghorau Sir i wella'r ffordd y maent yn ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill cyn pennu cyllideb ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Gallai Gweinidogion Cymru roi canllawiau anstatudol i Gynghorau mewn perthynas â hyn a cheisio annog Cynghorau i rannu arfer da â'i gilydd.

Byddai'r ddarpariaeth hon yn gofyn am wariant ychwanegol unwaith bod Awdurdodau Cysgodol wedi'u hethol yn 2019.

## COSTAU

Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno costau ychwanegol o **£29,300**.

**Tabl 1: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | | | |
| Cost Staff - Trefnu Digwyddiadau | £6,000 | £3,100 | £9,100 |
| Darparwr Hyfforddiant Arbenigol | £5,000 | - | £5,000 |
| Trefnu Digwyddiadau Ymgysylltu | £1,500 | £500 | £2,000 |
| Canllawiau ar Ddyrannu Adnoddau | £2,400 | - | £2,400 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£14,900** | **£3,600** | **£18,500** |
| Llywodraeth Leol | | | |
| Cost Staff - Mynychu digwyddiadau | £8,100 | £2,700 | £10,800 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£23,000** | **£6,300** | **£29,300** |

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai cynnal digwyddiadau i annog arfer da ym maes cyfranogiad y cyhoedd yn gosod cost ychwanegol o £18,500 ar Lywodraeth Cymru.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, câi tri digwyddiad eu cynnal, a fyddai'n cynnwys hyfforddiant pwrpasol ar gyfranogiad y cyhoedd. Byddai'r rhain yn costio £14,900. Yn ystod yr ail flwyddyn, câi dau ddigwyddiad diweddaru byrrach eu cynnal. Byddai'r rhain yn costio £3,600.

Byddai cost i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â pharatoi canllawiau anstatudol ar ymgynghori ac ymgysylltu drwy gydol y broses o bennu cyllideb ac amcangyfrifir y byddai hyn yn costio £2,400. Byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn gwneud defnydd o nifer o fforymau cyllid ag Awdurdodau Lleol sy'n bodoli eisoes er mwyn rhannu arfer da ar ymgynghori ynghylch cyllidebau ac ni fyddai cost ychwanegol i hyn.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Amcangyfrifir y byddai Opsiwn 2 yn cynnwys cost ychwanegol o **£10,800** i Lywodraeth Leol. Mae hyn yn adlewyrchu cost swyddogion yn mynychu digwyddiadau Llywodraeth Cymru.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai Cynghorau Sir yn fwy tebygol o atgyfnerthu eu harferion ym maes ymgysylltu â'r cyhoedd, a rhoi mwy o werth ar bwysigrwydd Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd dda. Mae ymgysylltu a thryloywder, a bod yn agosach at benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn debygol o fod yn fanteisiol i gymunedau. Ynghyd â mwy o ymwneud â gweithgarwch craffu ymhlith y cyhoedd, gallai hyn wella'r ffordd y mae Cynghorau Sir yn gwneud penderfyniadau ac yn dyrannu adnoddau. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad oes sicrwydd y câi'r manteision hyn eu gwireddu gan y byddai'r digwyddiadau yn wirfoddol.

Yn y gorffennol mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Cyfranogaeth Cymru i ddatblygu'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd, a gymeradwywyd ganddi yn 2011, ac wedi defnyddio porth Arfer Da Cymru i dynnu sylw at enghreifftiau o arfer da o ran ymgynghori ac ymgysylltu gan Awdurdodau Lleol, gan gynnwys yn ystod y broses o bennu cyllideb. Bu gwelliannau yn ystod y blynyddoedd diwethaf mewn perthynas â hyn. Fodd bynnag, mae ymdrech a wneir i ymgysylltu yn amrywio'n sylweddol rhwng Awdurdodau o hyd.

## Opsiwn 3 - Gosod dyletswyddau statudol ar Gynghorau Sir i annog mwy o gyfranogiad gan y cyhoedd

## DISGRIFIAD

### <u>*Dyletswydd Cyfranogiad y Cyhoedd*</u>

Byddai Opsiwn 3 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau Sir i annog pobl leol i gymryd rhan mewn Llywodraeth Leol.

Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir baratoi Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd. Cynigir y bydd y Strategaeth yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth o swyddogaethau'r Cyngor ymhlith pobl leol, gan gynnwys swyddogaethau Awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor Sir h.y. Cynghorau Cymuned, Awdurdodau Tân ac Achub ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol;

- ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith pobl leol ynglŷn â sut i ddod yn aelod o'r Cyngor neu unrhyw Awdurdod cysylltiedig, a'r hyn y mae'r rôl yn ei olygu;
- ffyrdd o hwyluso mynediad i bobl leol at wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud gan y Cyngor neu Awdurdodau sy'n gysylltiedig ag ef;
- ffyrdd o hyrwyddo a hwyluso prosesau lle y gall pobl leol gyflwyno sylwadau i'r Cyngor Sir neu Awdurdodau sy'n gysylltiedig ag ef ynglŷn â phenderfyniadau;
- trefniadau a wneir at ddibenion dyletswydd y Cyngor o dan adran 62 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (dwyn barn y cyhoedd at sylw pwyllgorau trosolwg a chraffu);
- ffyrdd o hyrwyddo ymwybyddiaeth ymhlith aelodau o'r Cyngor Sir ac aelodau o Awdurdodau sy'n gysylltiedig â'r Cyngor, ynglŷn â manteision defnyddio cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â phobl leol.

Gallai Gweinidogion Cymru baratoi arweiniad i helpu Cynghorau Sir i ddatblygu a gweithredu'r Strategaeth ar gyfer Cyfranogiad y Cyhoedd. Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir roi sylw priodol i'r arweiniad hwn.

Rhagwelir y byddai costau ychwanegol i'r opsiwn hwn o fis Ebrill 2019.

### *Dyletswydd i ymgynghori mewn perthynas â'r gofyniad cyllidebol*

At hynny, byddai Opsiwn 3 yn gosod dyletswydd ar Gynghorau Sir i ymgymryd â gweithgareddau ymgynghori ac ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid eraill cyn pennu eu gofyniad cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Er bod y rhan fwyaf o Gynghorau yng Nghymru yn gwneud hyn eisoes mewn rhyw ffordd neu'i gilydd, mae ymdrech gofnodedig Cynghorau i ymgymryd â phrosesau o'r fath yn amrywio gryn dipyn. Er mwyn annog gwelliannau yn y maes hwn, gallai Gweinidogion Cymru lunio canllawiau statudol mewn perthynas â phennu cyllideb. Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir roi sylw i'r canllawiau hyn wrth bennu cyllideb ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 3 yn gosod costau ychwanegol o rhwng £792,100 a £890,500.

## Tabl 2: Costau Bwriadau Polisi

| Costau Bwriadau Polisi | 2019/20 | | 2020/21 i 2028/29 | | Cyfanswm* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf |
| Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Ddyrannu Adnoddau | | | | | | |
| Cost Staff - Paratoi Canllawiau | £1,300 | £1,300 | - | - | £1,300 | £1,300 |
| Cyfieithu | £800 | £800 | - | - | £800 | £800 |
| Canllawiau Llywodraeth Cymru ar Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd | | | | | | |
| Cost Staff - Paratoi Canllawiau | £1,900 | £1,900 | - | - | £1,900 | £1,900 |
| Cyfieithu | £800 | £800 | - | - | £800 | £800 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£4,800** | **£4,800** | **-** | **-** | **£4,800** | **£4,800** |
| Llywodraeth Leol | | | | | | |
| Cost Staff - Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd | £51,100 | £57,500 | £112,500 | £126,600 | £163,600 | £184,100 |
| Cost Staff - Hyrwyddo Democratiaeth | £54,900 | £61,700 | £493,800 | £555,500 | £548,700 | £617,300 |
| Cost Cyfieithu | £7,500 | £8,400 | £67,500 | £76,000 | £75,000 | £84,400 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Leol** | **£113,500** | **£127,700** | **£673,900** | **£758,100** | **£787,300** | **£885,700** |
| **Cyfanswm Cost** | **£118,240** | **£132,420** | **£673,850** | **£758,080** | **£792,100** | **£890,500** |

*Yn seiliedig ar orwel cynllunio o 10 mlynedd

## *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai Opsiwn 3 yn gosod cost ychwanegol o £4,800 ar Lywodraeth Cymru. Byddai'r rhain yn gostau untro ym Mlwyddyn 1.

Byddai paratoi canllawiau ar y Strategaeth ar gyfer Cyfranogiad y Cyhoedd yn gosod cost untro ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y byddai cost o £2,700.

Byddai paratoi canllawiau ar ymgysylltu â'r cyhoedd wrth bennu cyllideb yn gosod cost untro ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y byddai cost o £2,100.

## *Costau i Lywodraeth Leol*

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 3 yn gosod cost ychwanegol o naill ai **£787,300** neu **£885,700** i Lywodraeth Leol, yn dibynnu ai wyth neu naw Cyngor Sir fyddai yng Nghymru.

Amcangyfrifir y byddai'r gwaith o baratoi **Strategaeth ar gyfer Cyfranogiad y Cyhoedd** yn costio £6,400 fesul Cyngor Sir yn y flwyddyn gyntaf, a £1,600 y flwyddyn wedi hynny er mwyn diweddaru'r strategaeth a chynllunio ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Nid ystyrir bod costau am gynnal **digwyddiadau ymgysylltu â'r cyhoedd** yn gostau ychwanegol. Mae Cynghorau eisoes yn ymgysylltu â'r cyhoedd ynglŷn â nifer o faterion ac mewn ffyrdd gwahanol. At hynny, byddai'n rhaid i bob Cyngor Sir benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o weithredu ei Strategaeth ar gyfer Cyfranogiad y Cyhoedd, ac felly ni ddylid achub y blaen ar hynny.

Byddai hyrwyddo democratiaeth drwy **arddangos gwybodaeth ar wefan y Cyngor** yn gosod cost ychwanegol. Amcangyfrifir y byddai hyn yn costio ychydig o dan £7,800 fesul Cyngor Sir.

Gan fod Cynghorau eisoes yn ymgynghori â’r cyhoedd a rhanddeiliaid eraill i ryw raddau wrth bennu cyllideb, nid ystyrir bod ffurfioli hyn yn ddyletswydd yn gost ychwanegol. Byddai’r canllawiau ategol yn y maes hwn yn annog gwelliannau mewn prosesau dros amser, ond ystyrir ei bod yn rhan o rôl y Cyngor ar hyn o bryd i fonitro effeithiolrwydd ei brosesau ymgynghori yn barhaus a gwneud gwelliannau lle y bo angen.

Yn 2019/20, bydd hyn naill ai’n costio £113,500 neu £127,700 i Lywodraeth Leol, yn dibynnu ai wyth neu naw Cyngor Sir fyddai yng Nghymru. Ar gyfer blynyddoedd dilynol, bydd cost flynyddol o **£113,500** neu **£127,700** i Lywodraeth Leol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai datblygu Strategaeth Cyfranogiad y Cyhoedd yn galluogi Cynghorau Sir i Ymgysylltu â’r cyhoedd mewn ffordd fwy ystyrlon. Byddai hyn yn sicrhau mwy o dryloywder a democratiaeth, gan olygu y gellid targedu gwasanaethau yn well at anghenion, y gellid rheoli’r galw yn fwy effeithiol ac y gellid gwella’r ffordd y dyrennir adnoddau. Gellid hefyd atgyfnerthu trefniadau craffu drwy fwy o gyfranogiad gan y cyhoedd, a allai wella ansawdd prosesau gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Byddai gwell ymgysylltu â’r cyhoedd mewn perthynas â phennu cyllideb yn helpu Cynghorau Sir i godi ymwybyddiaeth o’r dewisiadau anodd y mae angen i Gynghorau eu gwneud bob blwyddyn. Byddai Cynghorau yn deall effaith eu cynigion cyllidebol yn well, a allai yn ei dro, leihau nifer y cwynion gan drigolion a lleihau’r risg o adolygiad barnwrol os bydd cymuned yn teimlo nad ymgynghorwyd â hi ynghylch newid mawr i flaenoriaethau gwario.

### *Manteision i bobl eraill*

Byddai Llywodraeth Leol fwy agored sy’n eu cynnwys yn fwy agos mewn prosesau gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau yn fanteisiol i’r cyhoedd. Byddai’r dyletswyddau o ran cyfranogiad y cyhoedd ac ymgynghori wrth bennu cyllideb ynghyd â’r gofyniad ar Gynghorau i ddarlledu rhai cyfarfodydd penodol (adran 76), hyrwyddo’r gallu’r cyhoedd i ffilmio a chofnodi ac ati yn ystod cyfarfodydd Cynghorau (drwy reoliadau gan Weinidogion Cymru yn adran 77), a rhoi cyfle rhesymol i aelodau’r cyhoedd wneud sylwadau yng nghyfarfodydd Cynghorau Cymuned (adran 78) yn creu mwy o ymdeimlad o gyfranogi ac ymddiriedaeth mewn Llywodraeth Leol. Mae hyn yn debygol o ennyn mwy o ddiddordeb a chyfranogiad, a galluogi’r rhai sy’n cael anhawster i fod yn bresennol yn bersonol i brofi sut y gwneir penderfyniadau. Byddai’r cyhoedd yn fwy gwybodus am sefyllfa ariannol eu Cyngor a byddent yn fwy tebygol o ddeall pam bod angen i Gynghorau flaenoriaethu adnoddau.

## Crynodeb

Ni fyddai Opsiwn 1 yn gwneud unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol. Gallai ansawdd ac effeithiolrwydd ymgysylltu â'r cyhoedd barhau i amrywio.

Byddai Opsiwn 2 yn annog Cynghorau Sir i atgyfnerthu'r ffordd y maent yn ymgysylltu â'r cyhoedd. Fodd bynnag, byddai hyn yn dibynnu ar gamau gweithredu gwirfoddol gan Gynghorau, felly ni fyddai gwelliannau yn sicr.

Byddai Opsiwn 3 yn gosod nifer o ddyletswyddau statudol ar Gynghorau Sir er mwyn sicrhau eu bod yn atgyfnerthu cyfranogiad y cyhoedd mewn Llywodraeth Leol.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir. Byddai'n sicrhau bod Cynghorau Sir yn fwy agored a thryloyw, bod democratiaeth leol yn gryfach a bod pobl leol yn cymryd mwy o ran.

## 1.3. Pwyllgorau ardaloedd cymunedol (a43-63)

## Cefndir

Llywodraethu cymunedol yw'r ffordd y mae pobl mewn ardaloedd neu gymdogaethau lleol yn trefnu eu hunain er mwyn nodi eu blaenoriaethu, rheoli eu hasedau, a dylanwadu ar wasanaethau cyhoeddus. Mae nifer o ddulliau gweithredu gwahanol, rhai statudol ac anstatudol, yn bodoli ar hyn o bryd, gan gynnwys:

- Pwyllgorau Ardal Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol;
- cyrff statudol, megis Cynghorau Cymuned a Chynghorau Iechyd Cymunedol;
- partneriaethau rhwng cynghorau, gwasanaethau cyhoeddus, grwpiau gwirfoddol ac eraill, megis partneriaethau cymdogaeth a byrddau ardal;
- cyrff trydydd sector megis Cynghorau Gwirfoddol Cymunedol, ymddiriedolaethau datblygu cymunedol, grwpiau eiriolaeth, mentrau cymdeithasol;
- at hynny, mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob ardal Awdurdod Lleol er mwyn canolbwyntio ar nodau ac egwyddorion cymunedol hirdymor.

Mae'r dirwedd hon yn gyfoethog, ond gall fod yn anodd i safbwyntiau cymunedau unigol gael eu mynegi a'u clywed mewn ffordd gydlynol. Gall grwpiau unigol gael anhawster i gael mynediad at y rhai sy'n gwneud penderfyniadau neu agor deialog ynglŷn â blaenoriaethau lleol. Heb sianel i gymunedau a Chynghorau Sir ymgysylltu â'i gilydd ar sail barhaus, mae ymgysylltu yn aml yn digwydd yn rhy agos i'r amser y caiff penderfyniadau eu gwneud, neu hyd yn oed ar ôl iddynt gael eu gwneud. Mae hyn yn arbennig o wir am benderfyniadau ynglŷn â natur ymarferol neu weithredol gwasanaethau. Nodwyd hefyd gennym yn y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* fod gan Gynghorwyr lai o rôl o dan drefniadau gweithredol a bod potensial iddynt gael mwy o rôl ym maes llywodraethu cymunedol er mwyn gwrthbwyso grym y weithrediaeth.

Roedd ymatebion i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn o blaid Cynghorau Sir mwy o faint ar y cyfan. Fodd bynnag, lleisiodd rhai ymatebwyr bryderon y byddai Cynghorau Sir mwy o faint yn colli cysylltiad â'u cymunedau. Mae'r cyd-destun o ran cyllid a demograffeg yn y dyfodol yn debygol o roi mwy o bwysau ar Gynghorau Sir, gan wneud cyfranogiad cymunedol mewn prosesau gwneud penderfyniadau a'r angen am drafodaethau lleol i benderfynu ar flaenoriaethau lleol yn fwy pwysig. Felly mae'n hanfodol bod gan y Cynghorau Sir newydd, mwy o faint, gysylltiad agos â'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Yn wir, roedd 81 y

cant o ymatebwyr ar-lein o blaid y cynigion y dylai Cynghorau Sir weithredu dull o ymgysylltu â dinasyddion er mwyn nodi, blaenoriaethu ac ymdrin â materion lleol neilltuol.

## Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi:

- Opsiwn 1 - Gwneud dim
- Option 2 – Ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol fel sianel rhwng cymunedau ac Awdurdodau Lleol, a arweinir gan yr Aelodau Etholedig dros yr ardal.

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Nid yw opsiwn hwn yn cynnig unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol. Byddai'r trefniadau presennol, gan gynnwys unrhyw ddulliau o reoli cymdogaethau'n wirfoddol ac unrhyw bwyllgorau ardal statudol a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf 2000, yn parhau.

### COSTAU

#### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn gosod unrhyw gostau ychwanegol.

### MANTEISION

#### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol. Gallai dulliau o reoli cymdogaethau'n wirfoddol, gan gynnwys pwyllgorau ardal, barhau ond gallent hefyd gael eu diddymu.

## Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol fel sianel rhwng cymunedau a Chynghorau Sir

### DISGRIFIAD

Byddai Opsiwn 2 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol. Y bwriad fyddai galluogi Cynghorau Sir i ymgymryd â gwaith paratoi o 2019, fel Awdurdodau Cysgodol, gyda'r pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn cael eu sefydlu'n llawn ar ôl 1 Ebrill 2020. Fodd bynnag, byddai'r canlynol yn ofynnol:

- byddai pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn cynnwys pob un o Gynghorwyr y Cyngor Sir sy'n cynrychioli adrannau etholiadol o fewn ardal y pwyllgor;
- byddai rhwymedigaeth ar Gynghorau Sir i wahodd Cynghorau Cymuned a chyrff cymunedol i enwebu unigolion i ddod yn aelodau o'r pwyllgorau;
- byddai'r ardaloedd y byddai pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn eu gwasanaethau yn cyfateb i'r ardaloedd cymunedol a bennwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- byddai'n ofynnol i bwyllgorau ardaloedd cymunedol ymgynghori â chymunedau er mwyn paratoi datganiad blynyddol o'r hyn a ddylai fod yn flaenoriaethau i'r Cyngor Sir, yn eu barn hwy, mewn perthynas ag ardal y pwyllgor.

Gallai Gweinidogion Cymru roi canllawiau statudol i helpu Cynghorau Sir i benderfynu ar y ffordd orau i bwyllgorau ardaloedd cymunedol weithredu yn eu hardaloedd lleol. Byddai hyn yn cynnwys ystyried:

- sut y dylai pwyllgorau ardaloedd cymunedol ymgysylltu â chymunedau a'u cynnwys, gan gynnwys aelodaeth;
- sut y byddai pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn gweithio gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Er y byddai gan Gynghorau Sir y rhyddid i benderfynu ar y ffordd fwyaf addas o sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn eu hardal, mae'n bwysig nodi y byddai pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn cyflawni swyddogaeth wahanol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a sefydlir o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. O gymharu â'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus strategol unigol ar gyfer pob ardal Cyngor Sir, byddai sawl pwyllgor ardal gymunedol yn canolbwyntio'n fanylach ac yn fwy gweithredol ar anghenion a blaenoriaethau cymunedau unigol.

Cyfeiriodd y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* at y cynnig hwn i atgyfnerthu llywodraethu cymunedol a arweinir gan Aelodau Etholedig fel system o 'Byrddau Ardal'. Er i'r rhan fwyaf o'r ymatebion i'r ymgynghoriad gydnabod gwerth Byrddau Ardal i Gynghorau Sir mwy o faint, yn yr ymatebion mynegwyd rhai pryderon hefyd ynglŷn â chymhlethdod, a phwysleisiwyd pa mor bwysig ydoedd bod Cynghorau Sir yn gallu datblygu dulliau gweithredu hyblyg a oedd yn addas at gymunedau unigol. Mae cynigion yr opsiwn hwn ar gyfer pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn adeiladu ar yr ymatebion hyn. Er y rhagwelir y byddai'r pwyllgorau hyn yn sianel rhwng y Cyngor Sir a chymunedau, byddai gan y Cyngor hyblygrwydd wrth benderfynu ar y ffordd y câi'r pwyllgorau hyn eu penodi, sut maent y gweithredu, a'r hyn y maent yn gyfrifol amdano.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno costau ychwanegol o rhwng **£17,175,600** neu **£17,193,700**, yn dibynnu ai wyth neu naw Cyngor Sir fyddai yng Nghymru, sef swm cyfartalog o tua £1.7m y flwyddyn.

**Tabl 3: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2019/20 Isaf | 2019/20 Uchaf | 2020/21 i 2028/29 Isaf | 2020/21 i 2028/29 Uchaf | Cyfanswm* Isaf | Cyfanswm* Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Leol | | | | | | |
| Datblygu Dull o Sefydlu Pwyllgorau ar sail Ardaloedd | £145,300 | £163,400 | - | - | £145,300 | £163,400 |
| Pwyllgorau Ychwanegol | £1,701,400 | £1,701,400 | £15,312,300 | £15,312,300 | £17,013,700 | £17,013,700 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Leol** | **£1,846,600** | **£1,864,800** | **£15,312,300** | **£15,312,300** | **£17,159,000** | **£17,177,100** |
| Llywodraeth Cymru | | | | | | |
| Costau Staff - Paratoi Canllawiau | £16,600 | £16,600 | - | - | £16,600 | £16,600 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£16,600** | **£16,600** | **-** | **-** | **£16,600** | **£16,600** |
| **Cyfanswm Cost** | **£1,863,200** | **£1,881,400** | **£15,312,300** | **£15,312,300** | **£17,175,600** | **£17,193,700** |

**Yn seiliedig ar orwel cynllunio o 10 mlynedd*

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Byddai'r gwaith o baratoi canllawiau i helpu Cynghorau Sir i ddatblygu dull o ymdrin â phwyllgorau ardaloedd cymunedol yn gosod cost staff ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir cost untro o **£16,600**, gan gynnwys cyfieithu.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Byddai'r gwaith o nodi sut y dylai pwyllgorau ardaloedd cymunedol weithredu yn gosod cost ychwanegol ar bob Cyngor Sir. Amcangyfrifir cost staffio untro o ychydig dros £18,000 fesul Awdurdod Lleol am hyn – gan gynnwys ymgynghori â chymunedau a phartneriaid. Yn dibynnu ar nifer y Cynghorau Sir yng Nghymru, byddai hyn yn gwneud cyfanswm o **£145,300** neu **£163,400**.

Byddai pwyllgor ardal gymunedol ar gyfer pob ardal gymunedol a nodir gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer pob Awdurdod Lleol, fel y darparwyd ar ei gyfer gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Cyfrifoldeb pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus fyddai penderfynu ar ei ardaloedd cymunedol (neu Weinidogion Cymru os na wna Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus hynny). Hyd yma, nid yw'r union nifer o ardaloedd cymunedol wedi cael ei bennu. At ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn, mae cyfrifiadau wedi'u gwneud ar sail nifer yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch, y mae tua 100 ohonynt yng Nghymru,[6] er y gallai'r nifer fod yn uwch neu'n is mewn gwirionedd. Ar wahân i'r costau sy'n deillio o unrhyw broses o ddirprwyo swyddogaethau gan Gynghorau Sir i bwyllgorau ardaloedd cymunedol, bwriedir o

[6] Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Uwch yw ardaloedd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i gyfrifo Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Mae 94 o ardaloedd yng Nghymru.

leiaf y byddai gan bob pwyllgor aelodau a enwebwyd o’r Cynghorau Cymuned a chymunedau ac y byddai angen cymorth ysgrifenyddiaeth. Cost flynyddol aelodau a enwebwyd o’r Cynghorau Cymuned a chymunedau fesul pwyllgor fyddai £12,000 (gan dybio cyfanswm o ddeg aelod Cyngor Cymuned ac aelod a enwebwyd o’r gymuned ar gyfartalog, y byddai pob un yn cael lwfans o £200 ar gyfer pob un o’r chwe chyfarfod blynyddol). Ni fyddai Cynghorwyr Sir yn cael eu had-dalu ar wahân am aelodaeth o bwyllgorau ardaloedd cymunedol, gan fod hyn yn rhan allweddol o’u rôl. Byddai cymorth ysgrifenyddiaeth ar gyfer pob pwyllgor yn costio cyfanswm o £5,000 y flwyddyn. Felly, byddai pob pwyllgor ardal gymunedol yn costio £17,000. Ar gyfer pob un o’r 100 o bwyllgorau ledled Cymru, byddai hyn yn gwneud cyfanswm o **£1,701,400** y flwyddyn, neu **£17,013,700** dros ddeng mlynedd.

Mae’n bwysig nodi na fyddai’r gost hon yn gwbl ychwanegol i Gynghorau Sir, gan fod y 22 o Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol presennol oll yn neilltuo adnoddau ar gyfer ymgysylltu â’r gymuned, y câi ei bwrpas ei bennu o’r newydd. At hynny, gan y byddai gan bob Cyngor Sir y rhyddid i benderfynu ar y ffordd fwyaf addas o sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol, amcangyfrifon nodweddiadol yw’r costau hyn i raddau helaeth. Cynghorau Sir fyddai’n penderfynu ar amlder cyfarfodydd, a lefel cymorth ysgrifenyddiaeth. Câi effaith y penderfyniadau hyn yn y dyfodol ei harfarnu maes o law ar lefel leol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Bydd pwyllgorau ardaloedd cymunedol yn cynnig modd i gymunedau ymgysylltu er mwyn nodi blaenoriaethau a dylanwadu ar benderfyniadau a wneir gan Awdurdodau Lleol.
Câi rôl Cynghorwyr Sir fel arweinwyr gweithredol cymunedau eu hegluro a’u hatgyfnerthu. Pe bai modd i safbwyntiau pob cymuned unigol gael eu mynegi a’u clywed mewn ffordd gydlynol mae hynny’n debygol o sicrhau y bydd y Cynghorau Sir newydd, mwy o faint, yn dal i fod â chysylltiad agos â’r cymunedau a wasanaethir

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i’r sefyllfa bresennol.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol fel sianel rhwng cymunedau a Chynghorau Sir. Dros ddeng mlynedd, byddai’n cyflwyno costau o naill ai **£17,175,600** neu **£17,193,700**, yn dibynnu ar nifer y Cynghorau Sir yng Nghymru.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir. Byddai’n sicrhau y caiff Cynghorwyr rôl arweiniad cymunedol sy’n ei gwneud yn bosibl i safbwyntiau cymunedau ddylanwadu ar benderfyniadau ariannu.

## 1.4. Ceisiadau Gwella (a64-74)

### Cefndir

Bydd angen i Gynghorau Sir gymryd camau i gefnogi a gwella llesiant a chydnerthedd eu cymunedau. Ni fyddant yn cael yr adnoddau mwyach i ddarparu’r holl wasanaethau y maent yn eu darparu ar hyn o bryd, a bydd yn rhaid iddynt gydbwyso cyllidebau is â’r galw cynyddol am wasanaethau. Ni all Cynghorau Sir greu cymunedau cadarn, cydnerth a chefnogol ar eu pennau eu hunain, ond gallant arwain y gwaith o greu’r amodau lle y gall y cymunedau hyn ddatblygu a ffynnu.

Er mwyn cysoni’r ffactorau croes hyn, dylai unigolion a chymunedau gael cyfle i ymgymryd â mwy o gyfrifoldeb am ddiwallu eu hanghenion yn hytrach na dibynnu ar Gynghorau Sir yn unig. Mae angen i gymunedau fynd y tu hwnt i sefyllfa lle mae eu llais yn cael ei glywed i fynd ati i ymgymryd â chyfrifoldeb am y newidiadau a’r gwelliannau y maent am eu gweld yn eu cymunedau.

Fodd bynnag, ar hyn o bryd, gall fod yn anodd i safbwyntiau cymunedau unigol gael eu mynegi a’u clywed mewn ffordd gydlynol. Gall grwpiau unigol, gan gynnwys y rhai sy’n cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau difreintiedig ac sy’n agored i niwed, gael anhawster i gael mynediad at y rhai sy’n gwneud penderfyniadau neu agor deialog â gwasanaethau cyhoeddus. Drwy gynnwys cymunedau gellir meithrin ymdeimlad o gyfrifoldeb ar y cyd, ei gwneud yn bosibl i wasanaethau mwy effeithlon a chost-effeithiol gael eu darparu a sicrhau canlyniadau gwell drwy ddefnydd gwell o adnoddau.

Bydd angen i Gynghorau Sir annog cymunedau i weithredu er mwyn sicrhau bod ganddynt gymunedau sy’n rhannu pŵer a chyfrifoldeb, ac mae’n briodol bod cyrff cymunedol yn gallu dechrau’r deialog hwn.

### Opsiynau

Ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir agor deialog â chymunedau ynglŷn â sut i wella canlyniadau lleol

### Opsiwn 1 - Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newidiadau i drefniadau cyfranogiad presennol Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol â chymunedau. Ni châi manteision mwy o ymwneud gan gymunedau eu gwireddu.

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol i Lywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru.

## Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir agor deialog â chymunedau ynglŷn â sut i wella canlyniadau lleol

## DISGRIFIAD

Y nod yw rhoi pŵer i gyrff cymunedol wneud cais i'w Cyngor Sir i agor deialog â hwy ynglŷn â sut y gellid gwella canlyniadau sy'n deillio o arfer swyddogaethau'r Cyngor. Byddai tybiaeth gyfreithiol y byddai Cyngor Sir yn derbyn cais o'r fath oni bai bod seiliau rhesymol dros ei wrthod. Byddai'r diffiniad o gyrff cymunedol yn un eang er mwyn cynnwys grwpiau sy'n cynrychioli cymunedau buddiant a lle, megis cyrff gwirfoddol, cymdeithasau trigolion, grwpiau eiriolaeth, ymddiriedolaethau elusennol a Chynghorau Cymuned.

Câi canlyniad y trafodaethau, gan gynnwys unrhyw benderfyniadau a wneir, ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Mae'r darpariaethau yn rhoi pwerau i roi canllawiau ac i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru. Fodd bynnag, yn y lle cyntaf, disgwylir i Gynghorau Sir eu hunain ddatblygu arfer da yn y maes hwn. Dim ond os oedd tystiolaeth bod Cynghorau yn ceisio peidio ag ymgysylltu â chyrff cymunedol yn fwriadol y byddai Gweinidogion Cymru yn arfer y pwerau hyn.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Byddai'r opsiwn a gynigir yn cyflwyno costau i Gynghorau Sir. Byddai goblygiadau i adnoddau o ran ystyried ceisiadau gan gyrff cymunedol ac ymgymryd â phrosesau ymgysylltu ac agor deialog perthnasol. Ystyrir bod y gost o gyhoeddi canlyniad trafodaethau ar wefan y Cyngor yn fach iawn. Byddai

costau deialog yn gostau cyfleoedd yn bennaf, gan ddefnyddio adnoddau staff presennol. Gallai'r math o wasanaeth a drafodir hefyd fod yn ffactor wrth bennu'r math o ymgysylltu sydd ei angen. Cyfrifoldeb pob Cyngor Sir fyddai penderfynu sut i ymgysylltu â'r corff cymunedol, felly nid oes modd amcangyfrif cost y cynnig hwn gan y byddai angen i bob achos o ymgysylltu gael ei ystyried fesul achos unigol.

Yn ymarferol, mae penaethiaid gwasanaethau a rheolwyr gwasanaethau yn ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau a grwpiau cymunedol yn rheolaidd, ac o ystyried y pwysau ariannol a demograffig parhaus, maent hefyd yn adolygu'n rheolaidd sut mae gwasanaethau yn cael cynllunio a'u darparu. Yn ymarferol, byddem yn disgwyl i swyddogion Cynghorau Sir ymgorffori ceisiadau gwella yn eu cylch presennol o ymgynghori, ymgysylltu a gwella gwasanaethau.

O ran cyhoeddi adroddiad blynyddol, rydym o'r farn bod hyn yn wybodaeth reoli arferol a gâi ei darparu i'r Cyngor sut bynnag, er enghraifft er mwyn dangos sut roedd wedi ymgysylltu â phobl a chymunedau yn ystod y flwyddyn, sef materion y mae Cynghorau eisoes yn cyflwyno adroddiadau arnynt. Byddai unrhyw gost ychwanegol yn fach iawn.

### *Y gost i gyrff Cymunedol*

Yn debyg i'r gost i Gynghorau Sir, gallai fod rhai costau ychwanegol i gyrff cymunedol hefyd o ran paratoi eu ceisiadau gwella a chymryd rhan yn y trafodaethau dilynol â'u Cyngor. Cyrff cymunedol fydd yn penderfynu a ddylid gwneud cais ai peidio a byddai angen iddynt ystyried y costau posibl wrth baratoi eu cais.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Dylai Cynghorau Sir geisio ymwneud gan gymunedau. Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi cyfleoedd ffurfiol i gymunedau lleol ymgysylltu â'u Cyngor ac esbonio anghenion cymunedau penodol neu grwpiau penodol o ddefnyddwyr gwasanaethau. Byddem yn disgwyl i hyn arwain at gydgysylltu adnoddau cymunedol a gwasanaethau'r Cyngor yn well. Dylai ymgysylltu ychwanegol o'r fath helpu Cynghorau i ddarparu gwasanaethau gwell sy'n fwy addas ar gyfer eu cymunedau lleol ac sy'n cael eu gwerthfawrogi ganddynt.

### *Manteision i'r Cyhoedd*

Byddai mwy o ddeialog rhwng Cyngor Sir a'r gymuned yn arwain at wasanaethau cyhoeddus mwy realistig a chynaliadwy o safon uwch o ganlyniad i ddwyn arbenigedd ac adnoddau defnyddwyr a'u rhwydweithiau ynghyd. Dylai helpu cymunedau i lunio'r gwasanaethau y maent yn eu gwerthfawrogi fwyaf a rhoi

sicrwydd iddynt y byddai'r gwasanaethau hyn ar gael ar gyfer yr hirdymor am fod y ffordd y darperir y gwasanaethau hyn wedi'i hystyried yn drylwyr.

Byddai darparu gwasanaethau cynaliadwy o safon uchel yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn.

## Crynodeb

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau presennol Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir agor deialog â chyrff cymunedol ynglŷn â sut i wella canlyniadau lleol

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n galluogi cyrff cymunedol i gyfrannu at wella gwasanaethau a chanlyniadau.

## 1.5. Darlledu a ffilmio Cyfarfodydd Cynghorau (a76-77)

### Cefndir

Nid oes unrhyw ofyniad i unrhyw Gyngor Sir na Chyngor Bwrdeistref Sirol ddarlledu cyfarfodydd ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae 18 allan o'r 22 o Gynghorau yn darlledu'n rheolaidd neu wedi gwneud hynny yn ddiweddar. Mae'r mathau o gyfarfodydd a ddarlledir yn amrywio. Yn 2012, rhoddodd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau grant i Gynghorau, gan gynnwys elfen o £40,000 fesul Awdurdod, i hyrwyddo darlledu a gweithgareddau tebyg eraill. Digwyddodd hynny yn sgil cryn gyhoeddusrwydd ynglŷn â diffyg tryloywder prosesau gwneud penderfyniadau Cynghorau, a oedd yn ymwneud yn benodol â'r mater a ddylai fod modd i aelodau'r cyhoedd sy'n bresennol yng nghyfarfodydd Cynghorau ffilmio neu gofnodi'r trafodion ar eu menter eu hunain.

Er i Lywodraeth y DU symud i'r cyfeiriad o'i gwneud yn ofynnol i Gynghorau ganiatáu arferion o'r fath, roedd yn well gan Lywodraeth Cymru adael y mater i ddisgresiwn unigol Cynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol, ond hefyd eu hannog i ddarlledu eu cyfarfodydd yn fyw. Caiff cyfarfodydd eu darlledu ar ffurf ffrydio gwe byw, y gellir ei weld drwy wefan y Cyngor ac sy'n ei gwneud yn bosibl i archifo'r darllediad i'w weld yn y dyfodol

Byddai unrhyw eitemau masnachol neu gyfrinachol y mae angen eu trafod yn cael eu trafod mewn sesiwn gaeedig yn unol â chyngor swyddog monitro'r Cyngor.

Amlinellir y rheolau ynglŷn â ffilmio, tynnu lluniau, recordio ac ati yn ystod cyfarfodydd Cynghorau yn rheolau sefydlog pob Cyngor ar hyn o bryd. Mae arfer yn amrywio o un Cyngor i'r llall a'r cynnig yw y dylai fod modd i Weinidogion Cymru nodi disgwyliadau sylfaenol o ran ffilmio ac ati mewn rheoliadau os bydd angen. Byddai hyn, ar y mwyaf, yn gofyn am rai mân addasiadau i reolau sefydlog Cynghorau, felly, nid ystyrir costau'r gofyniad hwn ymhellach yn y cynigion isod.

### Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Annog darlledu drwy negodi un contract ar gyfer yr holl Gynghorau Sir a thrwyddedu'r cyhoedd i ffilmio ac ati yn ystod cyfarfodydd Cynghorau
- Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn electronig a chaniatáu i'r cyhoedd ffilmio ac ati yn ystod cyfarfodydd Cynghorau

## Opsiwn 1 - Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i Gynghorau Sir barhau i wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â darlledu cyfarfodydd y Cyngor a hawliau'r cyhoedd i ffilmio ac ati.

### COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai unrhyw gost ychwanegol o dan yr opsiwn hwn.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol ynghlwm wrth Opsiwn 1. Ar hyn o bryd, mae darparu pecyn darlledu sylfaenol i'r Cynghorau hynny sydd am wneud hynny yn costio £12,000 y flwyddyn.

Fodd bynnag, drwy barhau i roi dewis i Gynghorau ynglŷn â darlledu, mae'n bosibl y bydd rhai yn peidio â darlledu neu leihau faint a ddarlledir er mwyn gwneud arbedion.

### MANTEISION

Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Byddai'r cyhoedd yn gweld bod cyfarfodydd Cynghorau yn llai tryloyw a hygyrch pe bai rhai Cynghorau neu bob un yn peidio â darlledu er mwyn gwneud arbedion.

## Opsiwn 2 – Annog darlledu drwy negodi un contract ar gyfer yr holl Gynghorau Sir a thrwyddedu'r cyhoedd i ffilmio ac ati yn ystod cyfarfodydd Cynghorau

### DISGRIFIAD

Nod yr opsiwn hwn fyddai annog mwy o Gynghorau Sir i ddarlledu a ffilmio cyfarfodydd drwy negodi contract darlledu cyffredin rhwng un darparwr a phob Cyngor Sir.

Rhagwelir y byddai costau ychwanegol ar ôl 1 Ebrill 2020 pan fydd y Cynghorau Sir newydd yn ymgymryd â'u swyddogaethau llawn.

**Tabl 4: Pecyn Darlledu Contract Unigol**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 | | 2021/22 i 2029/30 | | Cyfanswm* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf |
| Llywodraeth Leol | | | | | | |
| Pecyn Darlledu Contract Unigol | £76,800 | £108,000 | £691,200 | £972,000 | £768,000 | £1,080,000 |
| **Cyfanswm Cost** | **£76,800** | **£108,000** | **£691,200** | **£972,000** | **£768,000** | **£1,080,000** |

*Yn seiliedig ar orwel cynllunio o 10 mlynedd

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Gallai sicrhau un contract darlledu i Gymru gyfan arwain at lwyddo i negodi pris contract is fesul Cyngor Sir. Felly gallai'r gost i Gynghorau sy'n darlledu cyfarfodydd ar hyn o bryd fynd yn llai.

Drwy drafodaethau â darparwr darlledu presennol, amcangyfrifir y gellid sicrhau arbediad o hyd at 20 y cant i'r Cynghorau Sir hynny sy'n dewis darlledu ar hyn o bryd. Byddai lefel wirioneddol yr arbedion yn dibynnu ar yr ymarfer caffael penodol a nifer y cyfarfodydd fesul Cyngor y byddai angen eu darlledu.

Dengys Tabl 4 isafswm ac uchafswm cost amcangyfrifedig ar gyfer Llywodraeth Leol gyfan. Mae'r uchafswm yn seiliedig ar naw Cyngor Sir yn talu'r swm cyfartalog o £12,000 fesul Cyngor y flwyddyn a amcangyfrifir ar hyn o bryd, mae'r isafswm yn seiliedig ar wyth Cyngor Sir yn cael gostyngiad o 20 y cant yn eu costau darlledu, a byddai hyn yn peri i'w costau ostwng i £9,600 fesul Cyngor y flwyddyn.

Erbyn 2015, roedd 18 o blith y 22 o Gynghorau yn darlledu neu wedi darlledu eu cyfarfodydd i ryw raddau. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r nifer lai o Gynghorau Sir wrthbwyso cynnydd posibl yn nifer y cyfarfodydd a ddarlledir, a hefyd y gall fod arbedion effeithlonrwydd drwy gontract a negodir yn ganolog. Felly, tybir **na** fyddai **unrhyw gost ychwanegol sylweddol** i Lywodraeth Leol yn ei chyfanrwydd.

Amcangyfrifir y byddai cost o rhwng **£76,600** a **£108,000** i Lywodraeth Leol ym mlwyddyn 1 ac yn y blynyddoedd dilynol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Câi'r contract unigol ei reoli'n ganolog a gallai'r dull gweithredu hwn o bosibl gynyddu nifer y Cynghorau sy'n cymryd rhan. Gallai Cynghorau sy'n darlledu ar hyn o bryd wneud arbedion o fwy na £1,000 y flwyddyn.

### *Manteision i'r cyhoedd*

Pe bai'r dull gweithredu hwn yn cynyddu nifer y Cynghorau sy'n darlledu eu cyfarfodydd, byddai pobl mewn ardaloedd nad oes ganddynt fynediad at ddarllediadau ar hyn o bryd yn cael y fantais o ddemocratiaeth leol fwy hygyrch.

## Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir ddarlledu cyfarfodydd y Cyngor yn electronig a chaniatáu i'r cyhoedd ffilmio ac ati yn ystod cyfarfodydd Cynghorau

## DISGRIFIAD

Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor Sir ddarlledu a ffilmio ei gyfarfodydd. Y cyfarfodydd i'w darlledu fyddai'r cyfarfodydd hynny o'r Cyngor, ei bwyllgorau neu'i is-bwyllgorau sy'n agored i'r cyhoedd. Gallai Gweinidogion Cymru nodi mewn rheoliadau pa drafodion nad yw'r gofyniad i ddarlledu yn gymwys iddynt. Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru.

Fel yn achos Opsiwn 2, mae cyfle hefyd i gaffael contract cenedlaethol unigol gyda chyflenwyr yn darlledu cyfarfodydd Cynghorau.

Rhagwelir y byddai angen canllawiau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar ôl 1 Ebrill 2020 pan fydd y Cynghorau Sir newydd yn ymgymryd â'u swyddogaethau llawn.

**Tabl 5: Costau canllawiau**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Cost Staff - Paratoi Canllawiau | £4,300 |
| Cyfieithu Canllawiau | £800 |
| **Cyfanswm Cost** | **£5,100** |

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Bydd cost fach o £5,100 i Lywodraeth Cymru yn ystod y flwyddyn gyntaf. Cyfrifoldeb swyddogion Llywodraeth Cymru fyddai paratoi a chyfieithu'r canllawiau newydd sydd eu hangen i ategu'r opsiwn hwn.

Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o £5,100 i Lywodraeth Cymru yn 2020/21.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Erbyn 2015, roedd 18 o blith y 22 o Gynghorau yn darlledu neu wedi darlledu eu cyfarfodydd. Felly, tybir na fyddai unrhyw gost ychwanegol sylweddol i Lywodraeth Leol yn ei chyfanrwydd oherwydd caiff y cynnydd posibl mewn oriau darlledu (h.y. nifer y cyfarfodydd i'w darlledu) ei wrthbwyso gan leihad yn nifer y Cynghorau sy'n darlledu (o 18 i wyth neu naw) ac unrhyw arbedion maint ychwanegol posibl a allai godi o ganlyniad i gontract cenedlaethol unigol.

Dengys Tabl 4 isafswm ac uchafswm cost i Lywodraeth Leol. Mae'r uchafswm ar y sail y bydd costau darlledu'r naw Cyngor Sir newydd yn parhau i fod ar yr un lefel â'r ffigur amcangyfrifedig presennol o £12,000 fesul Cyngor y flwyddyn. Mae'r isafswm ffigur yn seiliedig ar wyth Cyngor Sir yn talu £9,600 y flwyddyn. Mae hwn yn seiliedig ar drafodaethau cychwynnol â chwmni darlledu a nododd y gellid gwneud arbedion posibl o hyd at 20%. Fel yn achos Opsiwn 2, amcangyfrifir **na fydd unrhyw gost ychwanegol sylweddol i Lywodraeth Leol** yn ei chyfanrwydd, am y rhesymau a nodir yn y paragraff blaenorol.

## MANTEISION

### *Manteision i'r cyhoedd*

Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi pobl Cymru i ymgysylltu â democratiaeth leol drwy roi modd i wylio penderfyniadau Llywodraeth Leol wrth iddynt gael eu gwneud. Byddai'n fanteisiol i bobl mewn ardaloedd nad ydynt wedi cael mynediad at ddarllediadau o gyfarfodydd cyn hyn.

Byddai hefyd yn codi proffil Lywodraeth Leol a helpu i sicrhau bod lefel debyg o ddarlledu a thryloywder â Senedd y DU, Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

### Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol ac mae'n parhau â'r trefniant bod Cynghorau Sir yn gwneud penderfyniadau unigol ynghylch a ddylid darlledu cyfarfodydd a chaniatáu ffilmio ac ati ai peidio. Ni fyddai'r opsiwn hwn yn sicrhau cysondeb rhwng Cynghorau Sir yng Nghymru.

Byddai Opsiwn 2 yn annog Cynghorau Sir i ddarlledu cyfarfodydd drwy gaffael un contract cenedlaethol, gyda'r gostyngiad posibl mewn costau darlledu fel cymhelliant. Fodd bynnag, byddai'r dewis yn dal i fod yn nwylo pob Cyngor unigol ac nid oes sicrwydd y byddai pob Cyngor Sir yn cymryd rhan o dan yr opsiwn hwn.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'r cyhoedd yn gallu ymgysylltu'n fwy gweithredol â democratiaeth leol.

## 1.6. <u>Arweiniad i’r Cyfansoddiad (a79)</u>

### Cefndir

Mae Adran 37 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir a Chynghorau Bwrdeistref Sirol fabwysiadu cyfansoddiad sy’n nodi eu rheolau sefydlog a’u rheolau ynglŷn â gweithdrefnau, ymddygiad a manylebau rolau sy’n ymwneud â llywodraethu, gweinyddu, cyllid a gweithgareddau masnachol a chydweithredol Cynghorau. Eu diben yw galluogi Cynghorau, swyddogion, y cyhoedd a rhanddeiliaid i ddeall sut mae’r Cyngor yn gwneud penderfyniadau a phwy sy’n gyfrifol am y penderfyniadau hynny.

O ganlyniad, mae cyfansoddiadau Cynghorau yn amrywio o tua 250 o dudalennau i fwy na 450. Er bod angen i gyfansoddiadau Cynghorau fod yn hirfaith o bosibl er mwyn bodloni gofynion y ddeddfwriaeth, mae’n amheus a yw dogfennau mor hir yn helpu’r cyhoedd i ddeall prosesau gwneud penderfyniadau Llywodraeth Leol, na helpu i gyfleu gwerthoedd y sefydliad i’r bobl y maent yn eu gwasanaethu.

Cred Llywodraeth Cymru y dylai’r Cynghorau Sir newydd lunio arweiniad i’w cyfansoddiad nad yw’n llyfr rheolau yn unig, ond un sydd, yn gyntaf oll, yn nodi gwerthoedd y Cyngor, yr egwyddorion y bydd yn gweithredu’n unol â hwy ac, yn benodol, ei berthynas â’r cyhoedd y mae’n ei wasanaethu.

Roedd ymatebion i ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* yn cefnogi’r cynigion ar y cyfan. Cytunodd 92 y cant o ymatebwyr ar-lein y *“Dylai Awdurdodau Lleol nodi mewn iaith glir eu gwerthoedd a’r egwyddorion fydd yn sail i’r modd y maent yn gweithredu yn eu cyfansoddiad.”* Bu cefnogaeth hefyd ymhlith ymatebwyr ar ffurf rydd, gyda llawer yn tynnu sylw at yr angen am i gyfansoddiadau ganolbwyntio ar bobl yn hytrach na phroses.

Roedd 13 o’r 14 o Gynghorau Sir neu Gynghorau Bwrdeistref Sirol a wnaeth sylwadau ar y cynnig yn gefnogol. O blith y 13, roedd tri o’r farn y dylid caniatáu amrywio lleol. Roedd CLILC hefyd yn cefnogi’r nod yn y tymor hwy o adolygu a symleiddio’r gyfraith ynglŷn â chyfansoddiadau Awdurdodau Lleol gyda’r nod o wella tryloywder a dealltwriaeth.

### Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Annog Cynghorau Sir i ystyried ffyrdd o wneud eu cyfansoddiad yn fwy hygyrch a dealladwy i’r cyhoedd

- Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir lunio canllaw clir i ategu eu cyfansoddiadau

### Opsiwn 1 - Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Byddai Cynghorau Sir yn parhau i gyhoeddi eu cyfansoddiadau yn seiliedig ar y fformat presennol. Ni fyddai unrhyw addasiadau.

### COSTAU

#### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

#### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### MANTEISION

#### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol.

### Opsiwn 2 – Annog Cynghorau Sir i ystyried ffyrdd o wneud eu cyfansoddiad yn fwy hygyrch a dealladwy i'r cyhoedd

Câi Cynghorau Sir eu hannog gan Lywodraeth Cymru i wneud newidiadau i'w cyfansoddiadau presennol, gan eu gwneud yn haws eu darllen ac yn fwy dealladwy.

Byddai Opsiwn 2 yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i Gynghorau Sir er mwyn trafod sut i wella eu trefniadau cyfansoddiadol, er enghraifft, rhoi enghreifftiau o arfer da. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd roi canllawiau ychwanegol i Gynghorau Sir.

Byddai presenoldeb yn wirfoddol ac, felly, mae'n anodd bod yn sicr y byddai digwyddiadau o'r fath yn cyflawni'r hyn a ddymunir.

Rhagwelir mai dim ond yn 2020/21 y byddid yn mynd i gostau ychwanegol.

### COSTAU

Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno costau ychwanegol o £20,700.

**Tabl 6: Costau Bwriadau Polisi**

| Sefydliad | 2020/21 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau Staff - trefnu digwyddiadau | £6,000 |
| Costau digwyddiadau - gan gynnwys cyfieithu | £1,500 |
| Costau Staff - paratoi canllawiau | £4,300 |
| Costau cyfieithu canllawiau | £800 |
| **Cyfanswm Costau i Lywodraeth Cymru** | **£12,600** |
| | |
| **Llywodraeth Leol** | |
| Costau Staff - mynychu digwyddiadau | £8,100 |
| **Cyfanswm cost bwriadau polisi** | **£20,700** |

## *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai cynnal digwyddiadau i annog a chefnogi yn gosod cost ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Câi tri digwyddiad eu cynnal yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig, gan roi gwybodaeth fanwl ac enghreifftiau o arfer da. Byddai'r digwyddiadau hyn yn costio £7,500.

Byddai'r gwaith o baratoi canllawiau i Gynghorau Sir yn gosod cost ychwanegol o £5,100 ar Lywodraeth Cymru.

Byddai'r holl gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn rhai ymlaen llaw ym Mlwyddyn 1, a fyddai'n gwneud cyfanswm o **£12,600**.

## *Y gost i Lywodraeth Leol*

Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno costau ychwanegol o ychydig dros **£8,100** i Lywodraeth Leol, sy'n adlewyrchu'r gwahoddiad i swyddogion i fynychu digwyddiadau hyfforddiant. Mae angen i Gynghorau Sir ddrafftio cyfansoddiadau newydd a'u diweddaru a'u diwygio'n rheolaidd fel mater o drefn.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Gallai staff Cynghorau sy'n mynychu digwyddiadau gael hyfforddiant ac arweiniad ar y ffordd y dylid addasu eu cyfansoddiadau presennol, gyda'r nod o sicrhau eu bod yn fwy hygyrch a dealladwy.

### *Y fantais i eraill*

Byddai dogfen gyfansoddiadol well sy'n fwy hygyrch ac yn haws ei deall yn fanteisiol i'r cyhoedd.

### Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir lunio canllaw i ategu eu cyfansoddiadau

Byddai Opsiwn 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynghorau Sir newydd baratoi arweiniad i'r cyfansoddiad a fydd yn galluogi'r cyhoedd ac Aelodau Etholedig i ddeall y prif reolau gweithdrefnol a chynnal busnes.

Byddai'r ddarpariaeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor Sir gyhoeddi ei ganllaw mewn lle blaenllaw ar ei wefan. Bydd hyn yn sicrhau bod cynifer o etholwyr â phosibl yn cael gwybod sut i gael gafael ar y canllaw.

Byddai Llywodraeth Cymru yn cynnal cyfres o ddigwyddiadau i helpu Cynghorau Sir i gyflawni'r swyddogaethau newydd hyn. Gallai hefyd baratoi canllawiau i gefnogi Cynghorau gyda'r swyddogaethau hyn (a gyhoeddir o dan adran 38 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000), y bydd yn rhaid iddynt roi sylw iddynt.

Dim ond yn 2020/21 y disgwylir y byddid yn mynd i gostau ychwanegol.

## COSTAU

Byddai Opsiwn 3 yn cyflwyno costau ychwanegol o £55,600 neu £59,900, yn dibynnu ai wyth neu naw Cyngor Sir fyddai yng Nghymru.

**Tabl 7: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 Isaf | 2020/21 Uchaf |
|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | | |
| Costau Staff - Trefnu Digwyddiadau | £6,000 | £6,000 |
| Costau Digwyddiadau - gan gynnwys Cyfieithu | £1,500 | £1,500 |
| Costau Staff - Paratoi Canllawiau | £4,300 | £4,300 |
| Costau Cyfieithu Canllawiau | £800 | £800 |
| **Cyfanswm Cost i Lywodraeth Cymru** | **£12,600** | **£12,600** |
| | | |
| Llywodraeth Leol | | |
| Costau Staff - Mynychu Digwyddiadau | £8,100 | £8,100 |
| Costau Staff - Paratoi Canllawiau | £34,200 | £38,400 |
| Costau Cyfieithu Canllawiau | £800 | £800 |
| **Cyfanswm Cost i Lywodraeth Leol** | **£43,100** | **£47,300** |
| **Cyfanswm Cost** | **£55,600** | **£59,900** |

## *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Fel yn achos Opsiwn 2, byddai cynnal digwyddiadau arfer da yn gosod cost ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Dim ond yn ystod y flwyddyn gyntaf y câi'r tri digwyddiad eu cynnal, a fyddai'n rhoi gwybodaeth fanwl ac enghreifftiau o arfer da. Byddai'r digwyddiadau hyn yn costio £7,500. Byddai paratoi canllawiau i Gynghorau Sir yn costio £5,100.

Byddai'r holl gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn gwneud cyfanswm o **£12,600**.

## *Y gost i Lywodraeth Leol*

Byddai'r gwaith o ddatblygu arweiniad newydd i'r cyfansoddiad yn ei gwneud yn ofynnol i uwch swyddog Llywodraeth Leol ddrafftio'r arweiniad ac i gyfreithiwr oruchwylio'r arweiniad. Ni fyddai angen i'r arweiniad gael ei gyhoeddi ar ffurf copi caled, ac nid ystyriwyd unrhyw gostau ar gyfer cyhoeddi'n electronig yn unig. Un eithriad i hyn yw pan fydd aelod o'r cyhoedd am gael copi ac, os felly, efallai y bydd y Cyngor yn codi am gost ei ddarparu os dymuna. Byddai cost fach hefyd yn gysylltiedig â swyddogion yn mynychu digwyddiadau Llywodraeth Cymru.

Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o rhwng **£43,100** a **£47,300** i Lywodraeth Leol ym Mlwyddyn 1, yn dibynnu ai wyth neu naw Cyngor Sir fyddai yng Nghymru.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai arweiniad clir i'r cyfansoddiad, wedi'i ysgrifennu mewn iaith syml yn helpu Llywodraeth Leol i ymgysylltu'n fwy effeithiol â phobl leol.

### *Y fantais i'r cyhoedd*

Byddai arweiniad clir yn helpu'r cyhoedd i ddeall sut mae Cynghorau Sir yn gweithio. Gallai hefyd eu helpu i ymgysylltu'n fwy effeithiol â'u Cynghorau.

### Crynodeb

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newidiadau a byddai'r cyfansoddiadau cymhleth presennol yn parhau'n ddigyfnewid.

Byddai Opsiwn 2 yn annog Cynghorau Sir i newid eu dull gweithredu presennol ond byddai hyn ar sail wirfoddol.

Byddai Opsiwn 3 yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir lunio arweiniad hygyrch i'w cyfansoddiadau.

### Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai pobl yn deall yn well sut mae Cynghorau Sir yn gweithio a sut y gall y cyhoedd ymgysylltu â hwy.

## 1.7. <u>Dyletswyddau ar Gynghorwyr Sir a Chymuned (a82-88, 167-170)</u>

### Cefndir

Cynghorwyr (Aelodau Etholedig) yw’r cyswllt rhwng pobl leol a Llywodraeth Leol, ac maent yn chwarae rôl hanfodol o ran cynrychioli eu hetholwyr fel rhan o’r Cyngor. Maent yn cyflawni hon drwy gynnal cymorthfeydd a chyfarfod ag aelodau o’r cyhoedd, cymryd rhan yn y pwyllgorau y maent wedi cael eu penodi iddynt, a dwyn y Weithrediaeth i gyfrif drwy drosolwg a chrafu.

Mae Gweinidogion Cymru am sicrhau bod rôl Cynghorwyr mor glir â phosibl, a’u bod yn cael y cyfle gorau i gyflawni eu cyfrifoldebau i’w hetholwyr.

Roedd dau o bob tri ymatebydd ar-lein (67 y cant) i’r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* yn cefnogi’r cynnig y dylai rolau, cyfrifoldebau a dyletswyddau Cynghorwyr gael eu diffinio mewn deddfwriaeth. Cytunodd 86 y cant o ymatebwyr ar-lein y dylai Cynghorwyr fynychu cymorthfeydd, a chytunodd 89 y cant â phresenoldeb mewn pwyllgorau.

### Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Cefnogi ac annog Cynghorwyr i nodi eu rolau’n glir
- Opsiwn 3 – Egluro rôl Cynghorwyr drwy nodi eu dyletswyddau allweddol mewn deddfwriaeth

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Byddai Cynghorwyr yn parhau i ymgymryd â’u dyletswyddau yn y ffordd fwyaf priodol, yn eu barn hwy.

### COSTAU

#### *Y gost i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

### MANTEISION

#### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

## Opsiwn 2 – Cefnogi ac annog Cynghorwyr i nodi eu rolau'n glir

## DISGRIFIAD

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylai swyddogion Llywodraeth Cymru gynnal nifer o ddigwyddiadau i gefnogi ac annog Cynghorwyr i wella'r ffordd y maent yn cyfathrebu â'u hetholwyr ac yn eu cynrychioli, a'u hannog i atgyfnerthu eu sgiliau drwy fynychu cyrsiau hyfforddiant ychwanegol.

Fel yn achos unrhyw gynllun gwirfoddol, ni ellir gwarantu y bydd pobl yn ymgymryd â'r hyfforddiant. Felly, nid yw'n sicr y byddai'r dull gweithredu hwn yn sicrhau'r lefel o newid a ddymunir. Byddai unrhyw ddigwyddiadau yn cael eu cynnal yn y flwyddyn ar ôl ethol Awdurdodau Cysgodol yn 2019.

## COSTAU

Byddai Opsiwn 2 yn gosod costau ychwanegol o £15,600 yn 2019/20.

**Tabl 8: Costau Trefnu Digwyddiadau**

| Costau Bwriadau Polisi | 2019/20 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau Staff (Trefnu Digwyddiadau) | £6,000 |
| Trefnu Digwyddiadau (gan gynnwys cyfieithu) | £1,500 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£7,500** |
| Llywodraeth Leol | |
| Cost Staff - Mynychu Digwyddiadau | £8,100 |
| **Cyfanswm Cost** | **£15,600** |

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai cynnal digwyddiadau annog a chefnogi yn gosod cost ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Câi tri digwyddiad eu cynnal yn ystod y flwyddyn gyntaf yn unig. Amcangyfrifir y byddai'r digwyddiadau hyn yn costio £7,500.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Amcangyfrifir y byddai Opsiwn 2 yn gosod  cost ychwanegol o ychydig dros £8,000 ar Lywodraeth Leol; mae hyn yn adlewyrchu cost Cynghorwyr yn mynychu digwyddiadau.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai Cynghorwyr sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn yn cael eu hannog a'u cefnogi i fabwysiadu arfer gorau. Gallai hyn olygu bod yr etholwyr yn ymwneud yn fwy agos â gweithgareddau Cynghorwyr. Fodd bynnag, mae cynnal digwyddiadau annog gwirfoddol yn golygu na fyddai'r manteision hyn wedi'u gwarantu.

## Opsiwn 3 – Egluro rôl Cynghorwyr drwy nodi eu dyletswyddau allweddol mewn deddfwriaeth

## DISGRIFIAD

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig y dylid egluro rôl Cynghorwyr drwy nodi eu dyletswyddau allweddol mewn deddfwriaeth. Gallai Gweinidogion Cymru gefnogi Cynghorwyr drwy baratoi canllawiau. Byddai'r rhwymedigaethau hyn yn cychwyn ar ôl ethol Awdurdodau Cysgodol ym mis Mai 2019.

Ystyrir mai'r dyletswyddau allweddol yw'r canlynol:

- Byddai'n ofynnol i Gynghorwyr fod ar gael i'w hetholwyr. Byddai hyn yn golygu rhwymedigaeth i gynnal sesiynau 'cymhorthfa' rheolaidd yn eu wardiau lle y gall yr etholwyr siarad â'u Cynghorwyr yn breifat. Gallai Gweinidogion Cymru baratoi canllawiau ynglŷn â pha mor rheolaidd y dylid cynnal cymorthfeydd o'r fath, eu lleoliad, a sut y dylid eu cynnal.
- Byddai'n ofynnol hefyd i Gynghorwyr ymateb i ohebiaeth a anfonir atynt yn eu cyfeiriad swyddogion ar gyfer gohebiaeth.
- Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir benderfynu pa gyrsiau hyfforddiant a datblygu ddylai fod yn orfodol i Gynghorwyr a hefyd i aelodau Cynghorau Cymuned yn eu hardal. Gallai Gweinidogion Cymru baratoi canllawiau ar ddyletswyddau arfaethedig Cynghorwyr, gan gynnwys ar hyfforddiant a datblygu, y byddai'n ofynnol i Gynghorau a Chynghorwyr Sir a Chynghorau a Chynghorwyr Cymuned roi sylw iddynt.
- Byddai'n ofynnol i Gynghorwyr fynychu cyfarfodydd o'r Cyngor llawn ac unrhyw bwyllgorau y maent yn aelodau ohonynt, oni bai bod ganddynt reswm da dros fethu â bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath.

- Byddai'n ofynnol i Gynghorwyr fynychu unrhyw gyfarfodydd y byddai disgwyl iddynt yn rhesymol eu mynychu wrth arfer swyddogaethau Cynghorydd, oni bai bod ganddynt reswm da dros fethu â bod yn bresennol mewn cyfarfod o'r fath.

## COSTAU

Amcangyfrifir y byddai Opsiwn 3 yn cyflwyno costau ychwanegol o **£25,800** yn 2019/20.

**Tabl 9: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2019/20 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau Staff - Trefnu Digwyddiadau | £6,000 |
| Trefnu digwyddiadau (gan gynnwys cyfieithu) | £1,500 |
| Cost Staff - Paratoi Canllawiau | £10,100 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£17,700** |
| Llywodraeth Leol | |
| Costau Staff - Mynychu Digwyddiadau | £8,100 |
| **Cyfanswm Cost** | **£25,800** |

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai'r gwaith o baratoi canllawiau i esbonio'r dyletswyddau a chefnogi Cynghorwyr yn cyflwyno cost ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Gallai'r canllawiau hyn hefyd helpu Cynghorau Sir i gydymffurfio â'u dyletswyddau mewn perthynas â hyfforddiant i Gynghorwyr Sir. Disgwylir i'r canllawiau hyn fod yn fanwl, ac felly byddai'n cymryd mwy o amser i'w paratoi nag enghreifftiau eraill o ganllawiau ategol. Amcangyfrifir y byddai cost untro o bron **£18,000**. Byddai unrhyw broses o ddiweddaru'r canllawiau yn y dyfodol yn rhan o fusnes arferol.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai Opsiwn 3 yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Leol o reidrwydd. Er y byddai nifer o gyfrifoldebau yn cael eu cyflwyno, mae'n bwysig nodi bod llawer o Gynghorwyr eisoes yn cyflawni cyfrifoldebau o'r fath, ond mewn ffyrdd gwahanol. At hynny, mae cyflwyno'r dyletswyddau hyn yn cyfrannu at ddiffinio rôl hanfodol y Cynghorydd. Disgwylir y byddai Cynghorwyr yn parhau i neilltuo'r un oriau i'w rôl ag y maent yn ei wneud ar hyn o bryd, ond y byddent yn defnyddio eu hamser mewn ffordd wahanol. Cynigir cryn dipyn o hyfforddiant i Gynghorwyr eisoes, ond mae'r niferoedd sy'n ei dderbyn yn amrywio. O dan y

cynigion hyn, byddai’n ofynnol i Gynghorwyr fynychu cyrsiau hyfforddiant sydd naill ai eisoes yn agored iddynt neu y gellid eu darparu o fewn cyllidebau hyfforddiant presennol.

Ceir ymrwymiad hefyd i Gynghorau Sir ystyried anghenion hyfforddiant Cynghorau Cymuned yn eu hardal, p’un a ddylai unrhyw elfennau o’r hyfforddiant fod yn orfodol ac, os felly, drefnu i ddarparu hyfforddiant. Mae’n debygol y byddai elfennau gorfodol, os oes rhai, ond yn cwmpasu llond dwrn o bynciau sydd o ddiddordeb i’r Cyngor Sir a’r Cyngor Cymuned fel ei gilydd. Gallai hyn gynnwys materion megis cynllunio (mae Cynghorau Cymuned yn ymgyngoreion statudol ar geisiadau cynllunio yn eu hardal) a’r Cod Ymddygiad (mae pwyllgorau safonau Cynghorau Sir yn goruchwylio safonau ymddygiad Cynghorwyr Sir a Chynghorwyr Cymuned yn eu hardal). Fodd bynnag, ni chredir bod angen mynd i wariant ychwanegol ar hyn os caiff trefniadau eu cynllunio’n ddoeth.

Mae clercod a chadeiryddion Cynghorau Cymuned yn cael cyfarfodydd rheolaidd â Chynghorau Sir er mwyn trafod materion o ddiddordeb i’r ddau Gyngor. Mae nifer y cyfarfodydd yn debygol o gynyddu os bydd llai o Gynghorau Cymuned ond Cynghorau Cymuned mwy o faint (ar ôl adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned) a rhaglen fwy datblygedig o drosglwyddo asedau a gwasanaethau. Gellir trefnu unrhyw hyfforddiant ar yr un diwrnod â’r cyfarfodydd rheolaidd hyn. Mae hyfforddiant yn annhebygol o bara am fwy na dwy awr fesul sesiwn, gyda’r hyfforddiant yn cael ei arwain gan un o swyddogion y Cyngor Sir, megis Swyddog Cynllunio neu Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Felly, ni fyddai hyfforddiant a gynhelir yn y modd hwn yn arwain at dreuliau teithio ychwanegol i aelodau’r Cyngor Cymuned, ond byddai’n arwain at gost cyfle bach i swyddogion y Cyngor Sir. Fodd bynnag, ystyrir y byddai’r hyfforddiant yn arwain at arbedion yn ddiweddarach, er enghraifft ym musnes Pwyllgor Cynllunio a Phwyllgor Safonau’r Cyngor Sir. Felly, ystyrir bod y gost gyffredinol yn fach iawn.

Amcangyfrifir y byddai Opsiwn 3 yn gosod costau ychwanegol o ychydig dros £8,000 ar Lywodraeth Leol; mae hyn yn adlewyrchu cost Cynghorwyr yn mynychu digwyddiadau.

Ymdrinnir â chostau posibl Swyddogion Monitro a Phwyllgorau Safonau mewn perthynas â pheidio â chyflawni ymrwymiadau hyfforddiant isod.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai gosod cyfres glir o ddyletswyddau ar Gynghorwyr yn egluro’r rôl. Mae’r ffordd  y mae Cynghorwyr yn cyflawni eu rolau yn debygol o ddod yn fwy cyson ledled Cymru. Gallai hyn arwain at fwy o ymddiriedaeth ymhlith y cyhoedd a gwell ymgysylltu â democratiaeth.

### *Manteision i eraill*

Byddai'r dyletswyddau ar Gynghorwyr i Ymgysylltu â'i hetholwyr yn sicrhau ymgysylltu â'r cyhoedd o ansawdd cyson ledled Cymru, a byddent yn debygol o ddod â'r cyhoedd yn nes at y broses gwneud penderfyniadau.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol, ac ni fyddai'n egluro nac yn atgyfnerthu rôl Cynghorwyr.

Byddai Opsiwn 2 yn cefnogi ac yn annog Cynghorwyr i egluro eu rolau. Gan mai ar sail wirfoddol y byddai hynny, ni fyddai unrhyw sicrwydd o welliant. Byddai'r opsiwn hwn yn gosod costau ychwanegol o £15,600.

Byddai Opsiwn 3 yn gosod nifer fach o ddyletswyddau allweddol ar Gynghorwyr er mwyn egluro eu rôl, a'u helpu i'w chyflawni. Byddai'r opsiwn hwn yn gosod costau ychwanegol o £25,800.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai cyfrifoldebau Cynghorwyr Sir yn cael eu nodi'n glir, gan wella tryloywder ac atebolrwydd a hyrwyddo ymgysylltu â democratiaeth leol ymhlith y cyhoedd.

## 1.8. Adroddiadau Blynyddol a Pherfformiad Cynghorwyr Sir (a86-93, s96, s109)

### Cefndir

Roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys darpariaethau i atgyfnerthu democratiaeth leol drwy gefnogi Aelodau Etholedig. Roedd hyn yn cynnwys gofyniad yn adran 5 i Gynghorwyr wneud trefniadau angenrheidiol i unrhyw Gynghorydd allu cyhoeddi adroddiad blynyddol yn disgrifio ei weithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol. Anogir Cynghorwyr i baratoi adroddiadau blynyddol. Daeth y darpariaethau i rym ar 30 Ebrill 2012, ar ôl yr etholiadau lleol y flwyddyn honno, sy’n golygu i’r adroddiadau cyntaf gael eu cyhoeddi ar ôl diwedd y flwyddyn ddinesig gyntaf o fis Mai 2013 ymlaen.

Awgryma ffigurau 2014/15 fod llai na 500 o adroddiadau blynyddol wedi cael eu cyhoeddi o blith cyfanswm posibl o 1,253. Mae’r ganran a gyhoeddwyd fesul Cyngor yn amrywio. Er enghraifft, mae un Cyngor wedi cyhoeddi 100 y cant ond mae eraill ond wedi cyhoeddi 4 y cant. I’r rhan fwyaf o Gynghorau mae’r cyfraddau rhwng 20 y cant a 50 y cant.

Nododd yr ymatebion i’r Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* fod rhai Aelodau Etholedig wedi dadlau nad oes angen adroddiadau blynyddol am eu bod yn cael eu barnu gan y cyhoedd yn y blwch pleidleisio. Fodd bynnag, ni allai aelodau’r cyhoedd farnu cyflawniadau Cynghorwyr unigol os na allent weld gwybodaeth am eu gweithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol.

Cynigiodd y Papur Gwyn y dylai fod yn ofynnol i bob Cynghorydd baratoi adroddiad blynyddol. Cytunodd 68 y cant o ymatebwyr ar-lein i’r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn â’r cynnig.

### Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Annog Cynghorwyr i gyhoeddi adroddiadau blynyddol
- Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorwyr baratoi adroddiadau blynyddol ac i Bwyllgorau Safonau chwarae rôl a chyflwyno adroddiad ar eu hystyriaeth o berfformiad Cynghorwyr o ran hyn ac o ran eu dyletswyddau eraill.

## Opsiwn 1 - Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newidiadau. Byddai’n ofynnol o hyd i Gynghorau Sir helpu Cynghorwyr i gyhoeddi adroddiad, a byddai’r Cynghorwyr yn parhau i benderfynu drostynt hwy eu hunain a ddylent wneud hynny.

### COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol.

### MANTEISION

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol i Lywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru na’r cyhoedd. Byddai cyhoeddi adroddiadau blynyddol gan Aelodau Etholedig yn dal i fod yn ymarferol.

## Opsiwn 2 – Annog Cynghorwyr i gyhoeddi adroddiadau blynyddol

### DISGRIFIAD

Byddai Opsiwn 2 yn cadw’r trefniadau presennol. Byddai’n ofynnol i Gynghorau Sir helpu Cynghorwyr i gyhoeddi adroddiad blynyddol, a byddai’r Cynghorwyr yn parhau i benderfynu drostynt hwy eu hunain a ddylent wneud hynny.

Fodd bynnag, byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i Gynghorau a Chynghorwyr Sir er mwyn hyrwyddo adroddiadau blynyddol. Byddai’r digwyddiadau hyn yn annog ac yn cefnogi Cynghorwyr i baratoi adroddiadau blynyddol, gan ganolbwyntio’n benodol ar y Cynghorau nad ydynt yn annog Cynghorwyr i gwblhau adroddiadau blynyddol ar hyn o bryd.

Ochr yn ochr â’r digwyddiadau hyn, gallai Llywodraeth Cymru wella ei chanllawiau i Gynghorwyr ar baratoi adroddiadau blynyddol. Gellir cyhoeddi canllawiau statudol y mae’n rhaid i Gynghorau Sir roi sylw iddynt o dan adran 5(4) o Fesur 2011. Byddai’r canllawiau a’r digwyddiadau yn hyrwyddo gwell gweithio mewn partneriaeth rhwng Cynghorau, er mwyn nodi a lledaenu arfer da ynglŷn ag adroddiadau blynyddol.

Fodd bynnag, gan y byddai'r penderfyniad i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn parhau i fod yn un gwirfoddol, ni ellid gwarantu y byddai Cynghorwyr yn gwneud hynny.

Byddai costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â'r opsiwn hwn yn dechrau codi o fis Ebrill 2020 ymlaen.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, amcangyfrifir y byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno cost ychwanegol o ychydig o dan **£75,000**, gyda £18,300 o'r gost ychwanegol yn codi yn y flwyddyn gyntaf, 2020/21.

**Tabl 10: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 | 2021/22 i 2029/30 | Cyfanswm* |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | | | |
| Costau Staff - Trefnu Digwyddiadau | £6,000 | £27,600 | £33,700 |
| Trefnu Digwyddiadau | £1,500 | £4,500 | £6,000 |
| Cost Staff - Diweddaru Canllawiau | £1,900 | - | £1,900 |
| Cyfieithu Canllawiau | £800 | - | £800 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£10,200** | **£32,100** | **£42,300** |
| Llywodraeth Leol | | | |
| Costau Staff = Mynychu Digwyddiadau | £8,100 | £24,300 | £32,400 |
| **Cyfanswm Cost** | **£18,300** | **£56,400** | **£74,700** |

*Yn seiliedig ar orwel cynllunio o 10 mlynedd

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Byddai'r gwaith o gynnal digwyddiadau a diweddaru canllawiau yn cyflwyno costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, ac amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o £42,300 dros ddeng mlynedd.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, câi tri digwyddiad eu cynnal, a byddai canllawiau yn cael eu diweddaru. Byddai hyn yn cyflwyno costau ychwanegol o £10,200.

Câi digwyddiad blynyddol llai o faint ei gynnal hefyd yn ystod y blynyddoedd dilynol, gan y gallai fod yn fanteisiol parhau i annog rhai Cynghorwyr. Amcangyfrifir y byddai cost flynyddol o £3,600 i Lywodraeth Cymru.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Amcangyfrifwyd cost fach sy'n gysylltiedig â mynychu'r digwyddiadau, sy'n adlewyrchu mynd i dri digwyddiad yn 2020/21 ac un digwyddiad yn ystod y blynyddol dilynol. Ar ôl y digwyddiadau a'r canllawiau gwell, efallai y bydd rhai

Cynghorwyr yn paratoi adroddiadau blynyddol am y tro cyntaf. Efallai y bydd eraill yn diwygio fformat neu gynnwys eu hadroddiadau presennol. Fodd bynnag, byddai'r costau cysylltiedig yn fach iawn, a byddent yn rhan o ddyletswyddau arferol y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd a'i dîm sydd eisoes o dan ddyletswydd i gyhoeddi adroddiadau blynyddol Cynghorwyr. Mae cyflwyno adroddiadau ar weithgareddau allweddol yn rhan allweddol o rôl Cynghorydd.

## MANTEISION

Mae manteision posibl Opsiwn 2 yn dibynnu ar gamau gwirfoddol Cynghorwyr. Os bydd y digwyddiadau a'r canllawiau a ddarperir yn cynyddu nifer y Cynghorwyr sy'n cyhoeddi adroddiadau blynyddol, yna byddai hyn yn gwella gallu'r cyhoedd i ddeall gwaith, cyflawniadau a chynnydd eu Haelodau Etholedig dros gylch blynyddol. Byddai hyn yn helpu i ddarparu Llywodraeth Leol fwy tryloyw ac agored.

## Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorwyr baratoi adroddiadau blynyddol ac i Bwyllgorau Safonau gyflwyno adroddiad ar eu hystyriaeth o berfformiad Cynghorwyr o ran hyn ac o ran eu dyletswyddau eraill.

## DISGRIFIAD

Byddai Opsiwn 3 yn gosod dyletswydd statudol ar bob Cynghorydd Cynghorau Sir i gyhoeddi adroddiad blynyddol. Byddai'n ofynnol i Gynghorwyr roi sylw i ganllawiau Gweinidogion Cymru ar adroddiadau blynyddol, a gallai methiant i baratoi adroddiad blynyddol arwain at atgyfeiriad at swyddog monitro'r Awdurdod ac, yn y pen draw, at bwyllgor safonau'r Cyngor. Byddai'n ofynnol o hyd i Gynghorau Sir gyhoeddi adroddiadau blynyddol.

Er mwyn cefnogi Cynghorwyr, byddai Llywodraeth Cymru yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i Gynghorau a Chynghorwyr Sir er mwyn hyrwyddo adroddiadau blynyddol. Gellid llunio canllawiau newydd hefyd.

Rhagwelir y bydd yr opsiwn hwn ond yn dwyn costau ychwanegol yn 2020/21.

## COSTAU

Byddai Opsiwn 3 yn cyflwyno costau ychwanegol o **£23,100**.

**Tabl 11: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau Staff - Trefnu Digwyddiadau | £6,000 |
| Trefnu Digwyddiadau | £1,500 |
| Cost Staff - Diweddaru Canllawiau | £6,700 |
| Cyfieithu Canllawiau | £800 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£15,000** |
| | |
| Llywodraeth Leol | |
| Costau Staff - mynychu digwyddiadau | £8,100 |
| | |
| **Cyfanswm Cost** | **£23,100** |

## *Costau i Lywodraeth Cymru*

Byddai'r gwaith o gynnal digwyddiadau a diweddaru canllawiau yn cyflwyno costau ychwanegol i Lywodraeth Cymru, ac amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o £15,000 yn 2020/21. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys cost o £6,700 yn 2020/21 sy'n gysylltiedig â llunio rheoliadau a chanllawiau gan Lywodraeth Cymru. Byddai'r rheoliadau hyn yn rhoi'r hawl i apelio i aelodau'r Cyngor mewn perthynas â phenderfyniad y pwyllgor safonau ar ôl i'r pwyllgor hwnnw ystyried achos a amheuir o dorri'r dyletswyddau perfformiad.

Yn ystod y flwyddyn gyntaf, câi tri digwyddiad eu cynnal, a gellid llunio canllawiau. Byddai hyn yn cyflwyno costau ychwanegol o £12,700. Ni châi unrhyw ddigwyddiadau eraill eu cynnal yn ystod y blynyddoedd dilynol, gan y byddai rhwymedigaeth ar Gynghorau Sir i annog Cynghorwyr i gwblhau adroddiadau blynyddol.

## *Y gost i Lywodraeth Leol*

Amcangyfrifwyd cost fach sy'n gysylltiedig â mynychu'r digwyddiadau, sy'n adlewyrchu mynd i dri digwyddiad yn 2020/21 ac un digwyddiad yn ystod y blynyddol dilynol. O ystyried y gofyniad ar bob Cynghorydd i baratoi adroddiad blynyddol, byddai llawer yn debygol o wneud hynny am y tro cyntaf. Efallai y bydd eraill yn diwygio fformat neu gynnwys eu hadroddiadau presennol. Fodd bynnag, byddai'r costau cysylltiedig yn fach iawn, a disgwylir iddynt fod yn rhan o fusnes arferol Cynghorau. Mae cyflwyno adroddiadau ar weithgareddau allweddol yn rhan allweddol o rôl Cynghorydd.

Mae gan Bwyllgorau Safonau a Swyddogion Monitro gyfrifoldebau newydd a gynigir o dan a87-93 i ymchwilio i unrhyw gwynion o ddiffyg cydymffurfiaeth ymhlith aelodau mewn perthynas â'r dyletswyddau newydd a osodir arnynt. Nid oes modd pennu a fydd hyn yn cynyddu'r costau i Lywodraeth Leol gan na ellir rhagweld a fydd cwynion o'r fath yn codi na faint. At hynny, ni fyddai angen

cyfarfodydd ychwanegol o Bwyllgorau Safonol yn ychwanegol at eu cyfarfodydd arferol o reidrwydd. Byddai rôl y Swyddog Monitro yn rhan o’i ddyletswyddau ac ni fyddai’n arwain at gostau cynyddol o anghenraid. Byddai angen hefyd i Bwyllgorau Safonau, o dan adran 96 o’r Bil, gynnwys hyfforddiant ar gydymffurfio â’r dyletswyddau hyn sy’n ychwanegol at eu hanghenion hyfforddiant mewn perthynas â’r Cod Ymddygiad. Unwaith eto, dim ond os byddai hyn yn arwain at sesiynau hyfforddiant ychwanegol, na fyddai’n digwydd o anghenraid, y byddai costau ychwanegol.

Bydd yn ofynnol i’r pwyllgor safonau o dan a109 baratoi adroddiad blynyddol ar ei weithgareddau y bydd yn rhaid iddo gael ei ystyried wedyn gan y Cyngor Sir o fewn tri mis. Nid ystyrir y byddai hyn yn arwain at gostau ychwanegol i Gynghorau Sir gan fod llawer o bwyllgorau safonau eisoes yn paratoi adroddiadau o’r fath fel mater o arfer da.

## MANTEISION

Byddai gosod dyletswydd ar Gynghorwyr i gyhoeddi adroddiad blynyddol yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddir. Byddai hyn yn rhoi mwy o dryloywder ynglŷn â gwaith Cynghorwyr, a gallai helpu Cynghorwyr i gyfleu rhychwant eu gwaith i’w cymunedau, a gallai hyrwyddo gwell ymgysylltu democrataidd.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i’r trefniadau presennol. Byddai’r penderfyniad i gyhoeddi adroddiadau blynyddol yn dal i fod yn wirfoddol.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gynnal digwyddiadau a diweddaru canllawiau er mwyn annog Cynghorwyr i gyhoeddi adroddiadau blynyddol. Byddai’r penderfyniad i gyhoeddi yn dal i fod yn wirfoddol, ac felly nid oes unrhyw sicrwydd y byddai nifer yr adroddiadau blynyddol a gyhoeddir yn cynyddu. Câi costau ychwanegol o £74,700 eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Byddai Opsiwn 3 yn gosod dyletswydd statudol ar bob Cynghorydd Sir i gyhoeddi adroddiadau blynyddol. Câi digwyddiadau cefnogi eu cynnal, a châi canllawiau eu paratoi. Câi costau ychwanegol o £23,100 eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw’r opsiwn a ffefrir am y byddai pobl yn deall yn well yr hyn y mae Cynghorau Sir yn ei wneud a’r hyn y maent yn ei gyflawni dros bobl leol.

## 1.9. Dyletswydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad (a98)

### Cefndir

Mae Llywodraeth Leol yn darparu gwasanaethau rheng flaen i'r cyhoedd sy'n hollbwysig i'w bywydau bob dydd. Felly, mae'n hanfodol bod Cynghorau mewn cytgord â'u cymunedau lleol, ac yn gynrychioliadol ohonynt. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen diwylliant gwleidyddol atyniadol ar Lywodraeth Leol, sy'n agored i syniadau o bob rhan o gymdeithas.

Cyhoeddwyd yr adroddiad, *Ar ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau democratiaeth amrywiol mewn llywodraeth leol yng Nghymru,* gan y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol yn 2014.[7] Nododd yr adroddiad "bod y profiad o fod yn gynghorydd yn gallu bod yn ddigon hefyd i gymell pobl i beidio ag ymgeisio". Ceir tystiolaeth anecdotaidd bod Cynghorwyr wedi ymddiswyddo o rolau, neu hyd yn oed wedi gadael y Cyngor ei hun, o ganlyniad i'r hyn sy'n ddiwylliant o fwlio neu aflonyddu, eu tyb hwy, sy'n mynd y tu hwnt i'r arferion derbyniol sy'n gysylltiedig â gorfodi disgyblaeth ar grwpiau plaid. Dengys dadansoddiad o'r 20 achos mwyaf diweddar y mae Panel Dyfarnu Cymru wedi penderfynu arnynt (wedi'i ddiweddaru 18 Medi 2015), lle y dyfarnwyd bod yr aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad, fod 16 yn ymwneud â thor-rheol o dan un neu fwy o'r canlynol: adran 4(a) cydraddoldeb, 4(b) trin eraill gyda pharch ac ystyriaeth, 4(c) bwlio ac aflonyddu a 6(1)(a) dwyn anfri.

### *Bwlio*

Mae Cynghorwyr Awdurdod yn ddarostyngedig i ddarpariaethau'r Cod Ymddygiad. Cred Llywodraeth Cymru y dylai arweinwyr grwpiau gwleidyddol gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau eu grŵp.

Gall delwedd o fwlio fod yn niweidiol i enw da Llywodraeth Leol. Mae yna bethau y gall pob Cynghorydd ei wneud ac y dylai ei wneud, gan gynnwys gwrando ar gyfraniadau eraill mewn ffordd barchus ac osgoi sarhau eraill yn bersonol.

Byddai herio achosion o fwlio yn effeithiol yn cynyddu diogelwch a hapusrwydd pawb sy'n gweithio o fewn grwpiau gwleidyddol, yn hyrwyddo gofal ac yn ei gwneud yn glir bod ymddygiad amhriodol yn annerbyniol.

Mae'r Bil Drafft yn cynnig y dylid gosod gofyniad ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol cofrestredig o fewn Cynghorau Sir i gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal ymddygiad o safon uchel ymhlith eu haelodau a rhoi sylw i ganllawiau statudol ynglŷn â hyn. Byddai'n ofynnol hefyd iddynt gydweithredu â

[7] http://gov.wales/topics/localgovernment/publications/expert-group-report/?lang=cy

phwyllgor safonau'r Cyngor wrth i'r pwyllgor hwnnw gyflawni ei rôl, gan gynnwys mewn sefyllfa lle mae aelod o'u grŵp yn destun cwyn ynglŷn â'i ymddygiad.

Byddai dyletswydd newydd ar bwyllgorau safonau i ystyried a oedd arweinwyr grwpiau gwleidyddol yn cydymffurfio â'u cyfrifoldeb a chyflwyno adroddiad ar hynny a threfnu hyfforddiant iddynt os oes angen.

## Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Hyrwyddo diwylliant o wrthfwlio
- Opsiwn 3 – Deddfu i'w gwneud yn ofynnol i bob arweinydd grŵp gwleidyddol hyrwyddo safonau ymddygiad uchel

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

## DISGRIFIAD

Ni fyddai unrhyw newid o dan yr opsiwn hwn a byddai Cynghorau Sir yn parhau â'u ffyrdd presennol o weithio.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

## Opsiwn 2 – Hyrwyddo o wrthfwlio

## DISGRIFIAD

Byddai Opsiwn 2 yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i annog arweinwyr grwpiau gwleidyddol i wella eu gweithdrefnau

gwrthfwlio a deall manteision amrywiaeth. Byddai’r opsiwn hwn yn ymgais gadarnhaol i gynyddu nifer y Cynghorau Sir sy’n hyrwyddo diwylliant o wrthfwlio er mwyn cefnogi mwy o amrywiaeth.

Fel yn achos unrhyw gynllun gwirfoddol, ni ellir gwarantu y bydd pobl yn ymgymryd â’r hyfforddiant. Felly, nid yw’n sicr y byddai’r dull gweithredu hwn yn sicrhau’r lefel o newid a ddymunir.

Rhagwelir y câi’r digwyddiadau a’r canllawiau arfaethedig hyn eu gweithredu yn 2017/18.

**Tabl 12: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2017/18 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau Staff - Trefnu Digwyddiadau | £6,000 |
| Trefnu digwyddiadau (gan gynnwys cyfieithu) | £1,500 |
| Costau Staff - Paratoi Canllawiau | £4,300 |
| Cyfieithu Canllawiau | £800 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£12,600** |
| Llywodraeth Leol | |
| Cost Staff - Mynychu Digwyddiadau | £8,100 |
| **Cyfanswm Cost** | **£20,700** |

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai’r opsiwn hwn yn cynnig tri digwyddiad, gan ddarparu gwybodaeth fanwl ynglŷn â sut i ymgorffori ac annog diwylliant o wrthfwlio ac un sydd o blaid amrywiaeth mewn arferion gwaith. Dim ond yn 2017/18 y câi’r digwyddiadau hyn eu cynnal.

Gallai Llywodraeth Cymru hefyd roi canllawiau anstatudol i helpu Cynghorau Sir. Disgwylir i’r gwaith o ddrafftio canllawiau gostio bron £4,000.

Dengys Tabl 12 y costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru sy’n gysylltiedig â threfnu a chynnal digwyddiadau hyfforddiant, yn ogystal â rhoi canllawiau. Byddai cost cyfle yn gysylltiedig â defnyddio staff cyfathrebu a pholisi presennol i weithio ar y digwyddiadau hyn. Byddai’n ofynnol hefyd i swyddogion Llywodraeth Cymru reoli a threfnu trafodion.

Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o ychydig o dan **£13,000** i Lywodraeth Cymru yn 2017/18.

## *Y gost i Lywodraeth Leol*

Byddai cost ychwanegol amcangyfrifedig o ychydig dros **£8,000** yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn, sy'n adlewyrchu'r gost sy'n gysylltiedig ag arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn Llywodraeth Leol yn mynychu digwyddiadau Llywodraeth Cymru.

## MANTEISION

### Y fantais i Lywodraeth Leol

Byddai arweinwyr grwpiau gwleidyddol sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn yn cael ystod o wybodaeth am greu a datblygu diwylliant o wrthfwlio ac un sydd o blaid amrywiaeth o fewn eu grŵp ac o fewn y Cyngor yn fwy cyffredinol.

Byddai gwella ac annog diwylliant o wrthfwlio ac un sydd o blaid amrywiaeth o fantais uniongyrchol i staff yn y Cyngor Sir. Câi gweithdrefnau eglur eu rhoi ar waith i ymdrin â materion bwlio ac amrywiaeth, gan ei wneud yn lle tecach a mwy cadarnhaol i weithio ynddo. Y gobaith yw y dylai hyn yn ei dro roi hwb i forâl y gweithlu.

## Opsiwn 3 – Deddfu o osod dyletswydd ar bob arweinydd grŵp gwleidyddol i hyrwyddo ymddygiad da

## DISGRIFIAD

Byddai dyletswydd gyffredinol ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol (fel y'u diffiniwyd yn adran 75 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) o fewn Cynghorau Sir i hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ymhlith eu grŵp. Byddai hyn yn cynnwys sicrhau nad oes unrhyw aelod o'u grŵp wedi methu â pharchu un neu fwy o aelodau neu staff ei Awdurdod, yn y cyfryw ffordd ag y gellid ei ystyried yn achos o fwlio, aflonyddu neu'n unrhyw fath o ragfarn sy'n ymwneud ag oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, cyfeiriadedd rhyw a rhywiol.

Mae'r dyletswyddau a osodir ar arweinydd grŵp yn y cynnig hwn yn ychwanegol at y gofynion presennol ar Gynghorwyr i barchu arfer da drwy eu Cod Ymddygiad ac ni ddylent mewn unrhyw ffordd leihau gallu swyddog monitro na phwyllgor safonau i ystyried honiad o gamymddygiad, er gwaethaf ymwneud arweinydd grŵp.

Rhagwelir y byddai angen rhoi canllawiau mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth hon yn 2017/18.

**Tabl 13: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2017/18 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau Staff - Paratoi Canllawiau | £4,300 |
| Cyfieithu Canllawiau | £800 |
| **Cyfanswm Cost** | **£5,100** |

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai angen i Lywodraeth Cymru roi canllawiau ar bob agwedd ar yr opsiwn hwn. Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o ychydig dros £5,000 i Lywodraeth Cymru yn 2017/18.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Gallai fod cost cyfle sy'n gysylltiedig ag arweinwyr grŵp yn treulio amser ar rywbeth arall, ond yn yr achos hwn ni ddisgwylir iddynt fod yn gostau ychwanegol sylweddol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai aelodau o grwpiau gwleidyddol yn cael y sicrwydd bod cyfrifoldeb ar eu harweinwyr grŵp i hyrwyddo arfer gorau mewn perthynas â safonau ymddygiad. Gallai atal neu ddatrys materion o fewn grwpiau gwleidyddol leihau'r angen i uwchgyfeirio rhai materion at y pwyllgor safonau.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau a byddai polisïau ynglŷn â gwrthfwlio yn parhau fel y maent ar hyn o bryd.

Byddai Opsiwn 2 yn hyrwyddo'r angen am newid. Fodd bynnag, gan mai ar sail wirfoddol y byddai hyn, nid oes unrhyw sicrwydd y byddai'r polisïau yn newid ymddygiad arweinwyr grwpiau gwleidyddol a'u haelodau mewn ffordd gadarnhaol.

Byddai Opsiwn 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r newidiadau hyn gael eu gwneud, gan sicrhau bod cyfrifoldeb ar arweinwyr grwpiau i hyrwyddo ymddygiad da ymhlith eu haelodau.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw’r opsiwn a ffefrir am y byddai safonau ymddygiad uwch yn annog pobl fwy amrywiol i sefyll etholiad fel Cynghorwyr.

## 1.10. <u>Rolau a Chyfrifoldebau Arweinwyr a Meiri Etholedig (a99, 104)</u>

### Cefndir

Mae'r Arweinydd a'r Cabinet neu'r Maer Etholedig yn chwarae rôl benderfynol wrth bennu'r ffordd y caiff gwasanaethau Awdurdodau Lleol eu darparu, eu hariannu a'u blaenoriaethu. Mae gan yr Arweinydd gyfrifoldeb cyffredinol am berfformiad y Cyngor Sir a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo.

Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw ofynion ffurfiol sy'n nodi'r hyn y dylai Arweinydd Cyngor, y Cabinet neu'r Prif Weithredwr ei gyflawni na'r hyn y dylent fod yn atebol amdano'n flynyddol. Nid oes unrhyw ofyniad ar Arweinydd y Cyngor i nodi ei flaenoriaethau i'r Cyngor mewn maniffesto, pennu amcanion i'r Cabinet neu'r Prif Weithredwr, cwblhau adroddiadau ar b'un a yw'r amcanion hyn wedi'u cyflawni, nac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

Mae Gweinidogion Cymru yn awyddus i sicrhau bod Llywodraeth Leol mor agored a thryloyw â phosibl. Felly, mae'r adran hon yn dwyn ynghyd nifer o ddarpariaethau cysylltiedig yn y Bil Drafft sy'n ymwneud â rolau a chyfrifoldebau Arweinwyr a Meiri Etholedig.

Cytunodd 73% o ymatebwyr ar-lein i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* â'r cynnig y dylai rolau a chyfrifoldebau Arweinwyr neu Feiri Etholedig gael eu diffinio mewn deddfwriaeth.

### Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Annog Arweinwyr Cyngor a Meiri Etholedig i wneud newidiadau i'w rôl yn wirfoddol, gyda'r nod o greu rôl fwy tryloyw ac atebol
- Opsiwn 3 – Gosod dyletswyddau penodol ar Arweinwyr Cyngor a Meiri Etholedig mewn perthynas ag atebolrwydd a thryloywder

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol ynglŷn â rôl a chyfrifoldebau Arweinwyr Cyngor a'r Cabinet.

O dan yr opsiwn hwn, ni fyddai unrhyw rwymedigaeth ar Arweinwyr i bennu amcanion i'w Cabinet.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol i Lywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru.

## Opsiwn 2 – Annog Arweinwyr Cyngor a Meiri Etholedig i wneud newidiadau i'w rôl yn wirfoddol, gyda'r nod o greu rôl fwy tryloyw ac atebol

## DISGRIFIAD

Byddai Opsiwn 2 yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru yn trefnu nifer o ddigwyddiadau i Gynghorau Sir, er mwyn hyrwyddo'r gwahanol newidiadau y gellid eu gwneud i drefniadau atebolrwydd Arweinwyr. Nod y digwyddiadau hyn fyddai cefnogi newid diwylliannol yn gadarnhaol yn y Cynghorau Sir nad ydynt yn pennu amcanion i'r Cabinet na'r Prif Weithredwr ar hyn o bryd, nad ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i'r Arweinydd na'r Maer Etholedig baratoi adroddiad blynyddol nac ymgysylltu'n uniongyrchol â'r cyhoedd.

Ochr yn ochr â'r digwyddiadau hyrwyddo, byddai Llywodraeth Cymru hefyd yn paratoi canllawiau i Gynghorau Sir ar wella tryloywder ac atebolrwydd.

Gallai'r canllawiau hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth yn well rhwng Cynghorau Sir drwy rannu arfer da, gan gynnwys nodi'r mathau o weithdrefnau atebolrwydd y gallai Arweinwyr Cyngor eu mabwysiadu. Fodd bynnag, byddai'r penderfyniad i fabwysiadu gweithdrefnau o'r fath yn parhau i fod yn un gwirfoddol. Fel yn achos unrhyw gynllun gwirfoddol, ni ellir gwarantu y bydd pobl yn ymgymryd â'r hyfforddiant.

## COSTAU

Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno costau o **£20,700**.

**Tabl 14: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau Staff - Trefnu Digwyddiadau | £6,000 |
| Trefnu digwyddiadau (gan gynnwys cyfieithu) | £1,500 |
| Costau Staff - Paratoi Canllawiau | £4,300 |
| Cyfieithu Canllawiau | £800 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£12,600** |
| | |
| Llywodraeth Leol | |
| Costau Staff - Mynychu Digwyddiadau | £8,100 |
| | |
| **Cyfanswm Cost** | **£20,700** |

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Dengys y tabl uchod y costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru sy’n gysylltiedig â threfnu a chynnal tri digwyddiad arfer da a pharatoi canllawiau. Dim ond yn ystod y flwyddyn gyntaf y câi digwyddiadau eu cynnal. Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o tua £12,600 i Lywodraeth Cymru yn 2020/21.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Rhagwelir mai swyddogion Awdurdodau Lleol sy’n cefnogi ac yn rhoi cyngor i Arweinwyr a Meiri Etholedig fyddai’n mynychu’r digwyddiadau hyn. Felly, nodwyd costau ychwanegol amcangyfrifedig o ychydig dros £8,100 i Lywodraeth Leol, sy’n adlewyrchu’r gost sy’n gysylltiedig â swyddogion yn mynychu digwyddiadau arfer da. Byddai’r ffordd y mae Cynghorau Sir yn addasu eu prosesau yn amrywio, yn dibynnu ar y trefniadau presennol, a phenderfyniadau a wneir gan bob Cyngor yn lleol. Câi unrhyw newidiadau o’r fath eu harfarnu’n lleol maes o law.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai’r rhai o Gynghorau Sir sy’n mynychu digwyddiadau arfer da yn cael hyfforddiant ac arweiniad ynglŷn â sut i wella tryloywder ac atebolrwydd o fewn y sefydliad. Fodd bynnag, byddai manteision llawn Opsiwn 2 yn dibynnu ar gamau gweithredu dewisol Cynghorau Sir.

## Opsiwn 3 – Gosod dyletswyddau penodol ar Arweinwyr Cyngor a Meiri Etholedig mewn perthynas ag atebolrwydd a thryloywder

## DISGRIFIAD

Mae Opsiwn 3 yn cynnig gosod nifer o ddyletswyddau ar Arweinwyr Cynghorau Sir (a Meiri Etholedig) gyda'r nod o wella tryloywder ac atebolrwydd. Byddai'r ddarpariaeth hon yn cychwyn ar ôl ethol Awdurdodau Cysgodol yn 2019.

Y dyletswyddau arfaethedig yw:

- Byddai'n ofynnol i bob ymgeisydd am swydd Arweinydd Cyngor baratoi maniffesto ar gyfer ei dymor yn y swydd, gan nodi ei flaenoriaethau ar gyfer gwaith y Cyngor. Pan fydd Arweinydd yn cael ei ddisodli yn ystod ei dymor, ni ddylai unrhyw Arweinydd newydd gael ei benodi oni fydd yr ymgeiswyr i fod yn Arweinydd yn paratoi maniffestos.
- Dylai pob ymgeisydd i fod yn Arweinydd gael cyfle i ddarparu datganiad llafar yn ategu ei faniffesto cyn ei benodi'n Arweinydd.
- Arweinydd y Cyngor, ar ôl penodi'r Cabinet, ddylai bennu amcanion i'r Cabinet.
- Dylai fod yn ofynnol i'r Arweinydd barhau i adolygu'r amcanion a bennwyd i'r Cabinet a pharatoi adroddiad blynyddol ar y graddau y mae'r amcanion hynny wedi'u cyflawni.
- Dylai fod yn ofynnol i Arweinydd Cyngor fynychu o leiaf un cyfarfod cyhoeddus y flwyddyn lle y bydd aelodau'r cyhoedd yn cael cyfle i'w holi ynglŷn â'r ffordd y cyflawnir cyfrifoldebau gweithredol y Cyngor.
- Yr Arweinydd ddylai fod yn gyfrifol am bennu amcanion y Prif Weithredwr ac am adolygu'r amcanion hynny'n flynyddol.
- Dylai fod yn ofynnol i'r Arweinydd gyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ganlyniad unrhyw adolygiad gyda'r Prif Weithredwr o'r amcanion a bennwyd i'r Prif Weithredwr.

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Mae Gweinidogion Cymru yn cael pŵer i roi canllawiau ynglŷn â'r gofyniad ar Arweinydd y Cyngor i bennu amcanion i'r Prif Weithredwr. Cyfrifir y bydd costau untro ychwanegol o £5,100 (£4,300 i baratoi canllawiau, £800 costau cyfieithu).

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai Opsiwn 3 yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Leol o anghenraid. Er y byddai nifer o gyfrifoldebau yn cael eu cyflwyno, mae'n bwysig nodi bod llawer o Arweinwyr eisoes yn cyflawni cyfrifoldebau o'r fath, ond mewn ffyrdd gwahanol. At hynny, mae cyflwyno'r dyletswyddau hyn yn cyfrannu at ddiffinio rôl yr Arweinydd, y mae'n cael tâl amdani. Disgwylir y byddai Arweinydd yn parhau i neilltuo'r un oriau i'w rôl ag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd, ond y byddai'n defnyddio ei amser mewn ffordd  wahanol. Felly, rhagwelir na fyddai unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r cynigion hyn.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai egluro'r rôl yn nodi disgwyliadau a gofynion mewn perthynas ag Arweinydd (a Maer Etholedig) a byddai'n debygol o sicrhau bod pob Arweinydd, Cabinet a Phrif Weithredwr wedi cael eglurdeb ynglŷn â'u blaenoriaethau a'u hamcanion, gan eu galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n llawn ac yn effeithlon, a lleihau'r amrywiad mewn perfformiad. Byddai'r eglurder hwn ynglŷn â disgwyliadau yn ei gwneud yn bosibl i graffu'n well ar berfformiad Arweinwyr, Cabinetau a Phrif Weithredwyr.

### *Manteision i'r cyhoedd*

Byddai ei gwneud yn ofynnol i Arweinwyr bennu amcanion i Gabinetau a Phrif Weithredwyr, adolygu'r graddau y mae'r amcanion hynny wedi'u cyflawni a chyflwyno adroddiad ar hynny, ac ymgysylltu â'r cyhoedd yn atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd yn sylweddol. Byddai amcanion cyhoeddedig i'r Cabinet a'r adroddiadau blynyddol yn fanteisiol o ran ansawdd a chadernid gwaith craffu Cynghorau Sir, a gallent gyfrannu at welliant cyffredinol yn eu perfformiad.

### Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid annog Arweinwyr Cyngor i wneud newidiadau i'w rôl yn wirfoddol, gyda'r nod o greu rôl fwy tryloyw ac atebol. Fel yn achos unrhyw

gynllun gwirfoddol, ni ellir gwarantu y bydd pobl yn ymgymryd â'r hyfforddiant. Byddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno costau ychwanegol o £20,700.

Mae Opsiwn 3 yn cynnig gosod amrywiol ddyletswyddau ar Arweinwyr Cyngor (a Meiri Etholedig), er mwyn atgyfnerthu tryloywder ac atebolrwydd eu rolau a rolau eu Cabinetau. Byddai costau ychwanegol o £5,100 i Lywodraeth Cymru.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n arwain at fwy o atebolrwydd drwy well ddealltwriaeth o flaenoriaethau Arweinwyr ac amcanion Cabinetau a Phrif Weithredwyr, a'u cynnydd tuag at eu cyflawni.

## 1.11. Ystyriaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth Benodi Aelodau'r Cabinet a Chynorthwywyr i'r Weithrediaeth (a101-102)

### Cefndir

Mae'n rhaid i Arweinwyr fod yn eiriolwyr pwerus dros gydraddoldeb ac amrywiaeth ac mae'n rhaid eu bod yn gallu troi hyn yn gamau cadarnhaol, er enghraifft, wrth ddewis aelodau'r Cabinet.

Cytunodd 72 y cant o ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* y dylid gosod dyletswydd ar Arweinwyr i roi sylw i amrywiaeth wrth benodi ei Gabinet.

Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad parhaus i wella amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol. Ym mis Gorffennaf 2013 sefydlodd Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol. Ym mis Mawrth 2014, nododd y Grŵp Arbenigwyr

> 'Mae proffil cynghorwyr lleol yn destun pryder am sawl rheswm. Mae nifer y menywod sy'n cael swyddi uwch mewn sefydliadau cyhoeddus a phreifat yn cynyddu'n araf bach, ond nid yw'r rhain na chyfran y gweithlu sy'n fenywod yn cael eu hadlewyrchu mewn llywodraeth leol yng Nghymru. Os yw pobl yn credu mai dynion gwyn, hŷn sy'n rhedeg Llywodraeth Leol (fel sy'n wir mewn sawl ardal), gall hyn beri i bleidleiswyr gadw draw ac mae tanio eu brwdfrydedd yn anodd yn barod fel y gwelir yn y nifer a ddaw i bleidleisio ac, yn wir, yn yr holl weithgarwch gwleidyddol.'[8]

Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylid gosod dyletswydd ar Arweinwyr Cynghorau Sir neu Feiri Etholedig i roi sylw i ganllawiau sy'n annog arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benderfynu pwy y dylid eu penodi i'r Cabinet a phwy y dylid eu penodi'n gynorthwywyr i'r Weithrediaeth.

### Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu hystyried:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Annog Cynghorau Sir i fabwysiadu arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benodi'r Cabinet a chynorthwywyr i'r Weithrediaeth

[8] *Ar ôl Pwyso a Mesur: Sicrhau Democratiaeth Amrywiol mewn Llywodraeth Leol yng Nghymru:* Adroddiad y Grŵp Arbenigwyr ar Amrywiaeth mewn Llywodraeth Leol, Mawrth 2014

- Opsiwn 3 – Gosod dyletswydd ar Gynghorau Sir, eu Harweinwyr neu Feiri Etholedig i roi sylw i ganllawiau sy'n annog arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benderfynu pwy y dylid eu penodi i'r Cabinet a phwy y dylid eu penodi'n gynorthwywyr i'r Weithrediaeth

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

## DISGRIFIAD

Ni fyddai unrhyw newid o dan yr opsiwn hwn.

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

### *Y gost i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol.

## MANTEISION

Nid oes unrhyw fanteision ychwanegol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn.

## Opsiwn 2 – Annog Awdurdodau Lleol i fabwysiadu arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benodi'r Cabinet a chynorthwywyr i'r Weithrediaeth

Mae'r opsiwn hwn yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gynnal digwyddiadau i annog Cynghorau Sir i fabwysiadu arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benodi'r Cabinet a chynorthwywyr i'r Weithrediaeth. Byddai'r digwyddiadau'n rhoi gwybodaeth fanwl ynglŷn â sut y dylid ymgorffori ac annog amrywiaeth a chydraddoldeb. Gallai Llywodraeth Cymru hefyd baratoi canllawiau i gefnogi ac annog Cynghorau Sir i fabwysiadu arfer da o'r fath. Fodd bynnag, byddai'r penderfyniad i fabwysiadu arfer da yn parhau i fod yn fater gwirfoddol i Gynghorau Sir, felly nid oes unrhyw sicrwydd y byddai amrywiaeth yn gwella'n gyson.

## COSTAU

Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno costau ychwanegol o **£20,700** yn 2020/21.

**Tabl 15: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Costau Staff - Trefnu Digwyddiadau | £6,000 |
| Trefnu digwyddiadau (gan gynnwys cyfieithu) | £1,500 |
| Costau Staff - Paratoi Callawiau | £4,300 |
| Cyfieithu Canllawiau | £800 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£12,600** |
| | |
| Llywodraeth Leol | |
| Cost Staff - Mynychu Digwyddiadau | £8,100 |
| **Cyfanswm Cost** | **£20,700** |

## *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Dengys y tabl uchod y costau amcangyfrifedig i Lywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig â threfnu a chynnal tri digwyddiad arfer da. Byddai'n ofynnol hefyd i swyddogion Llywodraeth Cymru reoli a threfnu'r digwyddiadau. Gan gynnwys y gost cyfle staff hwn, yn ogystal â chostau lleoliad a chyfieithu, byddai'r digwyddiadau'n costio ychydig dros £7,500.

Gallai Llywodraeth Cymru hefyd baratoi canllawiau i'w defnyddio fel cyfeirbwynt gan Gynghorau Sir. Amcangyfrifir y byddai angen cost staff ychwanegol o £5,100 i baratoi'r canllawiau hyn.

Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o £12,600 ym Mlwyddyn 1 i Lywodraeth Cymru.

## *Y gost i Lywodraeth Leol*

Byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno costau ychwanegol amcangyfrifedig o ychydig dros £8,000 i Lywodraeth Leol, sy'n adlewyrchu'r gost sy'n gysylltiedig ag aelodau a swyddogion Llywodraeth Leol yn mynychu digwyddiadau hyfforddiant.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai'r rhai o'r Cyngor Sir sy'n mynychu'r digwyddiadau hyn yn cael hyfforddiant ac arweiniad ynglŷn â sut y dylid mabwysiadu arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benodi Cabinetau, a allai gael canlyniadau cadarnhaol ar amrywiaeth Cabinetau Awdurdodau Lleol.

### *Y fantais i eraill*

Byddai cyhoedd yn fwy tebygol o gael manteision o Gabinet amrywiol ac eang ei gwmpas sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu cynrychioli.

## Opsiwn 3 – Gosod dyletswydd ar Arweinwyr Cynghorau Sir neu Feiri Etholedig i roi sylw i ganllawiau sy'n annog arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benderfynu pwy y dylid eu penodi i'r Cabinet a phwy y dylid eu penodi'n gynorthwywyr i'r Weithrediaeth

## DISGRIFIAD

Byddai darpariaeth newydd a fyddai'n galluogi Arweinwyr neu Feiri Etholedig Cynghorau i benodi aelodau'r Cyngor yn gynorthwywyr i'r Weithrediaeth. Swyddi datblygu fyddai'r swyddi hyn, a gallent roi mwy o gyfle i greu Cabinetau mwy amrywiol yn y dyfodol drwy gynllunio olyniaeth. Gallai Gweinidogion Cymru baratoi canllawiau i helpu Arweinwyr neu Feiri Etholedig i annog arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benderfynu pwy y dylid eu penodi i'r Cabinet a phwy y dylid eu penodi'n gynorthwywyr i'r Weithrediaeth. Byddai'n ofynnol i Arweinwyr a Meiri Etholedig roi sylw i'r canllawiau hyn.

## COSTAU

Byddai Opsiwn 3 yn cyflwyno costau ychwanegol o £11,500.

**Tabl 16: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 |
|---|---|
| Llywodraeth Cymru | |
| Cost Staff - Paratoi Canllawiau | £10,700 |
| Cyfieithu Canllawiau | £800 |
| **Cyfanswm Cost** | **£11,500** |

## *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai cost cyfle yn gysylltiedig â defnyddio staff polisi presennol Llywodraeth Cymru i baratoi canllawiau. Amcangyfrifir y byddai cost o **£11,500** yn 2020/21.

## *Y gost i Lywodraeth Leol*

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol yn gysylltiedig â'r opsiwn hwn. Mater i'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol fyddai unrhyw gydnabyddiaeth ariannol am rôl cynorthwyydd i'r Weithrediaeth, a byddai'n cael ei harfarnu'n llawn maes o law.

# MANTEISION

## *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai rhwymedigaeth ar Arweinwyr neu Feiri Etholedig i roi sylw i ganllawiau sy'n annog arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benderfynu pwy y dylid eu penodi i'r Cabinet a phwy y dylid eu penodi'n gynorthwywyr i'r Weithrediaeth. Ynghyd â'r posibilrwydd o benodi unigolion yn gynorthwywyr i'r Weithrediaeth, mae hyn yn debygol o helpu i gynyddu amrywiaeth Cabinetau. Os felly y mae, byddai Cabinetau Cynghorau Sir yn fwy tebygol o adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu cynrychioli.

## *Y fantais i eraill*

Efallai y bydd y cyhoedd yn cael manteision o Gabinet mwy amrywiol ac eang ei gwmpas sy'n cynrychioli cymdeithas yn ei chyfanrwydd yn gywir.

# Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau ac felly nid yw'n gwneud dim i fynd i'r afael â diffyg amrywiaeth o fewn Cabinetau.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylai Llywodraeth Cymru gynnal digwyddiadau helpu Arweinwyr neu Feiri Etholedig i fabwysiadu arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benderfynu pwy y dylid eu penodi i'r Cabinet a phwy y dylid eu penodi'n gynorthwywyr i'r Weithrediaeth. Gan mai ar sail wirfoddol y byddai hynny, nid oes unrhyw sicrwydd y câi gwelliannau eu gwneud o ran amrywiaeth Aelodau Cabinetau.

Byddai Opsiwn 3 yn cyflwyno dyletswydd statudol ar Arweinwyr a Meiri Etholedig i roi sylw i ganllawiau sy'n annog arfer da mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth wrth benderfynu pwy y dylid eu penodi i'r Cabinet a phwy y dylid eu penodi'n gynorthwywyr i'r Weithrediaeth. Mae hyn yn debygol o helpu i atgyfnerthu amrywiaeth o fewn Cabinetau Cynghorau Sir. Mae hefyd yn cyflwyno'r posibilrwydd o benodi cynorthwywyr i'r Weithrediaeth, er mwyn rhoi

mwy o gyfle i ymgymryd â gwaith cynllunio olyniaeth a chreu Cabinetau mwy amrywiol yn yr hirdymor.

## Yr opsiwn a ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n hyrwyddo gwell amrywiaeth ymhlith aelodau'r Weithrediaeth a chynorthwywyr i'r Weithrediaeth.

## 1.12. Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu (a107)

### Cefndir

Cyflwynodd Deddf Llywodraeth Leol 2000 drefniadau gweithrediaeth i Gynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol yng Nghymru, gan greu model arweinyddiaeth ar ffurf cabinet wedi'i gydbwyso â dulliau craffu y mae Cynghorwyr y tu allan i'r Weithrediaeth yn dwyn yr arweinyddiaeth i gyfrif drwyddynt. Yn sgil hyn, roedd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn cynnwys nifer o ddiwygiadau i brosesau craffu, gyda'r nod o ehangu pwerau craffu a gwella gweithrediadau craffu.

Mae angen perthynas gadarn, agored a chysylltiedig rhwng y Weithrediaeth a phwyllgorau craffu er mwyn sicrhau prosesau gwneud penderfyniadau effeithiol. Mae hyn yn ganolog i lwyddiant democratiaeth leol.

Fodd bynnag, gallai craffu mewn rhai Cynghorau fod yn fwy effeithiol. Awgrymodd astudiaeth Swyddfa Archwilio Cymru *Craffu Da? Cwestiwn Da* y gall diffyg eglurder ynglŷn â rolau a chyfrifoldebau gyfyngu ar effeithiolrwydd pwyllgorau craffu i ddwyn y Weithrediaeth i gyfrif.[9] Byddai gwaith cynllunio gwell, cadeirio mwy effeithiol, a gwelliannau i'r amrywiaeth o wybodaeth, ei hansawdd a'r defnydd a wneir ohoni yn gwella gwaith craffu mewn Cynghorau yng Nghymru.

Yn benodol, nid yw penderfyniadau pwysig gan y Weithrediaeth bob amser yn cael eu cyfleu'n effeithiol i bwyllgorau craffu. Gall hyn arwain at golli cyfleoedd i graffu ar benderfyniadau pwysig.

### Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 - Gosod dyletswydd ar Gynghorau Sir i hysbysu pwyllgorau craffu o benderfyniadau allweddol

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newidiadau i arferion craffu presennol Cynghorau. Byddai pwyllgorau craffu yn parhau i ymgymryd â gweithgarwch craffu nad yw'n cynnwys gwybodaeth dda ynglŷn â phenderfyniadau arfaethedig

[9] *Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol*, Swyddfa Archwilio Cymru, Mai 2014

weithiau. Gellid parhau i golli cyfleoedd i graffu ar benderfyniadau pwysig, yn enwedig cyn iddynt gael eu gwneud.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol i Lywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru.

## Opsiwn 2 - Gosod dyletswydd ar Gynghorau Sir i hysbysu pwyllgorau craffu o benderfyniadau allweddol ymlaen llaw

## DISGRIFIAD

Mae'r Bil Drafft yn diwygio adran 22 o Ddeddf 2000 i alluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol roi gwybodaeth i aelodau pwyllgorau trosolwg a chraffu. Gallai'r rheoliadau hynny gyflwyno'r cysyniad o "penderfyniad allweddol", o bosibl drwy ddefnyddio'r diffiniad a ddefnyddir yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Cyfarfodydd a Mynediad at Wybodaeth) (Lloegr) 2012.

Câi gofyniad ei osod ar Gynghorau Sir i sicrhau bod aelodau'r pwyllgor trosolwg a chraffu yn cael eu hysbysu o unrhyw benderfyniad a ddaw o dan y categori o 'penderfyniad allweddol' cyn gynted ag y caiff y penderfyniad hwnnw ei wneud, neu pan fydd yn hysbys pa benderfyniad sy'n cael ei ystyried. Yr unig eithriad i hyn fyddai penderfyniadau a wneir fel mater o frys.

Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn cychwyn yn 2017.

## COSTAU

### *Y gost i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 2 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru. Ni fyddai'r prosesau hyn yn gofyn am adnoddau sylweddol i'w rhoi ar waith ac, mewn sawl achos, maent eisoes ar waith.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai sicrhau bod pwyllgorau craffu yn cael eu hysbysu o bob “penderfyniad allweddol” yn sicrhau y gellir craffu ar y penderfyniadau pwysicaf a wneir gan Gynghorau Sir, ac y gellir craffu ar fwy o benderfyniadau cyn iddynt gael eu gwneud. Mae hyn yn debygol o wella ansawdd penderfyniadau a wneir gan Gynghorau Sir, a sicrhau bod y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer y penderfyniadau pwysicaf yn fwy agored a thryloyw.

### Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i’r trefniadau craffu presennol

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid gosod dyletswydd ar Gynghorau Sir i sicrhau bod “penderfyniadau allweddol” yn cael eu cyfleu i bwyllgorau craffu, gan eu galluogi i graffu’n effeithiol ar benderfyniadau pwysicaf Cynghorau. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cyflwyno.

### Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir am y byddai’n arwain at well craffu ar benderfyniadau a wneir gan Gynghorau.

## 1.13. Cyd-bwyllgorau Craffu (a108)

### Cefndir

Mae craffu yn hanfodol er mwyn sicrhau Llywodraeth Leol effeithiol. Pan fydd gwasanaethau yn cael eu darparu ar y cyd rhwng dau Awdurdod Lleol neu fwy, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn galluogi Awdurdodau Lleol i ffurfio Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.

Fodd bynnag, fel y'i hamlinellwyd yn y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, anaml iawn y caiff y pwerau hyn eu defnyddio. Dylai un gwasanaeth a ddarperir i safon gyffredin ar draws mwy nag un ardal Cyngor fod yn destun craffu cyffredin. Mae diffyg cyd-graffu effeithiol yn golygu na chaiff problemau gyda gwasanaethau trawsbynciol neu gyffredinol eu nodi na'u hunioni o bosibl. Mae gwaith craffu yn hanfodol er mwyn nodi a gwireddu cyfleoedd i wella, fel y gall hyn gael effaith ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. At hynny, mae cyd-graffu yn rhoi mwy o dryloywder i ddefnyddwyr gwasanaethau drwy'r maes gwasanaeth cyfan.

At hynny, mewn rhai achosion, caiff Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu eu sefydlu yn ychwanegol at waith craffu gan Gynghorau unigol yn hytrach nag yn ei le. Pan fydd gwasanaethau wedi'u comisiynu ar y cyd gan ddau Gyngor neu fwy, gall fod yn llafurus i gyrff cyflawni rhanbarthol fod yn destun proses graffu ar wahân gan bob Cyngor.

### Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 - Ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Cyd-bwyllgorau Craffu

### Opsiwn 1 – Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Ni fyddai'r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newidiadau i'r trefniadau craffu ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir ar y cyd gan sawl Cyngor Sir. Byddai pob Cyngor Sir yn parhau i benderfynu a ddylai cyd-wasanaethau fod yn destun gweithdrefnau cyd-graffu, gweithdrefnau craffu unigol, neu'r ddau.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Gynghorau Sir na Llywodraeth Cymru ond gallai osod costau cyfle drwy weithdrefnau craffu wedi'u dyblygu.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol i Gynghorau Sir na Llywodraeth Cymru.

## Opsiwn 2 - Ei gwneud yn ofynnol i sefydlu Cyd-bwyllgorau Craffu

## DISGRIFIAD

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid atgyfnerthu'r darpariaethau ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Byddai Gweinidogion Cymru yn cael y pŵer i wneud rheoliadau sy'n rhagnodi o dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i Gyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu gael eu sefydlu. Gallai'r rheoliadau ddarparu y byddai rhwymedigaeth ar Gynghorau Sir sy'n ymrwymo i unrhyw gytundeb i ddarparu gwasanaeth ar draws ardal ar y cyd i sefydlu cydbwyllgor craffu.

Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn cychwyn yn 2017.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 2 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Gynghorau Sir na Llywodraeth Cymru. Rhagwelir y byddai costau cyd-graffu yn cael eu gwrthbwyso gan gostau presennol craffu ar gyd-wasanaeth gan ddau Gyngor neu fwy ar wahân, hynny yw, lleihau dyblygu.

Ni ddylid ceisio rhagweld costau cyd-graffu mewn achosion unigol yma, a byddai'n cael ei werthuso'n llawn gan Gynghorau Sir fel rhan o gostau a manteision cyffredinol cyd-wasanaethau penodol. Byddai unrhyw reoliadau sy'n rhagnodi pryd y dylid sefydlu pwyllgorau trosolwg a chraffu yn cael eu hategu gan Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i gydbwyllgorau craffu bob amser weithredu lle y caiff gwasanaethau eu comisiynu neu eu darparu ar y cyd. Dylai proses gyd-graffu effeithiol sicrhau gwasanaethau mwy effeithiol, a rhoi mwy o dryloywder i'r cyhoedd ynglŷn â'r gwasanaethau dan sylw. Byddai cyd-graffu gorfodol yn lleihau'r posibilrwydd bod gwaith craffu yn cael ei wneud gan bob Awdurdod Lleol ac yn lleihau'r baich posibl ar gyrff cyflawni.

### Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol i graffu ar gyd-wasanaethau.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid gwneud cyd-graffu yn orfodol ar gyfer gwasanaethau sy'n cael eu comisiynu a'u darparu ar y cyd.

### Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n hyrwyddo proses fwy effeithlon ac effeithiol o graffu ar wasanaethau sydd wedi'u comisiynu ar y cyd, gan arwain at wella gwasanaethau a chanlyniadau.

## 2. Gwella trefniadau llywodraethu

Mae’n hanfodol bod Cynghorau Sir yn gallu nodi a manteisio i’r eithaf ar gyfleoedd i wella, yn enwedig wrth iddynt wynebu heriau ariannol a demograffig difrifol. Mae’n fwriad gan Weinidogion Cymru i atgyfnerthu prosesau llywodraethu Cynghorau Sir. Cynigir y dylid diwygio atebolrwydd mewnol am lywodraethu da, yn ogystal ag atgyfnerthu rôl cyrff rheoleiddio allanol.

Mae’r Bil Drafft yn cynnwys mesurau i wneud y canlynol:

- Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir roi trefniadau ar waith i sicrhau trefniadau llywodraethu da a pharatoi a chyhoeddi cynllun corfforaethol.
- Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir asesu ansawdd eu trefniadau llywodraethu drwy gynnal hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid.
- Annog cydweithrediad rhwng y rheoleiddwyr perthnasol, gan gynnwys cyhoeddi asesiadau cyfun o Gynghorau Sir a chydgysylltu eu swyddogaethau perthnasol.
- Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru adolygu trefniadau llywodraethu Cynghorau Sir a nifer o bwerau cefnogi ac ymyrryd.
- Atgyfnerthu rôl ac annibyniaeth Pwyllgorau Llywodraethau Corfforaethol ac Archwilio.

Mae adran 111 o’r Bil Drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir, fel cyrff cyhoeddus, roi trefniadau ar waith i sicrhau llywodraethu da, atebolrwydd, ac i weithredu mewn ffordd ddarbodus, effeithlon ac effeithiol o ran eu defnydd o adnoddau. Nid ystyrir bod yr adran hon yn gosod unrhyw gostau newydd ar Gynghorau Sir ond ei bod yn codeiddio’r hyn y dylai pob Cyngor fod yn ei wneud eisoes. Felly, nid oes ystyriaeth ar wahân o adran 111 yn y ddogfen hon ond ymdrinnir â chostau canlyniadol asesu’r trefniadau llywodraethu (hunanasesu, asesu gan gymheiriaid ac ati) yn eu tro.

## 2.1. <u>Cynlluniau Corfforaethol (a112-115)</u>

## Cefndir

Mae gwaith cynllunio corfforaethol yn cynnwys ystyried sut i wneud penderfyniadau, darparu gwasanaethau, dyrannu adnoddau a chyflawni amcanion. Nododd Swyddfa Archwilio Cymru ym mis Medi 2013 fod pob Awdurdod yn gwella o ran cysylltu'r hyn y maent am ei gyflawni â'r cynlluniau a'u hadnoddau, ond canfu fod rhai yn methu â chysylltu eu hamcanion â'u cynlluniau a'u trefniadau corfforaethol yn ddigonol.[10]

Mae pob Awdurdod Lleol yn ymgymryd â rhyw fath o gynllunio corfforaethol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, maent yn defnyddio amrywiaeth o brosesau ac yn paratoi amrywiol ddogfennau ar wahân. Mewn rhai achosion, nid yw'r amrywiol elfennau hyn yn ategu ei gilydd, ac yna gall penderfyniadau gael eu gwneud mewn ffordd ddarniog yn hytrach nag ar sail strategol.

Mae gwaith cynllunio corfforaethol tryloyw hefyd yn hwyluso gwaith craffu effeithiol. Mae gwaith cynllunio corfforaethol yn ffynhonnell hanfodol o wybodaeth i'r cyhoedd, rhanddeiliaid a rheoleiddwyr (megis Swyddfa Archwilio Cymru) er mwyn archwilio sut mae'r Awdurdod Lleol yn perfformio, a nodi cyfleoedd i wella.

Mae'r angen am waith cynllunio corfforaethol effeithiol a chydlynol yn cynyddu. Sefydlwyd nodau llesiant i Gymru o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yn ofynnol i Gynghorau Sir gysoni eu hamcanion â'r nodau llesiant cenedlaethol hyn, a dangos sut maent yn cyfrannu at eu cyflawni. Bydd Cynghorau Sir yn parhau i wynebu pwysau demograffig ac ariannol, sy'n gwneud gwaith cynllunio corfforaethol effeithiol yn fwy pwysig byth.

Mewn ymateb i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, roedd 92 y cant o gyfranogwyr ar-lein o'r farn y dylai fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gwblhau cynllun corfforaethol. Roedd 18 o blith 20 o Awdurdodau Lleol o blaid y cynigion, er i lawer awgrymu na ddylai prosesau cynllunio corfforaethol gael eu rhagodi'n ormodol gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Bil Drafft yn cynnig y dylid atgyfnerthu a hyrwyddo cysondeb gwaith cynllunio corfforaethol. Yn hytrach na thrwy baratoi'r cynllun corfforaethol ei hun, câi llawer o fanteision cynllunio corfforaethol eu gwireddu drwy'r dull gweithredu a ddatblygir tra'n ymgymryd â gweithgareddau cynllunio. Byddai gwaith cynllunio corfforaethol yn dod yn fwy effeithiol pe bai'n cael ei ymgorffori drwy ddiwylliant gwaith cyfan Cynghorau Sir.

## Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu nodi:

[10] Swyddfa Archwilio Cymru, Cynllunio ac Adrodd Awdurdodau Lleol yng Nghymru, Medi 2013

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Paratoi canllawiau i hyrwyddo gwell cynllunio corfforaethol
- Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir ymgynghori ynghylch cynllun corfforaethol a'i baratoi

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol. Fodd bynnag, fel y'i hamlinellwyd uchod, byddai'r angen am waith cynllunio corfforaethol effeithiol yn parhau i gynyddu, a byddai disgwyl o hyd i Gynghorau Sir gyflawni eu rhwymedigaethau i bennu amcanion o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

## Opsiwn 2 – Paratoi canllawiau i hyrwyddo gwell cynllunio corfforaethol

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru baratoi canllawiau i hyrwyddo dull mwy effeithiol a chydlynol o ymgymryd â chynllunio corfforaethol. Byddai hyn yn cychwyn yn 2019/20 pan fyddai'r Awdurdodau Cysgodol yn paratoi cynllun corfforaethol ar gyfer y Cynghorau Sir newydd sy'n ymgymryd â'u swyddogaethau llawn ar 1 Ebrill 2020.

Byddai'r canllawiau yn annog Cynghorau Sir i ddwyn ynghyd y dogfennau cynllunio sy'n bodoli eisoes yn un cynllun corfforaethol cydlynol. Byddai disgwyl i'r cynllun corfforaethol esbonio'r canlynol:

- yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei gyflawni, a sut mae'n bwriadu ei gyflawni;
- sut mae'r Cyngor yn bwriadu bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015;
- sut mae'r Cyngor yn bwriadu darparu gwasanaethau, gan gynnwys mewn partneriaeth ag eraill;

- blaenoriaethau corfforaethol ar gyfer darparu a gwella gwasanaethau;
- cynlluniau rheoli ariannol, gan gynnwys gwaith cynllunio ariannol tymor canolig, strategaethau caffael corfforaethol a chynlluniau rheoli asedau;
- lefelau perfformiad wedi'u cynllunio ar gyfer y byrdymor, y tymor canolig a'r hirdymor, wedi'u meincnodi ochr yn ochr â data perfformiad sy'n bodoli eisoes;
- strategaeth cyfranogiad y cyhoedd;
- cyflawniadau a pherfformiad y flwyddyn flaenorol, drwy adroddiad blynyddol.

Byddai'r canllawiau yn argymell y dylai Cynghorau Sir ddefnyddio'r cynllun corfforaethol fel sail i ymgynghori â phobl a chymunedau lleol.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Byddai paratoi canllawiau ar gynllunio corfforaethol yn gosod cost staffio a chost cyfieithu untro ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y byddai cost o **£12,000**.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai Opsiwn 2 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol sylweddol i Gynghorau Sir.

Mae gwaith cynllunio corfforaethol effeithiol yn hanfodol er mwyn rhedeg Cyngor Sir a hysbysu pobl a chymunedau lleol o'r cynnydd y mae'n ei wneud. Mae'r rhan fwyaf o'r elfennau yn debygol o gael eu cynnwys yn y trefniadau a'r canllawiau cynllunio corfforaethol sydd eisoes ar waith gan y mwyafrif o Gynghorau ac, felly, ni ddylent achosi baich ariannol sylweddol. Ni ddylai'r broses o goladu'r wybodaeth hon yn un man osod unrhyw gostau ar y Cyngor.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Byddai Cynghorau Sir sy'n dilyn y canllawiau yn debygol o ddatblygu dull mwy effeithiol o ymgymryd â chynllunio corfforaethol, gydag effeithiau cadarnhaol ar draws eu prosesau gwneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau. Yn ogystal â pharatoi un cynllun corfforaethol cydlynol, byddai Cynghorau yn fwy tebygol o ymgorffori dull effeithiol o ymgymryd â chynllunio corfforaethol drwy ei holl waith. Byddai pwyllgorau craffu, cyrff rheoleiddio a'r cyhoedd yn cael gwell gwybodaeth am y ffordd y mae Cynghorau Sir yn bwriadu cyflawni eu hamcanion gyda'r

adnoddau sydd ar gael iddynt, ac felly byddent mewn sefyllfa well i'w dwyn i gyfrif.

## Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir ymgynghori ynghylch cynllun corfforaeth a'i baratoi

Mae'r cynnig hwn yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir ymgynghori ynghylch cynllun corfforaethol a'i baratoi, a'r dogfennau perthnasol sy'n gysylltiedig ag ef. Mae'r rhan fwyaf o'r elfennau yn debygol o gael eu cynnwys yn y trefniadau a'r canllawiau cynllunio corfforaethol sydd eisoes ar waith gan y mwyafrif o Gynghorau, ac mae'r rhan fwyaf eisoes yn cynnal ymgynghoriadau. Ni ddylai'r broses o goladu'r wybodaeth hon yn un man ac ymgynghori osod unrhyw gostau ychwanegol ar Gynghorau.

Fel yn achos Opsiwn 2, mae'r opsiwn hwn yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru baratoi canllawiau i hyrwyddo dull mwy effeithiol a chydlynol o ymgymryd â chynllunio corfforaethol. Er y byddai i'r canllawiau yr un cwmpas â'r canllawiau a amlinellir yn Opsiwn 2, byddai canllawiau o dan Opsiwn 3 yn orfodol. Er na fyddai rhwymedigaeth ar Gynghorau Sir i gydymffurfio â'r canllawiau, byddai dyletswydd arnynt i roi sylw priodol iddynt. Fel yn achos Opsiwn 2, byddai hyn yn cychwyn yn 2019/2020, pan fyddai'r Awdurdodau Cysgodol yn paratoi cynllun corfforaethol ar gyfer y Cynghorau Sir newydd sy'n ymgymryd â'u swyddogaethau llawn ar 1 Ebrill 2020. Fodd bynnag, byddai angen rhoi'r canllawiau y flwyddyn flaenorol fel y gallai Pwyllgorau Pontio ymgymryd â gwaith paratoi.

## COSTAU

Byddai costau ychwanegol yn codi yn 2018/19. Amcangyfrifir y byddai cost ychwanegol o **£13,300** am baratoi canllawiau.

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Byddai paratoi canllawiau ar gynllunio corfforaethol yn gosod cost staffio a chost cyfieithu untro ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. O ystyried yr arbenigedd cyfreithiol helaethach sydd ei angen ar gyfer canllawiau statudol, amcangyfrifir y byddai cost o **£13,300**.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Fel yn achos Opsiwn 2, ni fyddai'r opsiwn hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar Gynghorau Sir. Mae'r mwyafrif o Gynghorau eisoes yn ymgynghori ynghylch eu cynlluniau corfforaethol, felly, ni fyddai ond cost ychwanegol fach iawn i ymgyngoreion.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Fel yn achos Opsiwn 2, byddai'r opsiwn hwn yn debygol o beri i Gynghorau Sir ddatblygu dull mwy effeithiol o ymgymryd â chynllunio corfforaethol, a fyddai'n fanteisiol o ran eu prosesau gwneud penderfyniadau, eu gwasanaethau a'u hatebolrwydd yn gyffredinol. Byddai gofyniad i ymgynghori ynghylch y cynllun corfforaethol drafft ac yna'i gyhoeddi yn arwain at Gynghorau Sir mwy agored a thryloyw. Fodd bynnag, gan y byddai'n ofynnol i bob Cyngor Sir roi sylw priodol i'r canllawiau, mae canllawiau statudol yn fwy tebygol o wireddu'r manteision hyn yn gyson ledled Cymru.

### Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru ddatblygu canllawiau anstatudol ar gynllunio corfforaethol effeithiol, a fyddai'n cyflwyno costau ychwanegol o **£12,000**.

Mae Opsiwn 3 yn cynnig y dylai Gweinidogion Cymru osod dyletswydd ar Gynghorau Sir i ymgynghori ynghylch cynllun corfforaeth a'i gyhoeddi, ac y dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau statudol ar gynllunio corfforaethol effeithiol, a fyddai'n cyflwyno costau ychwanegol o **£13,300**.

### Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai gwaith cynllunio corfforaethol mwy cyson a chadarn yn cefnogi trefniadau llywodraethu mwy effeithiol.

## 2.2. <u>Hunanasesu ac Asesu gan Gymheiriaid</u> (a116-122)

## Cefndir

Mae gan y cyhoedd ddisgwyliadau mawr ynglŷn â sut y dylai Cynghorau Sir berfformio. Cytunodd 88 y cant o ymatebwyr ar-lein i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* mai Cynghorau sy'n gyfrifol am berfformiad a chyflawni effeithiol. Mae nodi a gweithredu ar gyfleoedd i ddiwygio, trawsnewid a gwella gwasanaethau yn rhan allweddol o sicrhau canlyniadau o safon uchel i bobl a chymunedau.

Nododd y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus amrywiadau mawr o ran perfformiad gwasanaethau. Awgrymodd nad oedd '[l]lywodraethu a chraffu yn gweithio'n ddigon effeithiol i gefnogi a llywio gwelliannau na newidiadau'.[11] Nododd y Papur Gwyn Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol fod llywodraethu corfforaethol cadarn yn debygol o ddod yn gynyddol berthnasol o ystyried y pwysau ariannol a demograffig y mae Llywodraeth Leol yn eu hwynebu. At hynny, yn 2009, cododd yr adroddiad *Dysgu Gwella* nifer o bryderon ynglŷn â threfniadau gwella, gan ganfod bod Cynghorau yn dibynnu gormod ar asesiadau allanol yn hytrach nag atebolrwydd lleol ar y cyfan.[12]

Ar hyn o bryd, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn gosod 'dyletswydd gyffredinol mewn perthynas â gwella' ar Gynghorau Sir. Dylid cyflawni gwelliant parhaus drwy bennu 'amcanion gwella' ym mhob blwyddyn ariannol. Archwilydd Cyffredinol Cymru sy'n gyfrifol am benderfynu a yw Cynghorau wedi cyflawni gwelliant parhaus bob blwyddyn, a ydynt yn meddu ar y gallu i wella ymhellach, ac a ddylai Cyngor neu Weinidogion Cymru gymryd camau gweithredu.

Fel y'i hamlinellwyd uchod, gallai atgyfnerthu trefniadau llywodraethu lleol fod yn fanteisiol o ran atebolrwydd Cynghorau Sir, gwella perfformiad ac felly, ganlyniadau i bobl a chymunedau.

Mae prosesau gwella yn debygol o fod ar eu mwyaf effeithiol os ydynt yn rhan annatod o'r ffordd y mae Cyngor yn gweithredu, gyda Chynghorau Sir â'r prif gyfrifoldeb am nodi a gweithredu ar gyfleoedd i wella, yn hytrach nag archwilwyr neu Lywodraeth Cymru.

Felly, mae adran 111 o'r Bil Drafft yn ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir roi trefniadau ar waith i sicrhau llywodraethu da, atebolrwydd, ac i weithredu gyda darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran eu defnydd o adnoddau. Ar yr un pryd, mae adran 147 yn tynnu Cynghorau Sir o'r trefniadau gwella sy'n bodoli eisoes o dan Ran 1 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Felly, nid

[11] Y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus, Ionawr 2014
[12] *Dysgu Gwella: Asesiad Annibynnol o Bolisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Llywodraeth Leol*, Ysgol Fusnes Caerdydd, Gorffennaf 2009

ystyrir, ar y cyfan, bod adran 111 yn gosod unrhyw gostau newydd ar Gynghorau Sir. Fodd bynnag, byddai costau canlyniadol yn deillio o asesu cydymffurfiaeth Cyngor â'i ddyletswydd i roi trefniadau ar waith i sicrhau llywodraethu da.

## Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Cyflwyno hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid sy'n statudol

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

## DISGRIFIAD

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, ni châi manteision atgyfnerthu prosesau gwella eu gwireddu. Gallai cyfleoedd i wella perfformiad Cynghorau Sir gael eu colli, a allai achosi problemau penodol o ystyried y pwysau ariannol a demograffig yn y dyfodol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol a gallai roi Cynghorau mewn perygl o fethu â chydymffurfio â'u dyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau llywodraethu da.

## Opsiwn 2 – Cyflwyno hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid

## DISGRIFIAD

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid ei gwneud y ofynnol i Gynghorau Sir asesu a chymryd camau gweithredu i atgyfnerthu eu trefniadau llywodraethu ar ddau gyfrif: drwy gynnal hunanasesiad blynyddol o'u trefniadau llywodraethu, a thrwy drefnu i asesiadau gan gymheiriaid o'u trefniadau llywodraethu corfforaethol gael eu cynnal o leiaf unwaith bob cylch etholiadol. O dan Opsiwn 2 byddai hunanasesiadau yn cychwyn o 2017. Byddai'r gofyniad i gynnal asesiadau gan gymheiriaid yn dod yn weithredol yn 2020.

Byddai hunanasesiad yn asesiad ffurfiol, blynyddol o drefniadau llywodraethu corfforaethol y Cyngor, a gynhelir gan y Cyngor ei hun. Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir weithredu i fynd i'r afael ag unrhyw faterion sy'n dod i'r golwg o ganlyniad i'r asesiad.

Byddai'n ofynnol hefyd i Gynghorau Sir drefnu asesiad gan gymheiriaid o bryd i'w gilydd. Byddai asesiadau corfforaethol gan gymheiriaid yn cynnig her allanol i hunanasesiadau'r Cyngor ei hun, tra'n sicrhau mai'r Cyngor Sir sy'n dal i fod yn gyfrifol am welliant. Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir gyhoeddi canfyddiadau'r hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid ac ymateb iddynt. Byddai'n ofynnol i Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio ystyried ymateb y Cyngor a gwneud unrhyw argymhellion, y byddai'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried yn ei ymateb terfynol (gweler adran 2.5 isod). Gallai Gweinidogion Cymru roi canllawiau ar gynnal hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid.

Cytunodd 75 y cant o ymatebwyr i'r ymgynghoriad fod asesiad gan gymheiriaid yn ffordd briodol i sefydliadau herio eu hunanasesiad o'u trefniadau llywodraethu a pherfformiad. Fodd bynnag, bu consensws na ddylid cynnal asesiadau gan gymheiriaid yn rhy aml, er mwyn osgoi gosod gormod o faich. Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig na ddylid cynnal asesiad gan gymheiriaid unwaith bob dwy flynedd, ond o leiaf unwaith ym mhob cylch etholiadol.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 2 yn gosod costau ychwanegol o rhwng £457,000 a £512,000.

**Tabl 17: Costau Bwriadau Polisi**

| | 2020/21 | | 2021/22 i 2029/30 | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Staff** | **Isaf** | **Uchaf** | **Isaf** | **Uchaf** | **Isaf** | **Uchaf** |
| Llywodraeth Cymru | | | | | | |
| Costau staff sy'n gysylltiedig â pharatoi canllawiau ar hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid | £12,000 | £12,000 | - | - | £12,000 | £12,000 |
| Cost adolygiadau corfforaethol gan gymheiriaid | £44,500 | £50,000 | £400,200 | £450,200 | £444,700 | £500,300 |
| **Cyfanswm Cost** | **£56,400** | **£62,000** | **£400,200** | **£450,200** | **£456,600** | **£512,200** |

**Yn seiliedig ar orwel cynllunio o 10 mlynedd*

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Amcangyfrifir y byddai pob asesiad gan gymheiriaid yn costio ychydig o dan £28,000. Efallai fod yr amcangyfrif hwn ychydig yn uwch na chost asesiadau gan gymheiriaid ar hyn o bryd am fod yn cynnig yn cynnwys amrywiaeth ehangach o uwch adolygwyr allanol. Byddai'n ofynnol i bob Cyngor Sir gynnal asesiad gan gymheiriaid o leiaf unwaith ym mhob cylch etholiadol. Felly, dros ddeng mlynedd,

byddai cost ychwanegol asesiadau gan gymheiriaid ledled Cymru yn gwneud cyfanswm o rhwng 445,000 a £500,000, sef cyfartaledd o rhwng £40,000 a £45,000 y flwyddyn.

Byddai paratoi canllawiau i gefnogi hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid yn cyflwyno cost staffio a chost cyfieithu ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y byddai'r gost untro hon ychydig o dan **£12,000**.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai'r gofyniad i gynnal hunanasesiad blynyddol o drefniadau llywodraethu corfforaethol ac ymateb i'w ganfyddiadau yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol sylweddol i Gynghorau Sir. Yn hytrach, byddai'r gweithgarwch hwn yn cymryd lle gwaith sy'n cael ei wneud eisoes, gan ymateb i asesiadau gwella sy'n ofynnol ar hyn o bryd o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Y nod yw y byddai'r dull gweithredu newydd yn llai beichus na'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Byddai Opsiwn 2 yn atgyfnerthu'r trefniadau llywodraethu presennol. Byddai hyn yn sicrhau bod Cynghorau Sir yn nodi cyfleoedd i wella'n gyson, yn gweithredu arnynt ac yn myfyrio yn eu cylch. Yr hyn sy'n hollbwysig yw y byddai cyfrifoldeb i wella yn dal i fod ar y sector Llywodraeth Leol fel y bydd gwella trefniadau llywodraethu yn cael ei ymgorffori yn ffyrdd o weithio Cynghorau Sir. Byddai hyn yn arwain at ganlyniadau gwell i'r cyhoedd.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol. Mae manteision atgyfnerthu prosesau gwella yn annhebygol o gael eu gwireddu.

Byddai Opsiwn 2 yn atgyfnerthu trefniadau llywodraethu Cynghorau Sir drwy ei gwneud yn ofynnol i hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid gael eu cynnal. Byddai hyn yn cyflwyno cost ychwanegol o rhwng £457,000 a £512,000 dros ddeng mlynedd, ond mae'n debygol o ymgorffori hunanwelliant yn nhrefniadau llywodraethu Cynghorau Sir.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n arwain at drefniadau llywodraethu gwell a chamau gweithredu cynharach ynglŷn â chyfleoedd i wella.

## 2.3. Asesiadau Cyfun a Chydgysylltu rhwng Rheoleiddwyr (a123-127, 143)

### Cefndir

Ochr yn ochr â threfniadau llywodraethu ac atebolrwydd mewnol, mae'r rheoleiddwyr perthnasol yn nodi arfer da a meysydd ar gyfer gwella. Y rheoleiddwyr perthnasol ("y rheoleiddwyr") yw Swyddfa Archwilio Cymru, Estyn ac Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Er eu bod yn canolbwyntio ar agweddau gwahanol ar berfformiad Cyngor Sir, maent yn rhannu'r nod cyffredin o helpu Cynghorau Sir i wella.

Ar hyn o bryd, mae'r rheoleiddwyr yn gweithio gyda'i gilydd, Llywodraeth Cymru, CLlLC ac Awdurdodau Lleol i nodi materion sy'n dod i'r golwg a themâu cyffredin. Mae trefniadau cydweithredu yn canolbwyntio ar Gynadleddau Cefnogi Gwelliant anffurfiol, lle y caiff canfyddiadau eu rhannu'n gyfrinachol. Fodd bynnag, nid oes unrhyw ofyniad ar y rheoleiddwyr i gymryd camau gweithredu, ac nid oes ychwaith rwymedigaeth ar Awdurdodau Lleol i ymateb.

Fel sy'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009, mae'r rheoleiddwyr yn gweithio gyda'i gilydd i drefnu amserlennu arolygiadau, er mwyn sicrhau baich arolygu rhesymol ar Gynghorau Sir. Fodd bynnag, mae'r diwygiad i Fesur 2009 yn adran 147 o'r Bil Drafft i ddirymu'r drefn wella i Gynghorau Sir yn Rhan 1 yn ei gwneud yn ofynnol inni ystyried trefniadau newydd ar gyfer cydweithredu rhwng y rheoleiddwyr.

### Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu nodi:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gydgysylltu arolygiadau, paratoi asesiad cyfun o Gynghorau Sir bob dwy flynedd, ac adroddiad 'cyflwr Llywodraeth Leol' blynyddol.
- Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr gydgysylltu arolygiadau a pharatoi asesiad cyfun o drefniadau llywodraethu Cynghorau Sir.

### Opsiwn 1 - Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniadau cydweithredu anffurfiol presennol rhwng y rheoleiddwyr. Byddai trafodaethau anffurfiol ar themâu sy'n dod i'r golwg ac arfer da yn parhau.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru (gan gynnwys cyrff adolygu allanol)*

Nid yw Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Nid yw Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol. Ni châi manteision atgyfnerthu'r trefniadau cydweithredu presennol eu gwireddu.

## Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i gydgysylltu arolygiadau, paratoi asesiad cyfun o Gynghorau Sir bob dwy flynedd, ac adroddiad 'cyflwr Llywodraeth Leol' blynyddol

## DISGRIFIAD

Fel y'i hamlinellwyd yn y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*, mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylai fod yn ofynnol i'r rheoleiddwyr ategu eu trafodaethau anffurfiol presennol drwy ddwyn eu canfyddiadau ynghyd yn ffurfiol yn asesiad cyfun o Gynghorau unigol a Llywodraeth Leol yn ei chyfanrwydd.

Byddai'n ofynnol i'r rheoleiddwyr baratoi asesiad cyfun o bob awdurdod lleol, bob dwy flynedd. Byddai hyn yn cyfuno canfyddiadau'r rheoleiddwyr ynglŷn â llywodraethu a gwasanaethau yn un adroddiad ac yn cynnwys gwybodaeth o ffynonellau eraill, megis hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid. Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir ystyried yr asesiad a chymryd unrhyw gamau gweithredu angenrheidiol.

Gallai Llywodraeth Cymru baratoi canllawiau statudol i helpu'r rheoleiddwyr gyda'r dyletswyddau newydd hyn.

At hynny, bob blwyddyn byddai'n ofynnol hefyd i'r rheoleiddwyr goladu eu canfyddiadau yn adroddiad 'Cyflwr Llywodraeth Leol'. Câi hwn ei gyflwyno i Weinidogion Cymru, a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

Ceisiodd y Papur Gwyn farn ar y cynigion hyn. Er bod pedwar o bob pum ymatebwr yn gefnogol, argymhellodd CLlLC a rhai Awdurdodau Lleol fod yr amserlenni arfaethedig ar gyfer yr asesiadau cyfun yn rhy fynych o bosibl. Ar ôl ymgynghoriad, mae'r rheoleiddwyr hefyd wedi awgrymu y dylai'r adroddiadau fod yn llai mynych. At hynny, o dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n ofynnol bellach i Archwilydd Cyffredinol Cymru asesu gallu a chymhwysedd corfforaethol mewn Llywodraeth Leol fel rhan o gynaliadwyedd.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 2 yn cyflwyno costau ychwanegol o **£1,824,200**.

**Tabl 18: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 | 2021/22 i 2029/30 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | | | |
| Cost Staffio - Paratoi Canllawiau | £12,000 | - | £12,000 |
| Asesiadau Cyrff Adolygu Allanol | £181,200 | £1,631,000 | £1,812,200 |
| **Cyfanswm Cost** | **£193,200** | **£1,631,000** | **£1,824,200** |

### *Costau i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys y rheoleiddwyr)*

Byddai’r gwaith o baratoi canllawiau statudol yn cyflwyno cost staffio a chost cyfieithu i Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y byddai cost o **£12,000**.

Byddai’r gwaith o baratoi adroddiadau trosolwg yn gosod cost barhaus ychwanegol ar y rheoleiddwyr. Byddai pedwar asesiad cyfun o Gynghorau Sir unigol yn cael eu cwblhau bob blwyddyn ar gyfartaledd, ynghyd ag un adroddiad blynyddol ar Gyflwr Llywodraeth Leol. Felly, amcangyfrifir y byddai cost staff flynyddol o ychydig dros **£181,200** i’r tri chorff adolygu allanol. Byddai hyn yn gwneud cyfanswm o **£1,812,200** dros ddeng mlynedd.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Byddai’n ofynnol i Gynghorau Sir ystyried canfyddiadau’r asesiadau a gweithredu arnynt. Mae hon yn rhan allweddol o gyfrifoldeb corfforaethol Cynghorau Sir, felly ni châi unrhyw gostau pellach eu cyflwyno.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Byddai dwyn ynghyd amrywiol adroddiadau â ffocws ac adroddiadau penodol yn helpu i nodi materion sy’n dod i’r golwg a materion trawsbynciol, themâu ac arfer da o fewn Cynghorau Sir ac mewn Llywodraeth Leol yn gyffredinol. Mae hyn yn debygol o fod yn fanteisiol o ran perfformiad, llywodraethu, a gwasanaethau. Fodd bynnag, nid yw’n amlwg y byddai angen adroddiadau mor fynych ag y’i cynigir er mwyn sicrhau’r manteision hyn.

## Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr gydgysylltu arolygiadau ar raddfa fwy, a pharatoi asesiad cyfun o drefniadau llywodraethu Cynghorau Sir

## DISGRIFIAD

Byddai Opsiwn 3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr gydgysylltu er mwyn paratoi asesiad cyfun o bob Cyngor Sir bob blwyddyn. Byddai hyn yn golygu bod y rheoleiddwyr yn rhannu gwybodaeth am drefniadau llywodraethu corfforaethol pob Cyngor Sir, ac wedyn yn cael trafodaeth â phob Cyngor. Byddai'r rheoleiddwyr yn cyflwyno eu hadroddiad terfynol i bob Cyngor, gan nodi materion sy'n dod i'r golwg a materion brys.

Cynigir y byddai'r asesiadau cyfun yn rheolaidd ac yn llai manwl, gan adeiladu ar y trefniadau cydweithredu anffurfiol presennol.

Fel yn achos Opsiwn 2, mae'r opsiwn hwn yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r rheoleiddwyr gydgysylltu'r ffordd y maent yn arfer eu swyddogaethau perthnasol.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 3 yn cyflwyno costau ychwanegol o **£550,200**.

**Tabl 19: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 | 2021/22 i 2029/30 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru (Arolygu Cymru) | | | |
| Costau i gyrff adolygu allanol gynnal archwiliadau stoc | £55,000 | £495,200 | £550,200 |
| **Cyfanswm Cost** | **£55,000** | **£495,200** | **£550,200** |

### *Costau i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys y rheoleiddwyr perthnasol)*

Ni fyddai'r gwaith o baratoi asesiadau cyfun ar gyfer pob Cyngor Sir yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i'r rheoleiddwyr. Fodd bynnag, efallai y byddai angen ysgrifenyddiaeth fach i gefnogi'r rheoleiddwyr. Amcangyfrifir y byddai cost staff flynyddol o £55,000 y flwyddyn, gan wneud cyfanswm o **£550,200** dros ddeng mlynedd.

Fel yn achos Opsiwn 2, mae'n ofynnol eisoes i'r rheoleiddwyr gydgysylltu eu swyddogaethau o dan Fesur 2009 felly ni fyddent yn mynd i unrhyw gostau ychwanegol newydd.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir ystyried canfyddiadau'r asesiadau cyfun a gweithredu arnynt. Mae hon yn rhan o gyfrifoldeb corfforaethol Cynghorau Sir (fel y maent yn ei arfer ar hyn o bryd mewn perthynas â Mesur 2009), felly ni fyddai unrhyw gostau newydd yn cael eu cyflwyno. Pe câi swyddogaethau'r rheoleddiwyr eu cydgysylltu'n well byddai hynny'n lleihau'r baich archwilio ac arolygu ar Gynghorau Sir, ond nid oes modd cyfrifo'r arbedion.

## MANTEISION

Byddai asesiadau cyfun yn helpu i nodi materion sy'n dod i'r golwg a materion trawsbynciol ac arfer da, heb gyflwyno baich ychwanegol na diangen ar y rheoleiddwyr na'r Cynghorau Sir.

Byddai gofyniad ar y rheoleiddwyr i gyhoeddi eu hamserlen arolygu yn rhoi mwy o dryloywder ynglŷn â sut y caiff Cynghorau Sir eu harolygu a'u harchwilio. Pe câi swyddogaethau eu cydgysylltu byddai baich arolygiadau yn cael ei leihau i'r eithaf a byddai trefniadau rhannu gwybodaeth yn cael eu gwella.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylai'r rheoleiddwyr baratoi asesiadau cyfun o Gynghorau unigol a Llywodraeth Leol yn ei chyfanrwydd. Dros ddeng mlynedd, byddai hyn yn cyflwyno costau ychwanegol o **£1,824,200**. Fodd bynnag, nid yw'n amlwg y byddai angen adroddiadau mor fynych ag y'i cynigir er mwyn sicrhau'r manteision hyn.

Mae Opsiwn 3 yn cynnig y dylai'r rheoleiddwyr baratoi asesiadau cyfun o Gynghorau unigol. Dros ddeng mlynedd, byddai hyn yn cyflwyno costau ychwanegol o **£550,200**.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n arwain at well llywodraethu a chamau gweithredu cynharach ar gyfleoedd i wella mewn Cynghorau Sir, a rheoleiddio mwy effeithiol.

## 2.4. <u>Ymyriadau (a128-142)</u>

### Cefndir

Mae Llywodraeth Leol yng Nghymru yn cyflawni'r safonau perfformiad uchel a ddisgwylir gan y cyhoedd ar y cyfan. Fodd bynnag, o dan amgylchiadau penodol, mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru yn gallu rhoi cefnogaeth drwy ymyrryd. Cefnogwyd hyn gan 90 y cant o'r ymatebwyr ar-lein i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol*: *Grym i Bobl Leol.* Mae ymateb CLlLC yn rhoi gwerth ar gefnogi ond mae'n pwysleisio mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid ymyrryd.

Ar hyn o bryd, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn rhoi pwerau ymyrryd a chefnogi i Weinidogion Cymru mewn perthynas ag 'awdurdodau gwella', sy'n cynnwys Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol. Gall ymyrryd a chefnogi hefyd ddeillio o argymhellion gan yr arolygiaethau (Estyn ac AGGCC) mewn perthynas â gwasanaethau penodol, megis addysg neu wasanaethau cymdeithasol, o dan ddeddfwriaeth arall. Gall Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd godi pryderon ynglŷn â darboduswrydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Yn ystod y deng mlynedd diwethaf, mae Gweinidogion Cymru wedi cefnogi tri Chyngor mewn perthynas â materion corfforaethol, gan ddefnyddio'r pwerau ymyrryd penodol sydd ar gael o dan Fesur 2009. Mae'r gefnogaeth hon wedi amrywio o gamau gweithredu llai manwl er mwyn atgyfnerthu sgiliau corfforaethol, i benodi nifer o gomisiynwyr i gyfarwyddo gweithgareddau'r Cyngor am gyfnodau o fwy na 24 mis. Y Cynghorau sy'n cael eu cefnogi sy'n talu am y costau. Fodd bynnag, mae'r diwygiadau yn adran 147 o'r Bil Drafft yn golygu na fydd y pwerau ymyrryd penodol ym Mesur 2009 ar gael i Weinidogion Cymru mwyach.

O ganlyniad i'r cynigion yn y Bil Drafft i atgyfnerthu trefniadau llywodraethu Cynghorau Sir, cred Llywodraeth Cymru eu bod yn debygol o ddod yn fwy cydnerth, a'i bod yn llai tebygol y bydd angen cefnogi drwy ymyrryd yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw hyn yn lleihau pwysigrwydd dull cadarn o nodi achosion i'w cefnogi, a sicrhau bod opsiynau cefnogi effeithiol ar gael lle y bo angen.

### Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo adolygiadau llywodraethu a gweithdrefnau ymyrryd.

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol. Oherwydd y cynnig i ddiwygio Mesur 2009, ni fydd pŵer Gweinidogion Cymru i ymyrryd o dan y Mesur ar gael mwyach.

### COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Nid yw Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol

### MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Nid yw Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol. Gan y byddai gallu Gweinidogion Cymru i adolygu trefniadau llywodraethu a chefnogi Cynghorau Sir yn lleihau, gallai fod yn anodd mynd i'r afael â methiannau llywodraethu.

## Opsiwn 2 – Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru gyfarwyddo adolygiadau llywodraethu a gweithdrefnau ymyrryd

Byddai Opsiwn 2 yn galluogi Gweinidogion Cymru i gomisiynu adolygiad llywodraethu annibynnol o Gyngor Sir pan fydd ganddynt reswm dros gredu bod y Cyngor yn methu â chydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau llywodraethu da neu y gall fod y Cyngor yn methu â gwneud hynny (adran 111 o'r Bil Drafft). Ar sail yr adolygiad llywodraethu, yna caiff Gweinidogion Cymru benderfynu a fyddai cefnogaeth neu ymyrryd yn fanteisiol neu a ellid eu cyfiawnhau. Byddai hyn yn cychwyn yn union ar ôl cael Cydsyniad Brenhinol. Gallai adolygiad llywodraethu gael ei gomisiynu gan Weinidogion Cymru mewn ymateb i amrywiaeth eang o dystiolaeth a sbardunau, gan gynnwys:

- pryderon neu argymhellion cyrff adolygu allanol, yn ychwanegol at eu pwerau i wneud argymhellion yn uniongyrchol i Weinidogion Cymru;
- pryderon a godir gan y Cyngor Sir neu ei aelodau;
- perfformiad sy'n gyson waeth na chymheiriaid neu safonau penodedig;
- pryderon a godir drwy chwythu'r chwiban nad ydynt yn cael eu lleddfu fel arall drwy fodd sy'n bodoli eisoes;
- pryderon ynglŷn â gallu a/neu gymhwysedd y Cyngor i ymateb i hunanasesiad neu asesiad gan gymheiriaid;
- pryderon cyhoeddus sylweddol eraill.

Byddai'n ofynnol i Gynghorau Sir nodi unrhyw gamau gweithredu i'w cymryd ar ôl adroddiad yr adolygiad llywodraethu. Pe bai'r adolygiad llywodraethau yn argymell hynny, a chan ystyried ymateb arfaethedig y Cyngor Sir, byddai Gweinidogion Cymru yn gallu cynnig gwahanol fathau o gymorth. Yr opsiynau yw:

- caiff y Cyngor Sir ei gyfarwyddo i gael gwasanaethau cymorth;
- caiff y Cyngor Sir ei gyfarwyddo i gymryd camau gweithredu penodol;
- mae Gweinidogion Cymru neu eu henwebai yn cyflawni swyddogaethau penodol y Cyngor Sir.

Cafodd y cynigion hyn eu cefnogi'n gryf gan ymatebwyr i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol*. Cefnogodd 83 y cant o ymatebwyr ar-lein adolygiad annibynnol, a chafodd pob un o'r sbardunau a gynigir uchod gefnogaeth o rhwng 79 y cant a 93 y cant. Bu cefnogaeth gref hefyd o blaid defnyddio canfyddiadau'r adolygiad fel sbardun i gefnogaeth gan Weinidogion. Roedd ymatebwyr eraill yn gadarnhaol ynglŷn â'r cynigion, ond pwysleisiwyd mai dim ond pan fetho popeth arall y dylid rhoi cefnogaeth. Awgrymodd chwe Chyngor y dylai cefnogaeth Gweinidogion fod yn destun ymgynghoriad.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 2 yn gosod cyfanswm cost amcangyfrifedig o £38,100.

**Tabl 20: Costau Bwriadau Polisi**

| Costau Bwriadau Polisi | 2020/21 | 2021/22 i 2029/30 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth Cymru | | | |
| Costau Staffio Cyfartalog ar gyfer Adolygiadau Annibynnol | £3,800 | £34,300 | £38,100 |
| **Cyfanswm Cost** | **£3,800** | **£34,300** | **£38,100** |

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Amcangyfrifir y byddai costau staff o ychydig dros £19,000 ar gyfer pob ymchwiliad annibynnol.

Mae cyfanswm cost Opsiwn 2 i Lywodraeth Cymru yn dibynnu ar amlder adolygiadau llywodraethu. Mae tri Chyngor wedi cael cefnogaeth ffurfiol o ran llywodraethu corfforaethol yn ystod y deng mlynedd diwethaf. Gan y byddai adolygiadau llywodraethu yn ymchwilio i'r achos dros gefnogaeth, efallai y

byddent yn digwydd yn amlach na rhoi cefnogaeth. Serch hynny, fel y'i hamlinellir uchod, mae'r rhaglen ehangach o ddiwygiadau i Lywodraeth Leol, ynghyd â lleihad yn nifer y Cynghorau Sir, yn golygu mai'r disgwyl yw mai anaml y câi adolygiadau llywodraethu eu cynnal. Mae'n rhesymol tybio y byddai Gweinidogion Cymru yn comisiynu dau adolygiad llywodraethu mewn cyfnod o ddeng mlynedd. Byddai'r gost ychwanegol i Lywodraeth Cymru yn gwneud cyfanswm o ychydig o dan **£38,100** dros ddeng mlynedd, neu ychydig o dan £4,000 y flwyddyn ar gyfartaledd.

Fel y'i nodir uchod, ni ddylid achub y blaen ar y math o gefnogaeth a argymhellir gan adolygiad llywodraethu ym mhob achos. Câi unrhyw gostau a osodir ar Lywodraeth Cymru eu harfarnu'n llawn fel rhan o argymhelliad.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai Opsiwn 2 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Gynghorau Sir. Byddai gweithio gydag adolygiad llywodraethu annibynnol yn rhan o gyfrifoldeb corfforaethol Cyngor Sir, fel y byddai unrhyw gamau gweithredu y mae angen eu cymryd o ganlyniad i argymhellion.

At hynny, ni ddylid achub y blaen ar y math o gefnogaeth a argymhellir gan adolygiad llywodraethu ym mhob achos. Câi costau eu harfarnu'n llawn fel rhan o unrhyw argymhelliad.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Byddai Opsiwn 2 yn sicrhau drwy adolygiad llywodraethu y gellir cyfiawnhau cefnogaeth, ac ystyrir nifer o opsiynau cefnogaeth er mwyn sicrhau bod cefnogaeth yn cael manteision hirdymor adeiladol. Byddai cefnogaeth briodol ac amserol yn debygol o arwain at drefniadau llywodraethu cryfach a gwell canlyniadau i'r cyhoedd.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol. Ni fyddai hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol, ond byddai perygl nad eid i'r afael â methiant corfforaethol mewn Cyngor Sir.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y gall Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad llywodraethu o Gyngor Sir, yn seiliedig ar amrywiaeth eang o dystiolaeth, er mwyn penderfynu a fyddai cefnogaeth yn fanteisiol, ac, os felly, y math mwyaf priodol. Dros ddeng mlynedd, byddai hyn yn gosod costau ychwanegol o ychydig dros **£38,100**.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir am y byddai cefnogaeth briodol ac amserol yn arwain at well llywodraethu a chanlyniadau i’r cyhoedd.

## 2.5. Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (a148-152)

## Cefndir

Mae gwell trefniadau llywodraethu corfforaethol yn ganolog i ddiwygiadau arfaethedig Llywodraeth Cymru o Lywodraeth Leol. Mae Pwyllgorau Archwilio yn cynnig rhwystrau a gwrthbwysau pwysig i drefniadau llywodraethu Cyngor Sir, fel sy'n ofynnol o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Mae dyletswydd statudol ar Gynghorau i sefydlu Pwyllgor Archwilio er mwyn adolygu a chraffu ar ei faterion ariannol, rheoli risg, rheolaeth fewnol a threfniadau llywodraethu corfforaethol. Gall cynghorau benderfynu ar y math mwyaf priodol o Bwyllgor Archwilio i'w sefydliad, gan gynnwys pa mor aml y mae'n cyfarfod a'i aelodaeth. Ar gyfartaledd, amcangyfrifir bod Pwyllgor Archwilio yn costio £5,000 y flwyddyn i Gyngor Sir.

Er bod Pwyllgorau Archwilio yn bwyllgorau Cyngor Sir, er mwyn iddynt graffu'n effeithiol, mae'n rhaid eu bod yn annibynnol ar y Weithrediaeth. Mae'n ofynnol i un aelod o leiaf fod yn 'aelod lleyg', yn aelod annibynnol sy'n ariannol gymwys nad yw'n swyddog nac yn aelod o Gyngor Sir. Ar hyn o bryd, ni all mwy na thraean o aelodau fod yn aelodau lleyg, a dim ond y gofyniad sylfaenol o un aelod lleyg sydd gan lawer o Bwyllgorau Archwilio. Mae aelodau lleyg hefyd yn cynnig amrywiaeth o sgiliau, safbwyntiau a phrofiadau a all atgyfnerthu gwaith craffu Pwyllgor Archwilio.

Cred Llywodraeth Cymru fod Pwyllgorau Archwilio sydd â'r isafswm statudol o un aelod lleyg yn llai tebygol o sicrhau'r manteision hyn ac mae angen ystyried rôl Pwyllgorau Archwilio ymhellach, o ystyried y gofynion a nodir uchod mewn perthynas â threfniadau llywodraethu, yr asesiad o drefniadau llywodraethu ac adolygiadau llywodraethu.

## Opsiynau

Mae dau opsiwn wedi cael eu nodi:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Estyn rôl ac annibyniaeth Pwyllgorau Archwilio

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

## DISGRIFIAD

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol. Byddai Pwyllgorau Archwilio yn parhau i graffu fel y maent ar hyn o bryd.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

## Opsiwn 2 – Estyn rôl ac annibyniaeth Pwyllgorau Archwilio

## DISGRIFIAD

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 er mwyn estyn rôl Pwyllgorau Archwilio a chynyddu nifer a rôl yr aelodau lleyg. Yn ogystal â'u swyddogaethau presennol, byddai'n ofynnol iddynt graffu ar drefniadau llywodraethu Cyngor Sir, gan ystyried a gwneud argymhellion ynglŷn ag ymateb Cyngor Sir i hunanasesiad, asesiad gan gymheiriaid, asesiad cyfun ac adroddiadau adolygiadau llywodraethu. Gan adlewyrchu'r cylch gwaith ehangach hwn a rôl gadarnach, câi Pwyllgorau Archwilio eu hailenwi'n Bwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio.

Câi gofynion ynglŷn ag aelodau lleyg eu hatgyfnerthu hefyd: byddai'n ofynnol i draean o'r aelodau fod yn aelodau lleyg. Byddai'n ofynnol hefyd i'r Cadeirydd fod yn aelod lleyg.

Byddai Awdurdodau Lleol yn parhau i benderfynu ar fanylion eraill Pwyllgorau Archwilio fel y bo'n briodol i'w sefydliad, gan gynnwys maint y pwyllgor, a pha mor aml y mae'n cyfarfod.

Byddai'r polisi hwn yn cychwyn yn 2017.

Cytunodd 58 y cant o'r ymatebwyr ar-lein i'r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol*: *Grym i Bobl Leol* y dylid cynyddu cyfran yr aelodau annibynnol ar Bwyllgorau Archwilio. Cytunodd 69 y cant y dylai'r Cadeirydd fod yn aelod annibynnol.

Fodd bynnag, bu gwrthwynebiad i'r cynigion ar gyfer mwy o aelodau lleyg ar Bwyllgorau Archwilio ymhlith yr ymatebion eraill. Nid oedd 13 o 19 o Gynghorau, ynghyd â CLlLC, yn cefnogi'r naill gynnig na'r llall a gefnogwyd gan ymatebwyr ar-lein. Fodd bynnag, ar ôl ystyried yr ymatebion hyn, mae Gweinidogion Cymru yn hyderus y byddai presenoldeb arbenigedd allanol yn atgyfnerthu gallu Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio i graffu'n effeithiol, tra'n cadw mwyafrif o Aelodau Etholedig.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 2 yn costio **£576,000** neu **£648,000**, yn dibynnu ai wyth neu naw Awdurdod Lleol fyddai yng Nghymru.

**Tabl 21: Costau Bwriadau Polisi**

| | 2017/18 | | 2018/19 i 2026/27 | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Bwriadau Polisi** | **Isaf** | **Uchaf** | **Isaf** | **Uchaf** | **Isaf** | **Uchaf** |
| Llywodraeth Leol | | | | | | |
| Cost Aelodau Annibynnol Ychwanegol | £57,600 | £64,800 | £518,400 | £583,200 | £576,000 | £648,000 |
| **Cyfanswm Cost** | **£57,600** | **£64,800** | **£518,400** | **£583,200** | **£576,000** | **£648,000** |

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn gosod unrhyw gostau ychwanegol ar Lywodraeth Cymru.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Byddai cynyddu nifer yr aelodau lleyg yn gosod cost ychwanegol ar Gynghorau Sir, gan y gall aelodau lleyg hawlio lwfans gan y Cyngor am eu hamser. Hawlir lwfans o £200 fesul cyfarfod ar gyfartaledd. Mae’r rhan fwyaf o Bwyllgorau Archwilio yn cynnwys o leiaf un aelod lleyg a thua 15 o aelodau i gyd, felly mae’n rhesymol tybio y byddai angen tri aelod lleyg ychwanegol ar bob pwyllgor. Gan dybio y byddai pob un yn gymwys i hawl taliad o £200, am 12 diwrnod gwaith y flwyddyn, byddai cost flynyddol pob Pwyllgor Archwilio yn cynyddu £7,200. Gydag wyth Cyngor Sir, byddai hyn yn costio ychydig dros £57,000 y flwyddyn, neu **£576,000** dros ddeng mlynedd. Gyda naw Cyngor Sir, byddai hyn yn costio ychydig dros £64,800 y flwyddyn, neu **£648,000** dros ddeng mlynedd.

Mae Opsiwn 2 hefyd yn cynnig y dylid ehangu swyddogaethau’r Pwyllgor Archwilio. Ni fyddai’r ddarpariaeth hon yn gosod unrhyw gostau ychwanegol. Er y gall pob cyfarfod o’r Pwyllgor Archwilio gwmpasu amrywiaeth ehangach o bynciau, mae’n annhebygol y bydd nifer y cyfarfodydd yn cynyddu.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision uniongyrchol ychwanegol i Lywodraeth Cymru.

### *Manteision i Lywodraeth Leol*

Byddai ehangu swyddogaethau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio i gynnwys craffu ar ymateb y Cyngor i asesiadau llywodraethu yn atgyfnerthu trefniadau llywodraethu corfforaethol a sicrwydd yn sylweddol.

Byddai cynyddu nifer yr aelodau lleyg ar Bwyllgorau Archwilio yn atgyfnerthu eu gallu i graffu mewn ffordd gadarn ac annibynnol. Mae'n debygol iawn y câi hyn ei wireddu pe bai cadeirydd y pwyllgor yn aelod lleyg. Gallai'r amrywiaeth ehangach o brofiadau a sgiliau a gynigir gan amrywiaeth ehangach o aelodau lleyg hefyd yn fanteisiol o ran ansawdd gwaith craffu Pwyllgorau Archwilio.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i drefniadau presennol Pwyllgorau Archwilio.

Byddai Opsiwn 2 yn estyn rôl ac annibyniaeth Pwyllgorau Llywodraethau Corfforaethol ac Archwilio. Byddai Llywodraeth Leol yn mynd i gostau ychwanegol o rhwng **£576,000** a **£648,000** dros ddeng mlynedd.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n arwain at well llywodraethu, her fwy effeithiol a mwy o sicrwydd.

## 3. <u>Cynghorau Cymuned</u>

Mae Gweinidogion Cymru am sicrhau bod pob lefel o Lywodraeth Leol yn gallu darparu gwasanaethau effeithiol a gwneud penderfyniadau cadarn. Mae'r Bil Drafft yn cynnig diwygiadau i'r sector Cynghorau Cymuned fel y bydd mewn sefyllfa well i chwarae rôl lawn yng ngwasanaethau cyhoeddus Cymru.

Mae'r Bil Drafft yn cynnwys mesurau i wneud y canlynol:

- Adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned
- Rhoi'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol i Gynghorau Cymuned â chymhwysedd
- Ei gwneud yn ofynnol i Aelodau Etholedig ar Gynghorau Cymuned ymgymryd â hyfforddiant sy'n cael ei bennu a'i ddarparu gan y Cyngor Sir.
- Darparu bod etholiadau cyffredin i Gynghorau Cymuned yn digwydd bob pum mlynedd o 2023.

Ni fydd darpariaeth ynglŷn ag etholiadau cyffredin i Gynghorau Cymuned bob pum mlynedd yn arwain at unrhyw gostau ychwanegol ac felly nis ystyrir ymhellach yn yr adran hon.

## 3.1. <u>Adolygu Trefniadau Cynghorau Cymuned (a153-166)</u>

### Cefndir

Cydnabu'r Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau bwysigrwydd cyswllt agos Cynghorau Cymuned â chymunedau lleol. Fodd bynnag, yn ymarferol, canfuwyd bod eu rhyngweithio â'r cyhoedd yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd a bod yn agored. Mynegodd y Comisiwn bryderon mawr ynglŷn â nifer y Cynghorau Cymuned, eu maint a pha mor gynrychioliadol ac atebol ydynt. Mynegodd dau adroddiad gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2013 a 2014 bryderon hefyd ynglŷn â rheolaethau llywodraethu ac ariannol Cynghorau Cymuned. Canfu trydydd adroddiad yn 2015 fod rhywfaint o welliant, ond parhaodd i fynegi pryderon ynglŷn â lleiafrif o Gynghorau. Daeth y Comisiwn i'r casgliad bod angen diwygio'r sector drwy uno neu ehangu ardaloedd Cynghorau Cymuned.

Mae Gweinidogion Cymru yn cydnabod bod rhai Cynghorau Cymuned yn gweithredu'n effeithiol. Fodd bynnag, maent yn derbyn argymhellion y Comisiwn. Nododd y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol* na all Cynghorau Cymuned 'barhau mwyach i wneud yr un pethau yn yr un ffordd', a chynigiodd y dylent 'ymwneud yn fwy gweithredol â bod yn rhan o wasanaethau sy'n diwallu anghenion grwpiau agored i niwed mewn cymunedau'.

Mae Gweinidogion Cymru yn cynnig y dylid adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned, gyda'r nod o grwpio cymunedau llai o faint o dan Gynghorau Cymuned cyffredin. Byddai Cynghorau sy'n gwasanaethu nifer o gymunedau yn cynnig trefniadau llywodraethu cryfach, gwell atebolrwydd ariannol, a mwy o allu i gefnogi mwy o gyfrifoldeb, tra'n cadw hunaniaeth cymuned unigol. Er enghraifft, gallai Cynghorau Cymuned cyffredin gyflogi clercod â chymwysterau proffesiynol (dim ond 13 sydd ar hyn o bryd o blith 735 o Gynghorau), gan eu galluogi i fodloni'r amodau a fyddai'n rhoi mynediad i'r pŵer cymhwysedd cyffredinol iddynt ac i gymryd rhan mewn prosiectau lleol mwy sylweddol. Mae'r galluogrwydd hwn yn arbennig o bwysig o ystyried y cyd-destun ariannol a demograffig heriol yn y dyfodol.

Cred Gweinidogion Cymru y dylai'r potensial i grwpio cymunedau fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn a diduedd, ac y dylid ymchwilio i hynny'n annibynnol. Er y byddai unrhyw adolygiad annibynnol yn ystyried lle y gellid grwpio cymunedau llai o faint, mae'n bwysig peidio ag achub y blaen ar ei ganlyniadau.

Nodwyd y cynnig i grwpio cymunedau o dan Gynghorau Cymuned cyffredin yn y Papur Gwyn. Roedd 46 y cant o'r ymatebwyr i'r ymgynghoriad ar-lein o blaid uno neu ehangu ardaloedd Cynghorau Cymuned, ond anghytunodd 35 y cant, ac nid oedd 19 y cant yn cytuno ac yn anghytuno. Anghytunodd y rhan fwyaf o ymatebion gan Gynghorau Cymuned â'r cynnig, gan awgrymu y byddai ardaloedd

mwy o faint yn groes i egwyddorion lleoliaeth. Roedd y rhan fwyaf o Gynghorau Sir yn gefnogol, a hefyd CLlLC, ar yr amod bod camau yn cael eu cymryd i gynnal y cysylltiadau rhwng Cynghorau Cymuned a chymunedau lleol.

## Opsiynau

Mae tri opsiwn wedi cael eu nodi:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned yn eu hardal
- Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned ym mhob ardal Cyngor Sir

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

## DISGRIFIAD

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol. Ni châi manteision diwygio Cynghorau Cymuned eu gwireddu ac efallai na fyddai Cynghorau Cymuned llai o faint yn gallu achub ar gyfleoedd i ehangu'r amrywiaeth o amwynderau y maent yn eu darparu i'w cymunedau.

## Opsiwn 2 – Ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned yn eu hardal

## DISGRIFIAD

Hwn oedd yr opsiwn a ffefrir yn y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol: Grym i Bobl Leol.* Byddai'n ofynnol i ganlyniadau'r adolygiad gael eu gweithredu erbyn etholiadau 2023, fel y byddai Cynghorwyr Cymuned a etholir yn yr etholiadau hynny yn aelodau o'r Cynghorau Cymuned newydd. Gan barchu egwyddor sybsidiaredd, roedd Gweinidogion Cymru o'r farn mai Cynghorau Sir a ddylai gynnal yr adolygiad, yn unol â'u cyfrifoldebau arweiniad cymunedol.

Yn yr ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn, cafodd y cynnig hwn ei gefnogi gan 58 y cant o ymatebwyr ar-lein. Roedd 12 o Gynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol a CLlLC o blaid y cynnig, gyda rhai'n pwysleisio manteision gwybodaeth leol gadarn Cynghorau Cymuned. Mynegodd pum Cyngor Sir bryderon y byddai'r cynnig yn effeithio ar y berthynas waith rhwng Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned.

Dadleuodd 17 o 22 o Gynghorau Sir a CLlLC yn erbyn cwblhau'r adolygiad erbyn 2022 oherwydd y pwysau sylweddol eraill sy'n debygol o gael eu rhoi ar Lywodraeth Leol fel rhan o'r diwygiadau ehangach. Pe na bai adolygiad o'r fath yn cael ei gwblhau na'i weithredu erbyn 2023, yna'r dyddiad cynharaf nesaf ar gyfer etholiadau cyffredin lle y gellid gweithredu'r adolygiad yw 2028. Felly, ar ôl ystyriaeth bellach, ni chred Gweinidogion Cymru fod hwn yn opsiwn dichonol, o ystyried y dewisiadau anodd sy'n wynebu'r sector cyhoeddus yn y byrdymor a'r tymor canolig. Felly, nid yw costau na manteision yr opsiwn hwn wedi cael eu hystyried.

## Opsiwn 3 – Ei gwneud yn ofynnol i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned ym mhob ardal Cyngor Sir

## DISGRIFIAD

Byddai Opsiwn 3 yn gosod dyletswydd ar y Comisiwn i gynnal adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned yn yr ardaloedd Cyngor Sir newydd, ac wrth gynnal adolygiad, mae'n rhaid iddo geisio sicrhau Llywodraeth Leol effeithiol a chyfleus. Byddai'n ofynnol i'r Comisiwn ymgynghori'n eang ynghylch yr adolygiad, gan gynnwys:

- cymunedau sy'n cael eu gwasanaethu ac nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan Gyngor Cymuned;
- Cynghorau Sir;
- unrhyw Gyngor Cymuned y mae'r adolygiad yn effeithio arno, ac unrhyw sefydliadau sy'n cynrychioli Cynghorau Cymuned neu eu staff.

Byddai'r Comisiwn yn adolygu trefniadau cyfansoddiadol ac etholiadol Cynghorau Cymuned, nid ffiniau cymunedau, ac eithrio o ganlyniad i'r adolygiad hwn. Caiff y Comisiwn argymell y gellid lleihau nifer y Cynghorau Cymuned drwy grwpio cymunedau llai o faint o dan Gynghorau Cymuned cyffredin newydd. Byddai Cynghorau Cymuned newydd yn gwasanaethu un gymuned neu fwy, yn hytrach na thorri ar draws ffiniau presennol cymunedau. Câi argymhellion y Comisiwn eu gweithredu gan y Cynghorau Sir newydd.

Bwriedir i'r ddyletswydd ar y Comisiwn gychwyn yn 2017, gan ei gwneud yn bosibl i adolygiad cynhwysfawr gael ei weithredu ar gyfer etholiadau Llywodraeth

Leol 2023. Yn ymarferol, nid yw'r gwaith yn debygol o ddechrau tan 2018, ar ôl yr adolygiad o ardaloedd Cyngor Sir. Mae'r Comisiwn yn hyderus bod ganddo ddigon o adnoddau a gallu.

Bydd gan Weinidogion Cymru bwerau i gyfarwyddo'r Comisiwn o ran ei swyddogaeth adolygu. Gallent hefyd roi canllawiau statudol i'r Comisiwn ac i Gynghorau Sir ynglŷn â rhoi newidiadau ar waith. Er mwyn sicrhau sefydlogrwydd yn ystod cyfnod yr adolygiad, byddai Gweinidogion Cymru yn atal y gallu i wneud ceisiadau cymuned i greu, uno neu ddiddymu Cynghorau Cymuned tra pery'r adolygiad ac am gyfnod o ddwy flynedd o leiaf ar ôl hynny.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, byddai Opsiwn 3 yn gosod cost ychwanegol o naill ai **£733,400** neu **£842,300**, yn dibynnu ai wyth neu naw Cyngor Sir fyddai yng Nghymru.

**Tabl 22: Costau Bwriadau Polisi**

| | 2017/18 | | 2018/19 a 2019/20 | | Cyfanswm* | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Bwriadau Polisi** | **Isaf** | **Uchaf** | **Isaf** | **Uchaf** | **Isaf** | **Uchaf** |
| Llywodraeth Cymru | | | | | | |
| Costau Staff - Paratoi Canllawiau i CDLFfC | £7,400 | £7,400 | - | - | £7,400 | £7,400 |
| Adolygiad o ardaloedd Cynghorau Cymuned a Thref | £113,400 | £146,200 | £612,500 | £688,700 | £725,900 | £834,900 |
| **Cyfanswm Cost** | **£120,800** | **£153,600** | **£612,500** | **£688,700** | **£733,400** | **£842,300** |

**Yn seiliedig ar orwel cynllunio o 10 mlynedd*

### *Costau i Lywodraeth Cymru (gan gynnwys y Comisiwn)*

Byddai'r gwaith o baratoi cyfarwyddiadau i'r Comisiwn a chanllawiau i Gynghorau Sir yn gosod cost ychwanegol ar Lywodraeth Cymru. Amcangyfrifir y byddai costau staffio untro, gan gynnwys costau cyfieithu, o £7,400.

Byddai gofyniad ar y Comisiwn i adolygu ardaloedd Cyngor Cymuned yn gosod cost ychwanegol. Mae Llywodraeth Cymru yn talu am gost lawn y Comisiwn, fel arfer drwy grant blynyddol o £520,000. Er y disgwylir i'r adolygiad o Gynghorau Cymuned gyfrif am y rhan fwyaf o waith y Comisiwn yn ystod y cyfnod hwn, bydd yn costio dipyn yn fwy na busnes arferol. Byddai angen arian ychwanegol ar gyfer adolygiad y Comisiwn o ardaloedd Cyngor Sir (gweler Rhan 1) a'r adolygiadau o ardaloedd Cyngor Cymuned. Mae'r Comisiwn yn amcangyfrif y byddai ei wariant ar adolygiad tair blynedd o Gynghorau Cymuned yn gwneud cyfanswm o rhwng £2,286,000 a £2,395,000. Mae cyllid arferol Llywodraeth Cymru i'r Comisiwn ar gyfer y tair blynedd hynny yn gwneud cyfanswm o £1,560,000. Felly, byddai cost ychwanegol o £725,900 neu £834,900 ar gyfer yr adolygiad hwn, yn dibynnu ar nifer y Cynghorau Sir newydd yng Nghymru. Nid ystyrir y byddai cost cyfle i'r gwaith hwn gan y byddai'r Comisiwn newydd gwblhau cylch llawn o adolygiadau etholiadau i'r Cynghorau Sir a bydd y gwaith hwn yn rhan o'i raglen waith arferol.

Mae'r gost ychwanegol i'r Comisiwn yn dibynnu ai wyth neu naw Cyngor Sir fyddai. Bydd yn mynd i gostau pellach drwy gydgysylltu â Chyngor Sir

ychwanegol, ymweliadau ychwanegol gan Aelodau, a chyhoeddi adroddiad ychwanegol. At hynny, mae pob un o swyddogion y Comisiwn yn rheoli dau adolygiad ar yr un pryd, felly byddai angen swyddog ychwanegol pe bai naw Cyngor Sir.

Ni fyddai'r costau hyn yn codi yn ôl patrwm rheolaidd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd o 2018-19 i 2020-21, a hynny'n rhannol am y byddai'r treuliau argraffu sylweddol sydd ynghlwm â hyn yn codi tua diwedd yr adolygiad. Ceir dadansoddiad manwl o'r costau yn Atodiad B.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Byddai gofyniad ar Gynghorau Sir i weithredu argymhellion yr adolygiad yn gosod cost a fyddai'n cynnwys drafftio a chyhoeddi'r gorchmynion gweithredu. Gallai'r rhain fod yn seiliedig ar dempled syml a ddarperir gan y Comisiwn. Byddai'r gost wirioneddol yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad, ond ni ddisgwylir iddi fod yn sylweddol.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Byddai Opsiwn 3 yn darparu adolygiad annibynnol o drefniadau Cynghorau Cymuned, a allai arwain at haen gryfach a mwy galluog o'r llywodraeth sydd agosaf at gymunedau lleol. Byddai Opsiwn 3 yn sicrhau y gellid gweithredu argymhellion erbyn etholiadau Llywodraeth Leol 2023.

Gallai lleihad yn nifer y Cynghorau Cymuned leihau cost etholiadau. Fodd bynnag, ni ddylid achub y blaen ar ganlyniadau'r adolygiad ar hyn o bryd, a chaiff unrhyw arbedion eu mesur fel rhan o'r adolygiad.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r sefyllfa bresennol.

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i Gynghorau Sir adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned. Gan yr ystyrir na fyddai hyn yn darparu adolygiad mewn pryd i'w weithredu erbyn etholiadau Llywodraeth Leol 2023, nid ystyrir bod yr opsiwn hwn yn ddichonadwy.

Mae Opsiwn 3 yn cynnig y dylid ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn adolygu trefniadau Cynghorau Cymuned ac y dylai'r Cynghorau Sir weithredu argymhellion y Comisiwn erbyn etholiadau Llywodraeth Leol 2023. Byddai hyn yn gosod costau ychwanegol o £733,400 neu £842,300.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 3 yw’r opsiwn a ffefrir am y byddai’n arwain at Gynghorau Cymuned sydd â mwy o allu a chymhwysedd i gefnogi eu cymunedau.

## 3.2. <u>Cynghorau Cymuned â chymhwysedd (a31-35)</u>

### Cefndir

Mae 735 o Gynghorau Cymuned a Thref (‘Cynghorau Cymuned’) yng Nghymru. Maent yn cwmpasu tua 94 y cant o arwynebedd tir Cymru a 70 y cant o boblogaeth Cymru. Mae’r cymunedau a wasanaethir ganddynt yn amrywio o aneddiadau gwledig bach i drefi mwy o faint. Mae’r poblogaethau a wasanaethir ganddynt yn amrywio o 179 (Ganllwyd) i 45,145 (y Barri). Mae dros ddau bob tri Chyngor Cymuned yn gwasanaethu poblogaethau o lai na 2,500.

Mae pob Cyngor Cymuned yn pennu natur ac amrywiaeth y gwasanaethau lleol a ddarperir ganddo. Mae rhai yn darparu amrywiaeth eang o amwynderau tra bod eraill yn cynnig gwasanaethau mwy cyfyngedig. Maent yn aml yn gyfyngedig eu gallu a’u cymhwysedd, a all gael effaith uniongyrchol ar eu gallu i ymaddasu yn y dyfodol.

Gall Cynghorau Cymuned gynnwys Aelodau Etholedig a Chyfetholedig. Yn ystod yr etholiad diwethaf, dim ond un o bob pum Cynghorydd Cymuned a etholwyd drwy bleidlais gyhoeddus. Roedd 67 y cant o seddi ag un ymgeisydd yn unig ac nid oedd unrhyw ymgeiswyr mewn 12 y cant arall o seddi.

Nod y Bil Drafft yw atgyfnerthu’r haen hon o Lywodraeth Leol, fel y bydd mewn sefyllfa well i fod yn rhan o wasanaeth cyhoeddus Cymru yn y dyfodol a gall gyfrannu’n well at gynnal cymunedau cydnerth. Mae hyn yn cynnwys meithrin gallu ac atgyfnerthu trefniadau llywodraethu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae’r swyddogaethau sydd ar gael i Gynghorau Cymuned yn rhagnodol iawn. Y bwriad yw y bydd Cynghorau Cymuned a all ddangos eu cymhwysedd yn gallu defnyddio’r pŵer cymhwysedd cyffredinol, sef pŵer sylweddol i’w ddefnyddio fel man cychwyn a fydd yn rhoi mwy o ryddid iddynt fod yn uchelgeisiol ac arloesol. Cytunodd 75 y cant o’r ymatebwyr ar-lein i’r ymgynghoriad ynghylch y Papur Gwyn *Diwygio Llywodraeth Leol*: *Grym i Bobl Leol* y dylai Cynghorau Cymuned fod yn destun profion cymhwysedd yn gyfnewid am fwy o hawliau a chyfrifoldebau. Anghytunodd 16 y cant ac nid oedd 10 y cant yn cytuno nac yn anghytuno.

Roedd 11 o’r 15 Cyngor Sir a Bwrdeistref Sirol a CLlLC yn gefnogol yn gyffredinol i gyflwyno profion cymhwysedd i Gynghorau Cymuned. Roedd Un Llais Cymru yn cefnogi bwriad y polisi, ond nododd ei bryder nad oedd y cynigion yn cael eu trafod ar yr un pryd â rolau a chyfrifoldebau Cynghorau Cymuned.

Cynigiodd y Papur Gwyn hefyd mai un o’r amodau i gael ei ystyried yn gymwys fyddai cyllideb flynyddol o £200,000 o leiaf. Anghytunodd y mwyafrif o ymatebwyr. Mae Gweinidogion Cymru wedi ystyried yr ymatebion manwl i’r cynnig hwn, ac wedi penderfynu na ddylai prawf trothwy ariannol fod yn rhan o’r amodau cymhwysedd.

## Opsiynau

Y ddau opsiwn a gynigir yw:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Sefydlu system o Gynghorau Cymuned ‘â chymhwysedd’ a fyddai’n gallu defnyddio pwerau ychwanegol megis y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

## DISGRIFIAD

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn golygu unrhyw newidiadau i’r trefniadau presennol ac ni fyddai Cynghorau Cymuned yn gallu defnyddio’r pŵer cymhwysedd cyffredinol.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Gynghorau Cymuned na Llywodraeth Cymru.

## MANTEISION

### *Manteision i Lywodraeth Leol a Llywodraeth Cymru*

Ni fyddai’r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw fanteision ychwanegol i Lywodraeth Leol na Llywodraeth Cymru. At hynny, o ystyried yr heriau ariannol a wynebir gan Gynghorau Sir a’r potensial i ddirprwyo neu drosglwyddo cyfleusterau a gwasanaethau pellach i Gynghorau Cymuned, mae gwneud dim yn eu hatal rhag ymateb yn effeithiol.

## Opsiwn 2 – Sefydlu system o Gynghorau Cymuned ‘â chymhwysedd’

## DISGRIFIAD

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid sefydlu amodau y mae’n rhaid i Gynghorau Cymuned eu bodloni er mwyn cael eu hystyried yn Gyngor Cymuned â chymhwysedd. Penderfyniad Cynghorau Cymuned fyddai hyn pe dymunent. Ni fyddai’n ofyniad.

Byddai angen i Gynghorau Cymuned â chymhwysedd gyflawni safonau uwch o ran llywodraethu a rheoli ariannol, galluogrwydd proffesiynol a mwy o

atebolrwydd democrataidd. Byddai hyn yn gwella cysondeb a phroffesiynoldeb y sector. Byddai Cynghorau Cymuned sy'n bodloni'r amodau yn gallu arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol (gweler 1.1 uchod).

Yr amodau arfaethedig yw:

1. Mae'n rhaid bod isafswm cyfran o Gynghorwyr ar y Cyngor Cymuned wedi'u datgan yn etholedig.
2. Mae'n rhaid i'r Cyngor Cymuned gyflogi clerc sydd â chymwysterau proffesiynol perthnasol.
3. Mae'n rhaid nad yw'r Cyngor wedi cael barn amodol ar ei gyfrifon yn y ddwy farn archwilio fwyaf diweddar.

Er mwyn helpu Cynghorau Cymuned i fodloni'r meini prawf hyn, byddai Gweinidogion Cymru yn rhoi canllawiau i Gynghorau Cymuned. Byddai'n ofynnol i Gynghorau Cymuned roi sylw priodol i'r canllawiau.

Rhagwelir y byddai'r ddarpariaeth hon yn cychwyn yn 2017 fel y byddai'r pŵer cymhwysedd cyffredinol ar gael i Gynghorau Cymuned perthnasol ar y cyfle cyntaf oll.

## COSTAU

Dros ddeng mlynedd, amcangyfrifir y byddai Opsiwn 2 yn costio rhwng **£223,800** a **£343,600**.

### Tabl 23: Costau Bwriadau Polisi

| Costau Bwriadau Polisi | 2017/18 Isaf | 2017/18 Uchaf | 2018/19 i 2019/20 Isaf | 2018/19 i 2019/20 Uchaf | Cyfanswm Isaf | Cyfanswm Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llywodraeth Leol | | | | | | |
| Hyfforddi Clercod Cynghorau Cymuned | £47,900 | £77,900 | £161,700 | £251,600 | £209,700 | £329,500 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Leol** | **£47,900** | **£77,900** | **£161,700** | **£251,600** | **£209,700** | **£329,500** |
| Llywodraeth Cymru | | | | | | |
| Cost Staff - Paratoi Canllawiau | £14,100 | £14,100 | - | - | £14,100 | £14,100 |
| **Cyfanswm Cost Llywodraeth Cymru** | **£14,100** | **£14,100** | **-** | **-** | **£14,100** | **£14,100** |
| **Cyfanswm Cost** | **£62,100** | **£92,000** | **£161,700** | **£251,600** | **£223,800** | **£343,600** |

### *Y gost i Lywodraeth Cymru*

Byddai'r gwaith o roi canllawiau i Gynghorau Cymuned yn gosod cost ychwanegol o £14,000.

### *Costau i Lywodraeth Leol*

Ni fyddai statws Cyngor Cymuned 'â chymhwysedd' ynddo'i hun yn gosod unrhyw gostau ychwanegol. Câi unrhyw gostau sy'n codi o ganlyniad i ddefnyddio'r pwerau ychwanegol a roddir i Gynghorau Cymuned â chymhwysedd eu harfarnu gan y Cynghorau Cymuned eu hunain.

Rhagwelir y byddai llawer o Gynghorau Cymuned yn ymdrechu i fodloni'r amodau, a all osod cost ychwanegol. Er bod y costau hyn wedi'u hamcangyfrif isod, mae'n bwysig nodi y byddai'r cynllun arfaethedig hwn yn wirfoddol ac na fyddai Cynghorau Cymuned yn mynd i unrhyw gostau o anghenraid.

Amod 1: mae'n rhaid bod isafswm cyfran o Gynghorwyr ar y Cyngor Cymuned wedi'u datgan yn etholedig

Ni fyddai'r amod hon yn gosod unrhyw gostau ychwanegol i Gynghorau Cymuned.

Amod 2: Mae'n rhaid i'r Cyngor Cymuned gyflogi clerc sydd â chymwysterau proffesiynol perthnasol

Mae'r costau hyn yn seiliedig ar hyfforddiant i'r clercod presennol i lefel cymhwyster CiLCA proffesiynol, fel y'i cydnabyddir gan Gymdeithas Clercod Cynghorau Lleol. Mae Llywodraeth Cymru wedi ariannu Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol ers rhai blynyddoedd er mwyn hyrwyddo, gweinyddu a rhoi hyfforddiant mewn CiLCA i glercod yng Nghymru. Mae'r costau a gyfrifwyd yn yr adran hon yn ychwanegol at y cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i CiLCA.

Tybiwyd y byddai cost yr hyfforddiant i'r clercod presennol yn cael ei rhannu dros gyfnod o dair blynedd. Amcangyfrifwyd hefyd y byddai isafswm o 350 o glercod ac uchafswm o 550 o glercod yn ceisio ennill y cymhwyster. Gallai'r nifer hon ostwng yn sylweddol o ganlyniad i'r adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned (3.1).

Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o £600 ar gyfer pob cymhwyster. Mae hyn yn cynnwys costau cofrestru (£250), cwrs cyflwyno (£99), a chymhwyster llawn yn y maes (£250). Yn dibynnu ar nifer y clercod y mae angen eu hyfforddi, amcangyfrifir y byddai cost i Lywodraeth Leol ym mhob blwyddyn fel a ganlyn:

2017/18: £47,900 i £77,900

2018/19: £71,900 i £107,800

2019/20: £89,900 i £143,800

Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o rhwng £237,900 a £357,700 dros y cyfnod o dair blynedd.

Amod 3: Mae'r Cyngor wedi cael barn archwilio ddiamod ar ei gyfrifon am ddwy flynedd yn olynol

Ni fyddai'r amod hon yn gosod unrhyw gostau ychwanegol i Gynghorau Cymuned. Dylid mynd i'r afael ag argymhellion a wneir gan archwilwyr fel rhan o fusnes arferol.

## MANTEISION

### *Manteision i Gynghorau Cymuned*

Byddai gwella effeithiolrwydd Cynghorau Cymuned drwy eu hannog i gyrraedd statws Cynghorau Cymuned â chymhwysedd yn helpu i sicrhau bod Cynghorau Cymuned yn gallu ymaddasu at yr heriau a wynebir gan y gwasanaethau cyhoeddus a byddai'n rhoi mwy o hyder i Gynghorau Sir ddirprwyo neu drosglwyddo asedau a gwasanaethau iddynt.

Disgwylir i'r Cynghorau ennill statws cymhwysedd a fyddai'n arwain at fwy o gyfranogiad democrataidd a chymunedol, mwy o atebolrwydd a thryloywder, a gwell defnydd o arian cyhoeddus.

### *Manteision i bobl eraill*

Gallai Cynghorau Cymuned â chymhwysedd gynnig Cynghorau mwy galluog ac uchelgeisiol i gymunedau, gan gynyddu hyder y cyhoedd ynddynt, gan gynnwys yn y ffordd y maent yn darparu gwasanaethau.

Gallai hyder y cyhoedd mewn Cynghorau Cymuned atgyfnerthu democratiaeth leol a gallai mwy o bobl ddod yn rhan o benderfynu ar y flaenoriaeth ar gyfer eu hardal leol.

### Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am y byddai'n galluogi Cynghorau Cymuned i fod yn fwy uchelgeisiol ac arloesol a rhoi mwy hyder mewn Cynghorau Cymuned.

# 4. Materion sy’n ymwneud â’r Gweithlu

## 4.1. Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus ar Faterion sy’n ymwneud â’r Gweithlu a Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus (a172-178)

Dim ond un rhan o agenda uchelgeisiol i drawsnewid gwasanaethau cyhoeddus yw ailstrwythuro a diwygio Llywodraeth Leol. Ym mis Medi 2015, sefydlwyd Comisiwn Staff anstatudol i’ Gwasanaethau Cyhoeddus anstatudol i gyflawni blaenoriaethau strategol Gweinidogion Cymru ynglŷn â gweithlu’r sector cyhoeddus:

- creu gweithlu brwdfrydig, llawn cymhelliant ac uchel ei berfformiad;
- denu a chadw talent;
- datblygu sgiliau;
- sicrhau cydraddoldeb ac amrywiaeth.[13]

Bydd y Comisiwn Staff yn ceisio sicrhau yr ymdrinnir â materion sy’n ymwneud â’r gweithlu mewn ffordd gyson ac effeithiol, drwy weithio gyda rhanddeiliaid er mwyn ystyried materion a datblygu cyngor i Weinidogion Cymru i’w roi i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus. Bwriedir i’r Comisiwn ystyried amrywiaeth eang o faterion sy’n ymwneud â’r gweithlu a wynebir gan bob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, yn hytrach na materion sy’n deillio o Lywodraeth Leol fel rhan o agenda Diwygio Llywodraeth Leol.

Mae achosion o uno cyrff cyhoeddus yn y gorffennol wedi cael eu hategu gan Gomisiynau Staff, a hynny ar sail statudol yn aml. Drwy osod y Comisiwn Staff ar sail statudol gellid ei alluogi i roi cyngor mwy awdurdodol i Weinidogion Cymru, mwy o sicrwydd i weithlu’r sector cyhoeddus, a therfynau amser clir ar gyfer cwblhau ei waith.

Ni fwriedir achub y blaen ar gost gweithredu’r cyngor yma, gan y bydd y Comisiwn ei hun yn rhoi cyfrif am y costau a’r manteision posibl sy’n gysylltiedig â’i gyngor.

**OPSIYNAU**

Ystyriwyd dau opsiwn:

- Opsiwn 1 – Gwneud dim
- Opsiwn 2 – Sefydlu Comisiwn Staff ar sail statudol

[13] *Datganoli, Democratiaeth a Chyflawni: Gwella Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer Pobl yng Nghymru,* Gorffennaf 2014

## Opsiwn 1 – Gwneud dim

### DISGRIFIAD

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw newidiadau. Byddai’r Comisiwn Staff yn parhau i weithredu fel corff anstatudol.

### COSTAU

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus o fewn cylch gwaith y Comisiwn Staff nac i Lywodraeth Cymru. Byddai’r gost flynyddol bresennol o £530,000 i Lywodraeth Cymru yn parhau.

### MANTEISION

Ni fyddai Opsiwn 1 yn cyflwyno unrhyw fanteision ychwanegol.

## Opsiwn 2 - Rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff cyhoeddus ar faterion sy’n ymwneud â’r gweithlu a sefydlu Comisiwn Staff statudol i roi cyngor i Weinidogion Cymru ynglŷn â materion sy’n ymwneud â’r gweithlu

### DISGRIFIAD

Mae Opsiwn 2 yn cynnig y dylid sefydlu’r Comisiwn Staff mewn deddfwriaeth a rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi canllawiau ar faterion sy’n ymwneud â’r gweithlu i gyrff cyhoeddus a enwyd, y mae’n rhaid iddynt roi sylw iddynt. Mae materion sy’n ymwneud â’r gweithlu yn cynnwys materion megis cynllunio’r gweithlu, recriwtio, rheoli a thalu staff, hyfforddiant a datblygu ac ati.

Bwriedir y byddai’r darpariaethau ynglŷn â’r Comisiwn Staff yn cychwyn ar ddiwedd 2017 neu ddechrau 2018 ac y byddai’n gweithredu tan fis Ebrill 2021 pan gâi ei ddiddymu. Cynigir y byddai gan Weinidogion Cymru bŵer i estyn oes y Comisiwn hyd at fis Ebrill 2023, os bydd angen, ond ddim hwyrach na hynny. Byddai statws Comisiwn statudol yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid y byddai’r Comisiwn Staff yn dal i fod ar waith i gefnogi’r cyfnod hwn o ddiwygiadau gwasanaethau cyhoeddus.

Swyddogaethau’r Comisiwn Staff fyddai cynghori Gweinidogion Cymru ynglŷn â materion sy’n ymwneud â’r gweithlu, gyda phwerau i ofyn am wybodaeth gan gyrff cyhoeddus i’w helpu i baratoi ei gyngor. Gallai Gweinidogion Cymru roi canllawiau i gyrff cyhoeddus, ar ôl ystyried y cyngor perthnasol a baratoir gan y Comisiwn Staff. Y cyrff cyhoeddus fyddai:

- Cynghorau Sir

- Cynghorau Cymuned
- Awdurdodau Tân ac Achub
- corff llywodraethu ysgol neu ffederasiwn a gynhelir
- Byrddau Iechyd Prifysgol ac Ymddiriedolaethau'r GIG
- Awdurdodau Parciau Cenedlaethol
- Cyngor Celfyddydau Cymru
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Comisiwn Democratiaeth Leol a Ffiniau Cymru
- Llyfrgell Genedlaethol Cymru
- Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Corff Cyfoeth Adnoddau Cymru
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- Cyngor Chwaraeon Cymru.

Gofynnodd y Papur Gwyn *Comisiwn Staff i'r Gwasanaethau Cyhoeddus* am farn ynghylch a fyddai gosod y Comisiwn Staff ar sail statudol yn rhoi mwy o statws iddo. Nododd tua 20 o ymatebion gan Awdurdodau Lleol nad oedd ganddynt farn gref, yn hytrach, canolbwyntiwyd ar ddidueddrwydd y Comisiwn Staff. Fodd bynnag, teimlai pedwar undeb llafur yn gryf y byddai gosod y Comisiwn Staff ar sail statudol yn rhoi mwy o statws iddo. Teimlai nifer o gyrff cyhoeddus eraill y byddai i'r Comisiwn fwy o statws pe bai'n cael ei dderbyn yn llawn gan y rhanddeiliaid allweddol, sef rhywbeth y gellid ei gyflawni drwy ei wneud yn statudol, o ystyried ymateb yr undebau llafur.

## COSTAU

### *Costau i Lywodraeth Cymru*

Ni fyddai Opsiwn 2 yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i Lywodraeth Cymru. Ni fyddai angen unrhyw gomisiynwyr na staff cymorth ychwanegol ar gyfer Comisiwn Staff statudol. Mae'r Comisiwn Staff anstatudol presennol yn costio £530,000 y flwyddyn a byddai hyn yn parhau.

### *Costau i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus o fewn cylch gwaith y Comisiwn Staff (gan gynnwys Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned)*

Ni fyddai Comisiwn Staff statudol yn cyflwyno unrhyw gostau ychwanegol i sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus o fewn ei gylch gwaith. Efallai y bydd angen i sefydliadau ddarparu gwybodaeth i'r Comisiwn Staff, ond dylai hyn fod yn

wybodaeth reoli sydd eisoes ar gael yn barod o fewn systemau gwybodaeth presennol sefydliadau ac nid yw'n debygol o achosi baich gweinyddol sy'n ychwanegol at fusnes arferol.

Nid yw ystyriaeth cyrff cyhoeddus o ganllawiau statudol a roddir gan Lywodraeth Cymru yn debygol o gyflwyno costau ychwanegol. Mae'n ofynnol eisoes i wasanaethau cyhoeddus ystyried cyngor statudol ar nifer o faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu, er enghraifft, gan yr Adran Gwaith a Phensiynau, CThEM ac eraill, ac mae'n rhan hollbwysig o fusnes arferol yn y gwasanaethau cyhoeddus.

Pan fydd y Comisiwn Staff yn rhoi cyngor i Weinidogion Cymru, y gallant wedyn ei ymgorffori mewn canllawiau i gyrff cyhoeddus, bydd y Comisiwn Staff yn asesu costau a manteision posibl ei gyngor, na ddylid achub y blaen arno yma.

## MANTEISION

Gellid ystyried y byddai i Gomisiwn Staff statudol fwy o statws na Chomisiwn Staff anstatudol. Gallai hyn roi mwy o awdurdod iddo pan fydd yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â chyrff cyhoeddus o ran rhoi cyngor i Weinidogion Cymru.

Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru nifer o gyfrifoldebau a phwerau o ran cyrff y sector cyhoeddus a restrir. Byddai deddfwriaeth yn creu un ddyletswydd statudol glir i sefydliadau o fewn cylch gwaith y Comisiwn i roi sylw i unrhyw ganllawiau statudol a roddir gan Weinidogion Cymru ynglŷn â materion sy'n ymwneud â'r gweithlu a dangos sut maent wedi gwneud hynny. Felly, byddai angen cyfiawnhad cadarn gan sefydliadau dros anwybyddu ei gyngor, sy'n golygu y byddai'r cyngor yn fwy tebygol o gael ei ystyried a chael effaith ar faterion sy'n ymwneud â'r gweithlu.

Byddai Comisiwn Staff statudol hefyd yn fwy parhaol ei natur, gan na allai gael ei ddiddymu o fewn ei oes statudol heb ddeddfwriaeth benodol i wneud hynny. Mae sicrhau bodolaeth y Comisiwn Staff mewn deddfwriaeth yn debygol o gynyddu hyder a sicrwydd ymhlith gweithlu'r sector cyhoeddus, undebau llafur cydnabyddedig, cyflogwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill.

## Crynodeb

Nid yw Opsiwn 1 yn cynnig unrhyw newidiadau i'r trefniadau presennol, gan gadw Comisiwn Staff anstatudol. Ni fyddai unrhyw gostau ychwanegol yn cael eu cyflwyno.

Byddai Opsiwn 2 yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru roi canllawiau a nodi rôl a chylch gwaith y Comisiwn Staff mewn statud.

## Yr Opsiwn a Ffefrir

Opsiwn 2 yw’r opsiwn a ffefrir am y byddai’n rhoi mwy o hyder i gyflogeion y sector cyhoeddus, cyrff cyhoeddus ac undebau llafur.

# 5. Crynodeb yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol

## 5.1. Costau

Mae amrywiaeth eang o gostau yn gysylltiedig â’r Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o rhwng **£1.9 miliwn** a **£2.1 miliwn** i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â’r bwriadau polisi a nodir uchod, sydd â Gwerth Presennol Net cyfatebol o rhwng **£1.6 miliwn** a **£1.7 miliwn**.

Amcangyfrifir y byddai cyfanswm cost o rhwng **£18.8 miliwn** a **£19.1 miliwn rhwng 2017/18** a **2029/30** i Lywodraeth Leol mewn perthynas â’r bwriadau a nodir uchod. Mae i hyn Werth Presennol Net o rhwng **£14.7 miliwn** a **£14.9 miliwn**. Mae’r rhan fwyaf o’r costau ychwanegol hyn i Lywodraeth Leol o ganlyniad i sefydlu pwyllgorau ardaloedd cymunedol.

Dengys y tablau isod ddadansoddiad o’r costau ar gyfer pob bwriad polisi. Gellir cael rhagor o fanylion am y cyfrifiadau sy’n sail i’r costau a gyflwynir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft hwn yn Atodiad B.

# Tablau Cost Cryno

## Costau Llywodraeth Leol

| Bwriad Polisi | Yr Opsiwn a Ffefrir | 2017/18 | | 2018/19 | | 2019/20 | | 2020/21 i 2029/30 | | Cyfanswm | | GPN | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf | Isaf | Uchaf |
| Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (PCC) (1.1) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol (1.2) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | £113,500 | £127,700 | £673,900 | £758,100 | **£787,400** | **£885,800** | **£616,300** | **£629,100** |
| Pwyllgorau ardaloedd cymunedol (1.3) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | £1,846,600 | £1,864,800 | £15,312,300 | £15,312,300 | **£17,158,900** | **£17,177,100** | **£13,340,000** | **£13,356,400** |
| Ceisiadau Gwella (1.4) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Darlledu a Ffilmio Cyfarfodydd Cynghorau (1.5) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Canllaw i'r Cyfansoddiad (1.6) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | £43,100 | £47,300 | **£43,100** | **£47,300** | **£37,600** | **£41,200** |
| Dyletswyddau ar Gynghorwyr Sir a Chymuned (1.7) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | £8,100 | £8,100 | - | - | **£8,100** | **£8,100** | **£7,300** | **£7,300** |
| Adroddiadau Blynyddol a Pherfformiad Cynghorwyr Sir (1.8) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | £8,100 | £8,100 | **8,100** | **8,100** | **£7,100** | **£7,100** |
| Dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad (1.9) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Rolau a chyfrifoldebau Arweinwyr a Meiri Etholedig (1.10) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Ystyriaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth Benodi Aelodau'r Cabinet a Chynorthwywyr y Weithrediaeth (1.11) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu (1.12) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Cyd-bwyllgorau Craffu (1.13) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Cynlluniau Corfforaethol (2.1) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Hunanasesiadau ac Asesiadau gan Gymheiriaid (2.2) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Asesiadau Cyfun a Chydgysylltu rhwng Rheoleiddwyr (2.3) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Ymyrryd (2.4) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (2.5) | Opsiwn 2 | £57,600 | £64,800 | £57,600 | £64,800 | £57,600 | £64,800 | £403,200 | £453,600 | **£576,000** | **£648,000** | **£479,000** | **£538,900** |
| Adolygiad o Gynghorau Cymuned (3.1) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| Cyngor Cymuned â chymhwysedd (3.2) | Opsiwn 2 | £47,900 | £77,900 | £71,900 | £107,800 | £89,900 | £143,800 | - | - | **£209,700** | **£329,500** | **£194,500** | **£305,600** |
| Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus ar Faterion sy'n ymwneud â'r Gweithlu a Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus (4.1) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | **-** | **-** | **-** | **-** |
| **Cyfanswm** | | **£105,500** | **£142,700** | **£129,500** | **£172,600** | **£2,115,700** | **£2,209,200** | **£16,440,600** | **£16,579,400** | **£18,791,300** | **£19,103,900** | **£14,681,800** | **£14,885,700** |

# Costau Llywodraeth Cymru

| Bwriad Polisi | Yr Opsiwn a Ffefrir | 2017/18 Isaf | 2017/18 Uchaf | 2018/19 Isaf | 2018/19 Uchaf | 2019/20 Isaf | 2019/20 Uchaf | 2020/21 i 2029/30 Isaf | 2020/21 i 2029/30 Uchaf | Cyfanswm Isaf | Cyfanswm Uchaf | GPN Isaf | GPN Uchaf |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (PCC) (1.1) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol (1.2) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | £4,800 | £4,800 | - | - | **£4,800** | **£4,800** | **£4,300** | **£4,300** |
| Pwyllgorau ardaloedd cymunedol (1.3) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | £16,600 | £16,600 | - | - | **£16,600** | **£16,600** | **£15,000** | **£15,000** |
| Ceisiadau Gwella (1.4) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Darlledu a Ffilmio Cyfarfodydd Cynghorau (1.5) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | £5,100 | £5,100 | **£5,100** | **£5,100** | **£4,400** | **£4,400** |
| Canllaw i'r Cyfansoddiad (1.6) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | £12,600 | £12,600 | **£12,600** | **£12,600** | **£11,000** | **£11,000** |
| Dyletswyddau ar Gynghorwyr Sir a Chymuned (1.7) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | £17,700 | £17,700 | - | - | **£17,700** | **£17,700** | **£16,000** | **£16,000** |
| Adroddiadau Blynyddol a Pherfformiad Cynghorwyr Sir (1.8) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | £15,000 | £15,000 | **£15,000** | **£15,000** | **£13,100** | **£13,100** |
| Dyletswydd ar arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau ymddygiad (1.9) | Opsiwn 3 | £5,100 | £5,100 | - | - | - | - | - | - | **£5,100** | **£5,100** | **£4,900** | **£4,900** |
| Rolau a chyfrifoldebau Arweinwyr a Meiri Etholedig (1.10) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | £5,100 | £5,100 | **£5,100** | **£5,100** | **£4,400** | **£4,400** |
| Ystyriaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth Benodi Aelodau'r Cabinet a Chynorthwywyr y Weithrediaeth (1.11) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | £11,500 | £11,500 | **£11,500** | **£11,500** | **£10,000** | **£10,000** |
| Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu (1.12) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyd-bwyllgorau Craffu (1.13) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cynlluniau Corfforaethol (2.1) | Opsiwn 3 | - | - | £13,300 | £13,300 | - | - | - | - | **£13,300** | **£13,300** | **£12,400** | **£12,400** |
| Hunanasesiadau ac Asesiadau gan Gymheiriaid (2.2) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | £456,600 | £512,200 | **£456,600** | **£512,200** | **£344,000** | **£385,700** |
| Asesiadau Cyfun a Chydgysylltu rhwng Rheoleiddwyr (2.3) | Opsiwn 3 | - | - | - | - | - | - | £550,200 | £550,200 | **£550,200** | **£550,200** | **£412,600** | **£412,600** |
| Ymyrryd (2.4) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | £38,100 | £38,100 | **£38,100** | **£38,100** | **£28,500** | **£28,500** |
| Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio (2.5) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Adolygiad o Gynghorau Cymuned (3.1) | Opsiwn 3 | £120,800 | £153,600 | £343,100 | £386,300 | £269,500 | £302,500 | - | - | **£733,400** | **£842,300** | **£680,100** | **£781,900** |
| Cyngor Cymuned â chymhwysedd (3.2) | Opsiwn 2 | £14,100 | £14,100 | - | - | - | - | - | - | **£14,100** | **£14,100** | **£13,600** | **£13,600** |
| Canllawiau i Gyrff Cyhoeddus ar Faterion sy'n ymwneud â'r Gweithlu a Chomisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus (4.1) | Opsiwn 2 | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Cyfanswm** | | **£140,000** | **£172,800** | **£356,400** | **£399,600** | **£308,600** | **£341,600** | **£1,094,200** | **£1,149,800** | **£1,899,200** | **£2,063,700** | **£1,574,400** | **£1,717,800** |

## 5.2. Manteision

Mae amrywiaeth eang o fanteision na ellir eu mesur yn gysylltiedig â'r opsiynau polisi a ffefrir a nodir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol hwn. Mae'r rhain yn cynnwys bod yn fwy agored a thryloyw, mwy o gyfranogiad gan y gymuned ym mhrosesau gwneud penderfyniadau Awdurdodau Lleol a gwell rheoli perfformiad.

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r prif fanteision sy'n gysylltiedig â phob un o'r bwriadau polisi, ynghyd â'r opsiwn a ffefrir sydd wedi'i nodi.

| Bwriad Polisi | Yr Opsiwn a Ffefrir | Manteision |
|---|---|---|
| Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol | Opsiwn 3 | Bydd Cynghorau Sir a Chynghorau Cymuned â chymhwysedd yn cael cyfle i ymateb mewn ffordd arloesol i'r pwysau ariannol a demograffig mawr a wynebant |
| Cyfranogiad y Cyhoedd mewn Llywodraeth Leol | Opsiwn 3 | Mae Cynghorau Sir yn fwy agored a thryloyw, mae democratiaeth leol yn gryfach ac mae pobl leol yn cymryd mwy o ran |
| Pwyllgorau Ardaloedd Cymunedol | Opsiwn 2 | Rôl arweiniad cymunedol i Gynghorwyr sy'n ei gwneud yn bosibl i safbwyntiau cymunedau ddylanwadu ar benderfyniadau ariannu |
| Ceisiadau Gwella | Opsiwn 2 | Mae cyrff cymunedol yn cyfrannu at wella gwasanaethau a chanlyniadau |
| Darlledu a Ffilmio Cyfarfodydd Cynghorau | Opsiwn 3 | Gall y cyhoedd ymgysylltu'n fwy gweithredol â democratiaeth leol |
| Arweiniad i'r Cyfansoddiad | Opsiwn 3 | Mae pobl yn deall yn well sut mae Cynghorau Sir yn gweithio a sut y gall y cyhoedd ymgysylltu â hwy |
| Dyletswyddau ar Gynghorwyr Sir a Chymuned | Opsiwn 3 | Nodir cyfrifoldebau Cynghorau Sir yn glir er mwyn sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd |
| Adroddiadau blynyddol a pherfformiad Cynghorwyr Sir | Opsiwn 3 | Mae pobl yn deall yn well yr hyn y mae Cynghorau Sir yn ei wneud a'r hyn y maent yn ei gyflawni dros bobl leol |
| Dyletswydd arweinwyr grwpiau gwleidyddol mewn perthynas â safonau | Opsiwn 3 | Mae safonau ymddygiad uwch yn annog pobl fwy amrywiol i sefyll etholiad fel Cynghorwyr |

| Bwriad Polisi | Yr Opsiwn a Ffefrir | Manteision |
|---|---|---|
| ymddygiad | | |
| Rolau a Chyfrifoldebau Arweinwyr a Meiri Etholedig | Opsiwn 3 | Mwy o atebolrwydd, drwy well ddealltwriaeth o flaenoriaethau Arweinwyr ac amcanion Cabinetau a Phrif Weithredwyr, a'u cynnydd tuag at eu cyflawni |
| Ystyriaethau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth wrth Benodi Aelodau'r Cabinet a Chynorthwywyr i'r Weithrediaeth | Opsiwn 2 | Mwy o amrywiaeth ymhlith aelodau'r Weithrediaeth a chynorthwywyr i'r Weithrediaeth. |
| Sicrhau bod gwybodaeth ar gael i bwyllgorau trosolwg a chraffu | Opsiwn 2 | Gwell craffu ar benderfyniadau Cynghorau |
| Cyd-bwyllgorau Craffu | Opsiwn 2 | Craffu mwy effeithlon ac effeithiol ar wasanaethau sydd wedi'u comisiynu ar y cyd, gan arwain at wella gwasanaethau a chanlyniadau i'r cyhoedd |
| Cynlluniau Corfforaethol | Opsiwn 3 | Mae gwaith cynllunio corfforaethol cyson a chadarn yn cefnogi trefniadau llywodraethu mwy effeithiol |
| Hunanasesiadau ac asesiadau gan gymheiriaid | Opsiwn 2 | Gwell llywodraethu a chamau gweithredu cynharach ar gyfleoedd i wella |
| Asesiadau cyfun a chydgysylltu rhwng rheoleiddwyr | Opsiwn 3 | Gwell llywodraethu a chamau gweithredu cynharach ar gyfleoedd i wella mewn Cynghorau Sir, a rheoleiddio mwy effeithiol |
| Ymyrryd | Opsiwn 2 | Cefnogaeth briodol ac amserol gan arwain at lywodraethu cryfach a gwell canlyniadau i'r cyhoedd |
| Pwyllgorau Llywodraethu Corfforaethol ac Archwilio | Opsiwn 2 | Gwell llywodraethu, her fwy effeithiol a mwy o sicrwydd |
| Adolygiad o drefniadau Cynghorau Cymuned | Opsiwn 3 | Cynghorau Cymuned sy'n meddu ar fwy o allu i gefnogi eu cymunedau |

| Bwriad Polisi | Yr Opsiwn a Ffefrir | Manteision |
|---|---|---|
| Cynghorau Cymuned â chymhwysedd | Opsiwn 2 | Gall Cynghorau Cymuned fod yn fwy uchelgeisiol ac arloesol. Mwy o hyder mewn Cynghorau Cymuned |
| Comisiwn Staff y Gwasanaethau Cyhoeddus | Opsiwn 2 | Gweithlu mwy effeithiol yn y sector cyhoeddus a mwy o sicrwydd i'r gweithlu |

## Rhestr o Dablau

Tabl 1: Costau Bwriadau Polisi........16
Tabl 2: Costau Bwriadau Polisi........19
Tabl 3: Costau Bwriadau Polisi........25
Tabl 4: Pecyn Darlledu Contract Unigol........34
Tabl 5: Costau canllawiau........35
Tabl 6: Costau Bwriadau Polisi........40
Tabl 7: Costau Bwriadau Polisi........42
Tabl 8: Costau Trefnu Digwyddiadau........45
Tabl 9: Costau Bwriadau Polisi........47
Tabl 10: Costau Bwriadau Polisi........52
Tabl 11: Costau Bwriadau Polisi........54
Tabl 12: Costau Bwriadau Polisi........58
Tabl 13: Costau Bwriadau Polisi........60
Tabl 14: Costau Bwriadau Polisi........64
Tabl 15: Costau Bwriadau Polisi........70
Tabl 16: Costau Bwriadau Polisi........71
Tabl 18: Costau Bwriadau Polisi........92
Tabl 19: Costau Bwriadau Polisi........93
Tabl 20: Costau Bwriadau Polisi........97
Tabl 21: Costau Bwriadau Polisi........102
Tabl 22: Costau Bwriadau Polisi........108
Tabl 23: Costau Bwriadau Polisi........113